*24.03.11*

***2011 Rhif 20***

# Cod Ymarfer Amaethyddol Da

## Ar Gyfer Diogelu Dŵr, Pridd ac Aer Cymru

# Llywodraeth Cynulliad Cymru

## Cydnabyddiaethau

Lluniwyd y Cod hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â'r canlynol, ynghyd â mewnbwn a sylwadau ganddynt:

Defra, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru,
Cyngor Cefn Gwlad Cymru,
Is-adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru: Y Strategaeth Wastraff, Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, Taliadau Gwledig, Iechyd Planhigion, Newid yn yr Hinsawdd a Pholisi Dŵr, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, CADW

Ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid canlynol:

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru, y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Dŵr Cymru, Gwasanaethau Dŵr Kelda Cymru, Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru, Canolfan Organig Cymru, Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt, Hybu Cig Cymru, Coleg Garddwriaeth Cymru, CALU, Cyngor y Parciau Cenedlaethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, Ymddiriedolaethau Natur Cymru, Cylchoedd Peiriannau, ADAS.

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | **Ynglŷn â'r Cod hwn** | 1 |
| **RHAN 1** | **Cyflwyniad** | 4 |
| **1** | **Cyflwyniad** | 5 |
| 1.1 | Diogelu Adnoddau | 5 |
| 1.1.1 | Dŵr | 5 |
| 1.1.2 | Aer | 9 |
| 1.1.3 | Pridd | 10 |
| 1.2 | Newid yn yr Hinsawdd | 11 |
| 1.2.1 | Nwyon Tŷ Gwydr | 11 |
| 1.2.2 | Effeithlonrwydd Ynni | 12 |
| 1.2.3 | Carbon Pridd | 12 |
| 1.3 | Diogelu'r Amgylchedd Ehangach | 12 |
| 1.3.1 | Cynefinoedd a Rhywogaethau Tir Fferm | 13 |
| 1.3.2 | Diogelu Cynefinoedd a Rhywogaethau | 14 |
| 1.3.3 | Yr Amgylchedd Hanesyddol | 14 |
| 1.3.4 | Tirwedd | 15 |
| **RHAN 2** | **Lleihau'r Risg o Lygredd** | 16 |
| **2** | **Cynllunio Gwaith Rheoli Amgylcheddol** | 17 |
| 2.1 | Gofynion Cyfreithiol | 17 |
| 2.2 | Arfer Da | 18 |
| 2.2.1 | Cynlluniau Rheoli | 20 |
| 2.2.2 | Cynlluniau ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy | 25 |
| 2.2.3 | Cynllun ar gyfer Damweiniau ac Argyfyngau Amgylcheddol | 25 |
| 2.2.4 | Cyfrifoldebau Rheolwyr Tir, Ffermwyr, Staff Ffermydd a Chontractwyr | 26 |
| **3** | **Adeiladau a Strwythurau Fferm** | 27 |
| 3.1 | Gofynion Cyfreithiol | 27 |
| 3.2 | Arfer Da | 33 |
| 3.2.1 | Glanhau a diheintio | 34 |
| 3.2.2 | Storfeydd silwair ac elifion | 34 |
| 3.2.3 | Adeiladau da byw | 35 |
| 3.2.4 | Casglu, storio a thrin tail a dŵr brwnt | 37 |
| 3.2.5 | Dipio defaid | 42 |

| | | |
|---|---|---|
| 3.2.6 | Storio a thrafod plaladdwyr | 44 |
| 3.2.7 | Storio a thrafod gwrtaith | 45 |
| 3.2.8 | Storio olew tanwydd | 46 |
| 3.2.9 | Trafod pridd yn ystod gwaith adeiladu | 46 |
| **4** | **Hwsmonaeth Caeau** | 48 |
| 4.1 | Gofynion Cyfreithiol | 48 |
| 4.2 | Arfer Da | 52 |
| 4.2.1 | Draeniau a llwybrau | 53 |
| 4.2.2 | Rheoli caeau | 53 |
| 4.2.3 | Rheoli da byw | 54 |
| 4.2.4 | Rheoli cnydau a thrin tir | 56 |
| 4.2.5 | Defnyddio plaladdwyr | 59 |
| 4.2.6 | Priddoedd ucheldir a Phriddoedd mawnog | 61 |
| 4.2.7 | Cynhyrchu tyweirch | 61 |
| **5** | **Rheoli Maetholion** | 63 |
| 5.1 | Gofynion Cyfreithiol | 63 |
| 5.2 | Arfer Da | 66 |
| 5.2.1 | Cynllunio gwaith rheoli maetholion | 67 |
| 5.2.2 | Cynnal ffrwythlondeb pridd | 68 |
| 5.2.3 | Defnyddio maetholion | 69 |
| 5.2.4 | Defnyddio tail da byw a dŵr brwnt | 69 |
| 5.2.5 | Defnyddio calch a gwrtaith sachau | 73 |
| 5.2.6 | Defnyddio gwastraff oddi ar y fferm a gwastraff organig | 75 |
| 5.2.7 | Pridd Halogedig | 75 |
| **6** | **Garddwriaeth arbenigol** | 80 |
| 6.1 | Gofynion Cyfreithiol | 80 |
| 6.2 | Arfer Da | 81 |
| 6.2.1 | Y Defnydd o Ynni | 81 |
| 6.2.2 | Cnydau a warchodir | 81 |
| 6.2.3 | Stoc meithrinfa a dyfir mewn cynwysyddion | 82 |
| 6.2.4 | Madarch | 82 |
| 6.2.5 | Berwr dŵr | 83 |
| **RHAN 3** | **Rheoli Adnoddau** | 84 |
| **7** | **Rheoli Gwastraff** | 85 |
| 7.1 | Gofynion Cyfreithiol | 85 |
| 7.2 | Arfer Da | 89 |
| 7.2.1 | Lleihau gwastraff | 90 |

7.2.2 Storio, adfer a gwaredu gwastraff 90
7.2.3 Eithriadau ar gyfer gwastraff 90
7.2.4 Gwaredu plaladdwyr gwastraff 92
7.2.5 Gwaredu carcasau anifeiliaid 92

**8 Cyflenwadau Dŵr ar y Fferm** 94
8.1 Gofynion Cyfreithiol 94

8.2 Arfer Da 95
8.2.1 Archwiliadau Dŵr 95
8.2.2 Dyfrhau cnydau 96
8.2.3 Golchi llysiau 96
8.2.4 Dŵr ar gyfer da byw 97
8.2.5 Cynaeafu dŵr glaw 97

**Cyfeiriadau**
**Cysylltiadau defnyddiol**
**Atodiadau**
**Mynegai**

# Ynglŷn â'r Cod hwn

Mae'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da ar gyfer Diogelu Dŵr, Pridd ac Aer Cymru yn rhoi cyngor a chanllawiau i ffermwyr a rheolwyr tir ar leihau'r risg o achosi llygredd cymaint â phosibl.

Mae'r Cod yn cynnwys cyngor ar arfer amaethyddol da o lawer o ffynonellau. Yn y Cod hwn y diffiniad o arfer da yw'r hyn sy'n lleihau'r risg o lygredd tra'n caniatáu i ffermio proffidiol a chynhyrchiol barhau.

Mae'r Cod hefyd yn fan cyfeirio ar gyfer y gofynion cyfreithiol ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir o ran aer, pridd a dŵr. Mae hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at ofynion cyfreithiol cysylltiedig megis cynllunio, mynediad a bioamrywiaeth.

## Cynnwys y Cod

Mae'r Cod hwn yn dwyn ynghyd ganllawiau a ddarparwyd yn flaenorol yn y Codau unigol ar gyfer Aer, Pridd a Dŵr gan y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ac Adran Amaethyddiaeth y Swyddfa Gymreig (a ddiwygiwyd ddiwethaf yn 1998) ac yn eu diweddaru. Mae'n adlewyrchu'r newidiadau diweddaraf mewn arferion amaethyddol a rhwymedigaethau amgylcheddol ac mae'n gymwys i Gymru'n unig.

Mae'r cyngor yn y Cod hwn yn cydnabod y gall gweithgareddau ffermio penodol effeithio ar ddŵr, aer a phridd i gyd ar yr un pryd. Er enghraifft, bydd dilyn cynllun rheoli maetholion yn sicrhau y caiff gwrteithiau a thail organig eu defnyddio'n effeithiol a gall:

- gyfyngu ar drwytholchi nitradau i ddŵr wyneb a dŵr daear;
- atal ffosfforws rhag cronni'n ddiangen yn y pridd a'r posibilrwydd y caiff ei drosglwyddo i'r amgylchedd dŵr;
- lleihau'r risg y caiff ocsid nitraidd (nwy tŷ gwydr) ei ryddhau i'r atmosffer;
- gwella strwythur pridd.

Mae'r cyngor hefyd yn cydnabod y gallwch arbed arian hefyd drwy ddilyn yr arfer da. Ceir manylion pellach am arbedion cost yng Nghanllawiau Arferion Ffermio Gorau Asiantaeth yr Amgylchedd a Thaflenni Data Cyswllt Ffermio ‘For Better Returns’ (Cyfeiriadau 1 a 2).

## Sut mae'r Cod wedi'i strwythuro

Mae tair rhan i'r Cod:

Mae Rhan 1 (ac adran 1) o'r Cod yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am sut y gall gweithgareddau fferm effeithio ar yr amgylchedd.

Mae Rhan 2 o'r Cod, sef y Cod Statudol o dan adran 97 o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr, gweler isod, yn cynnwys adrannau 2 - 6 sy'n ymwneud ag agweddau ar

weithgarwch fferm, yn amrywio o gynllunio'r gwaith o reoli'r daliad o safbwynt amgylcheddol i ofalu am adeiladau fferm a hwsmonaeth caeau.

Mae Rhan 3 o'r Cod (adrannau 7 ac 8) yn rhoi cyngor pellach ar ddiogelu aer, pridd a dŵr o ran rheoli gwastraff a chyflenwadau dŵr.

Mae adrannau 2 – 8 yn ymwneud â meysydd o weithgarwch ffermio, a rheoli gwastraff ac adnoddau dŵr.

Mae pob adran yn cynnwys canllaw ar y gofynion cyfreithiol a'r gofynion trawsgydymffurfio ar gyfer y gweithgaredd – yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud yn ôl y gyfraith.

Ceir testun deddfau a chyfarwyddebau Ewropeaidd yn http://eurlex.europa.eu/en/index.htm

Ceir testun deddfau Cenedlaethol a memoranda eglurhaol yn http://www.opsi.gov.uk a http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wales_legislation

Mae gwefan Asiantaeth yr Amgylchedd www.netregs.gov.uk hefyd yn rhoi canllawiau pellach.

Mae gweddill pob adran yn cynnwys cyngor sy'n ychwanegol at eich rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae'r cyngor arfer da hwn yn cynnwys crynodeb o'r pwyntiau allweddol, wedi'u dilyn gan gyngor manylach ar arfer da ar gyfer pob gweithgaredd.

**Statws cyfreithiol y Cod**

O dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, mae'n drosedd achosi neu ganiatáu'n fwriadol weithgaredd gollwng dŵr neu weithgaredd dŵr daear[1], mewn geiriau eraill llygru dŵr wyneb neu ddŵr daear, oni bai fod gennych Drwydded Amgylcheddol.

Mae dŵr wyneb yn cynnwys pob math o ddŵr wyneb: dyfroedd arfordirol, aberoedd, camlesi, llynnoedd, pyllau, afonydd, nentydd a ffosydd, gan gynnwys y rheini sy'n sych dros dro, a ffosydd cudd.

Ystyr dŵr daear yw unrhyw ddŵr sydd o dan wyneb y ddaear yn y gylchfa ddirlawnder ac mewn cysylltiad uniongyrchol â'r ddaear neu'r isbridd.

[1] Mae gweithgareddau gollwng dŵr yn cynnwys gollwng unrhyw sylwedd gwenwynig, afiach neu lygrol, neu unrhyw ddeunydd gwastraff, i ddŵr wyneb. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, ollyngiadau silwair, elifion a slyri. Mae gweithgareddau dŵr daear yn cynnwys gollwng llygrydd sy'n arwain yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at y llygrydd hwnnw yn mynd i mewn i ddŵr daear.

Lluniwyd Rhan 2 o'r Cod hwn o dan adran 97 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, sy'n darparu ar gyfer Cod Ymarfer Amaethyddol Da i roi canllawiau ymarferol a hyrwyddo arferion y mae angen eu mabwysiadu i atal dyfroedd wyneb a daear rhag cael eu llygru. Er nad oes yn rhaid i chi ddilyn y cyngor a roddir yn Rhan 2, gallai Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ystyried p'un a ydych wedi'i ddilyn ai peidio wrth benderfynu ar gamau gorfodi yn dilyn achos o lygru dŵr. Nid yw hyn yn gymwys i unrhyw gyngor a roddir at ddibenion lleihau'r risg y caiff aer a phridd eu llygru yn unig.

Mae rhannau o'r Cod hefyd yn bodloni gofyniad Erthygl 4 o Gyfarwyddeb Nitradau'r CE[2]. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu Cod Ymarfer Amaethyddol Da i'w weithredu gan ffermwyr yn wirfoddol, i roi lefel gyffredinol o ddiogelwch i unrhyw ddyfroedd rhag llygredd nitradau. Cynhwysir y cyngor hwn yn Atodiad 1 i'r Cod hwn. Anogir ffermwyr sydd â thir y tu allan i Barthau Perygl Nitradau ddilyn y Cod hwn er mwyn helpu i atal lefel y nitradau mewn dyfroedd rhag cynyddu i'r pwynt lle byddai angen rheoleiddio pellach. Fodd bynnag, rhaid i reolwyr tir mewn Parthau Perygl Nitradau ddilyn y Rheoliadau gorfodol. Darperir canllawiau llawn yn hyn o beth yn y Pecyn i Ffermwyr ar Barthau Perygl Nitradau yng Nghymru (Cyf 3).

Bydd dilyn y gofynion cyfreithiol ac arferion da yn y Cod hwn yn helpu i gyrraedd y safonau a bennwyd gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr[3]. Mae'r gyfarwyddeb hon yn gofyn am ddull integredig o reoli ansawdd a lefelau dŵr mewn dalgylchoedd afonydd cyfan, gyda dyfroedd yn sicrhau ‘statws ecolegol da' erbyn 2015.

Bydd dilyn arfer da yn y Cod hwn hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r targedau a bennwyd o dan y Gyfarwyddeb Uchafswm Allyriadau Cenedlaethol[4] a Phrotocol Göteborg UNECE[5], i gyflawni targedau ar gyfer cyfyngu ar allyriadau amonia.

Noder, er y bydd yn helpu i'w cyflawni, nid yw dilyn y Cod hwn yn disodli unrhyw rwymedigaethau a osodwyd arnoch gan ofynion Trawsgydymffurfio os ydych yn hawlio'r Taliad Sengl, neu unrhyw Warant Fferm, Safonau Organig neu gynlluniau rheoli tir.

[2] Y Gyfarwyddeb Nitradau 91/676/EEC

[3] Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2000/60/EC.

[4] Cyfarwyddeb Uchafswm Allyriadau Cenedlaethol 2001/81/EC a weithredwyd gan Reoliadau Uchafswm Allyriadau Cenedlaethol 2002.

[5] Protocol i Gonfensiwn 1979 ar lygredd aer trawsffiniol pellgyrhaeddol i leihau asideiddio, ewtroffeiddio ac osôn ar lefel y ddaear.

# RHAN 1

# Cyflwyniad

# 1 Cyflwyniad

**Mae'r adran hon yn disgrifio sut y gall arfer amaethyddol effeithio ar ein dŵr, ein pridd a'n haer.**

**Mae diogelu ein hadnoddau dŵr, aer a phridd naturiol yn hanfodol i sicrhau amgylchedd cynaliadwy ac ar gyfer ffermio a choedwigaeth. Bydd rheoli'r adnoddau hyn yn dda yn helpu i gynnal eich busnes ffermio, lleihau costau drwy osgoi llygredd, ac ychwanegu gwerth drwy ddangos i gwsmeriaid bod eu bwyd wedi'i gynhyrchu'n gynaliadwy.**

**Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod hyd at un o bob chwe swydd yng Nghymru yn dibynnu i ryw raddau o leiaf ar yr amgylchedd yng Nghymru (Cyf 4).**

## 1.1 Diogelu Adnoddau

### 1.1.1 Dŵr

Mae dŵr glân yn bwysig iawn i economi Cymru wledig. Cymerir y rhan fwyaf o'r dŵr yfed yng Nghymru o afonydd sy'n draenio ardaloedd amaethyddol pwysig, a arferai fod yn lân iawn. Mae dŵr daear[6] hefyd yn adnodd pwysig ar gyfer dŵr yfed - ceir miloedd o ffynhonnau a chyflenwadau dŵr preifat ledled Cymru, yn enwedig ar ffermydd.

Mae dŵr glân hefyd yn cynnal economïau lleol yng Nghymru yn fwy uniongyrchol, er enghraifft ansawdd ein dyfroedd ymdrochi ac mae'r “Baneri Glas” a ddyfernir i draethau ac a gydnabyddir yn rhyngwladol yn dibynnu'n fawr ar ddyfroedd glân mewn nentydd neu afonydd gerllaw sy'n draenio o dir amaethyddol. Mae pysgota yn afonydd a llynnoedd Cymru yn werth tua £100 miliwn bob blwyddyn i'r economi, gyda'r arian yn cael ei wario yn bennaf yn yr ardaloedd pysgota gwledig lleol (Cyf 5).


**<u>Llygredd Dŵr</u>**

Mae nifer o risgiau llygredd yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth.

Gelwir llygredd sy'n dod o un ffynhonnell y gellir ei nodi megis adeilad, storfa neu faes yn **llygredd o ffynhonnell benodol**. Prif achosion y math hwn o

[6] Dŵr daear yw'r dŵr a ddelir o dan y ddaear mewn creigiau sydd wedi ffurfio. Lle mae'r rhain yn cynnal ffynhonnau, tyllau turio, dŵr wyneb, cynefinoedd gwlyptir ac ati, fe'u gelwir yn ddyfrhaenau. Mae dŵr daear yn llifo i mewn i nentydd ac afonydd yn ogystal â darparu ffynhonnell dŵr yfed. Os caiff ei halogi gall gymryd blynyddoedd a chryn dipyn o arian i'w adfer.

lygredd yw gorlif neu ollyngiadau o storfeydd slyri, elifion silwair o gyfleusterau silwair yn gollwng o systemau draenio iardiau nad ydynt yn gysylltiedig â storfeydd slyri, agrocemegau, olewau neu gemegau dipio defaid sy'n cael eu colli neu sy'n gollwng.





Gall **llygredd gwasgaredig** ddod o lawer o feysydd neu ffynonellau mewn dalgylch dros amser, ac nis achosir gan ddigwyddiad neu weithred unigol. Mae gwasgaru slyri ar nifer o gaeau mewn dyffryn afon yn enghraifft o hyn. Efallai nad ystyrir bod slyri sy'n cael ei olchi oddi ar y tir mewn un cae yn broblem fawr, ond gallai'r holl slyri sy'n cael ei olchi oddi ar y tir ym mhob un o'r caeau arwain at ansawdd dŵr gwael a pheri i faneri glas gael eu colli mewn dyfroedd ymdrochi dynodedig, neu gallai wneud nant yn anaddas ar gyfer rhoi dŵr i dda byw.

<u>Lefelau BOD nodweddiadol Llygryddion Fferm</u>

Pan fydd micro-organebau sy'n digwydd yn naturiol mewn dŵr yn dadelfennu deunydd organig maent yn defnyddio ocsigen yn y dŵr, gan fygu pysgod a bywyd gwyllt. Mewn achosion difrifol gall hyn ladd yr holl organebau byw yn yr afon. Mae'r Galw Biocemegol am Ocsigen (BOD) yn fesur (mewn miligramau o ocsigen/litr o ddŵr) o hyn. Fe'i defnyddir i ddangos cryfder llygrol tail da byw a deunyddiau eraill. Mewn dŵr wyneb Gradd 1[7] ceir fel arfer BOD o lai na 3mg/l, gellir ystyried bod unrhyw lwyth sy'n fwy na hyn yn llygrydd.

[7] Mae dŵr wyneb yn cynnwys pob math o ddŵr wyneb: dyfroedd arfordirol, aberoedd, camlesi, llynnoedd, pyllau, afonydd, nentydd a ffosydd, gan gynnwys y rhai sy'n sych dros dro, a ffosydd cudd.




Ffynhonnell: Prevention of Environmental Pollution from Agricultural Activity – A Code of Good Practice, 2005, Gweithrediaeth yr Alban

Mae **elifion silwair,** sef yr hylif a gynhyrchir pan gaiff unrhyw gnwd porthiant ei droi'n silwair, yn un o'r llygryddion cryfaf ar y fferm. Bydd ychydig iawn iawn ohono yn lladd pysgod ac organebau byw yn y dŵr os bydd yn mynd i mewn i ddŵr wyneb. Bydd porfa a gaiff ei thorri â 18% o ddeunydd sych a'i silweirio ar unwaith yn cynhyrchu tua 150 litr fesul tunnell. Mae porfa sydd wedi gwywo nes ei bod yn cynnwys 25% o ddeunydd sych yn cynhyrchu tua 25 litr fesul tunnell.

Mae **tail da byw**[8]**, dŵr brwnt**[9] **a gwastraff organig**[10] yn berygl penodol os cânt eu rhyddhau i mewn i ddŵr neu eu golchi i mewn iddo o gaeau.

- Mae ganddynt BOD uchel fel y dangoswyd uchod, a gallant arwain at bysgod yn cael eu lladd.
- Gall yr amonia sydd ynddynt wenwyno bywyd gwyllt yn y dŵr a lladd pysgod.
- Maent yn cynnwys lefelau uchel o bathogenau ysgarthol, a all beryglu iechyd y cyhoedd os cânt eu rhyddhau i mewn i ddŵr wyneb a ddefnyddir ar gyfer cyflenwadau dŵr yfed (Cyf 6), neu i mewn i ddyfroedd ymdrochi.

---

[8] Yn y Cod hwn, mae tail da byw yn cynnwys slyri, dom sych a thail buarth.

[9] Cyfeirir at olchion gwan o barlyrau godro a dŵr ffo o rannau o'r buarth sydd wedi'u halogi ychydig bach fel dŵr brwnt.

[10] Mae gwastraff organig yn cynnwys gwastraff llaeth, gwastraff papur, cacen slwtsh carthion, slwtsh carthion hylif, compost o wastraff a gweddillion treuliad anaerobig o blanhigion treulio anaerobig.

- Mae'r maetholion sydd ynddynt yn achosi ewtroffeiddio[11].

Gall **nitrogen**, ar ffurf **nitradau** o wrteithiau, a thail, ac mewn rhai amgylchiadau, hefyd **ffosfforws**, gael eu trwytholchi o'r pridd i mewn i ddŵr daear a dyfroedd wyneb. Fe'u ceir hefyd mewn dŵr ffo o gaeau (ar ffurf doddadwy) yn ogystal ag yn neunydd organig pridd, tail organig ac ynghlwm wrth ronynnau pridd lle y gellir eu rhyddhau i ddŵr wyneb drwy brosesau erydu pridd a chyfrannu at ewtroffeiddio.  Gall nitrogen amoniwm o dail organig hefyd lygru dŵr daear a dŵr wyneb.

Fel arfer mae ffosfforws ar ffurf **ffosffad** ynghlwm wrth ronynnau pridd, a bydd unrhyw fesurau i atal gronynnau pridd rhag cael eu colli o gaeau yn helpu i leihau llygredd ffosffad.

Gall **pridd wedi'i erydu** barhau mewn daliant yn y dŵr a gall effeithio ar ansawdd dŵr yfed. Gall gronynnau mwy o faint ddisgyn i'r gwaelod yng ngro mân afonydd, proses a elwir yn waddodi, gan achosi niwed difrifol i bysgodfeydd drwy orchuddio mannau silio a lleihau'r cyflenwad o fwyd. Gall y cyfryw waddod hefyd gynnal llawer iawn o lystyfiant dyfrol, gan gynyddu'r effaith gorchuddio, ac a all gynyddu'r risg o lifogydd.

Mae **agrocemegau** (plaladdwyr, diheintyddion, dip defaid a meddyginiaethau milfeddygol eraill) yn llygryddion dŵr gwenwynig iawn, ac mae'n rhaid eu rheoli'n briodol.  Gall cemegau dipio defaid yn arbennig gael effaith enfawr ar ecoleg afon.  At hynny, 0.1 microgram fesul litr yn unig yw'r crynodiad uchaf a ganiateir ar gyfer unrhyw blaladdwr penodol mewn dŵr yfed[12] (sy'n cyfateb i un diferyn mewn pwll nofio maint Olympaidd) ac mae'n hawdd i grynodiadau uwch na hyn gronni oni chaiff ei reoli'n ofalus.

Gall gollyngiadau **olew tanwydd** ar ffermydd arwain at lygru dŵr a niweidio bywyd gwyllt.  Mae olew yn ymledu yn eang iawn dros wyneb y dŵr a gall fynd i mewn i ddŵr daear yn hawdd.  Mae costau glanhau yn uchel iawn.

## Llifogydd

Disgwylir i newid yn yr hinsawdd effeithio ar lawiad yn y gaeaf a'r haf, gan arwain at dywydd mwy eithafol.  Mae llifogydd a chyfnodau o sychder yn fwy tebygol o ddigwydd a gallent gael effaith sylweddol ar fusnesau fferm.  Bydd mabwysiadu arferion i helpu'r tir i dderbyn dŵr ac arafu llif dŵr yn lleihau'r perygl o lifogydd ymhellach i lawr y dalgylch, a bydd cynnal lefelau deunydd

[11] Ystyr ewtroffeiddio yw cyfoethogi ecosystemau gan nitrogen neu ffosfforws. Mewn dŵr mae'n achosi i algae a phlanhigion mwy cymhleth dyfu'n rhy gyflym, gan arwain, o bosibl, at ordyfiant o algae gwenwynig. Mae hyn yn tarfu ar gydbwysedd yr organebau yn y dŵr ac ansawdd y dŵr dan sylw. Ar dir, gall ysgogi twf rhai planhigion sydd wedyn yn ymledu i bob rhan o'r tir gyda'r canlyniad bod amrywiaeth naturiol yn cael ei golli.

[12] Cyfarwyddeb Dŵr Yfed 98/85/EC

organig pridd yn cadw dŵr i helpu i gynyddu pwysau cnydau a chynnyrch da byw.

### 1.1.2 Aer

Mae angen i ni i gyd anadlu awyr iach a glân ac rydym i gyd yn disgwyl gwneud hynny. Mae'n ffactor pwysig o ran ansawdd bywyd yng Nghymru, a'n diwydiant twristiaeth. Bob blwyddyn mae awdurdodau lleol yn derbyn cwynion gan y cyhoedd ynghylch arogleuon fferm ac er nad oes modd osgoi llawer o'r cwynion hyn, gellir cwtogi arnynt drwy arfer da. Mae allyriadau nwy hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at newid yn yr hinsawdd – gweler adran 1.2.

**Llygredd Aer**

Y prif ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n diogelu ein hadnoddau aer yw Deddf Aer Glân 1993, a Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, a orfodir gan Adran Iechyd Amgylcheddol awdurdodau lleol. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i arolygu eu hardaloedd i ganfod unrhyw niwsansau statudol a chymryd camau rhesymol ymarferol i ymchwilio i gwynion ynghylch niwsansau statudol a wneir iddynt. Os ceir niwsans statudol, neu os yw'n debygol o ddigwydd neu ddigwydd eto, mae'n ddyletswydd arnynt i gyflwyno hysbysiad atal.

Mae arferion ffermio moch a dofednod dwys hefyd yn achosi llygredd aer, a rheoleiddir hyn drwy'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd[13] .

Y prif niwsans statudol sy'n deillio o amaethyddiaeth yw:

**Amonia a nwyon sy'n creu arogleuon** a ryddheir o dail organig wrth ei drafod a'i storio, ac wrth ei wasgaru ar y tir ac ar ôl hynny. Gall amonia yn yr awyr achosi problemau iechyd ymhlith pobl. Pan gaiff ei ailddyddodi, gall asideiddio priddoedd, cynefinoedd naturiol a dyfroedd croyw. Drwy gynyddu'r cyflenwad o nitrogen, gall leihau bioamrywiaeth, yn enwedig mewn dyfroedd wyneb ucheldirol a chynefinoedd naturiol a lled-naturiol. Mae amaethyddiaeth yn cynhyrchu mwy nag 85 y cant o'r allyriadau amonia yn y Deyrnas Unedig (Cyf 7), felly mae'n bwysig ystyried ffyrdd o leihau hyn.

Gostyngwyd **lefelau mwg tywyll neu fwg niwsans** yn sylweddol gan reoliadau sy'n cyfyngu ar yr hyn y gellir ei losgi yn yr awyr agored[14]. Erbyn hyn mae'n rhaid ailgylchu deunydd gwastraff ffermydd neu ei waredu'n gywir, i sicrhau nad yw'n peri risg i'r amgylchedd (gweler adran 7).

Gall adeiladau moch a dofednod hefyd gynhyrchu cryn dipyn o **ronynnau llwch**, a all amharu ar iechyd pobl sy'n byw gerllaw.

Am wybodaeth am **Nwyon Tŷ Gwydr**, gweler adran 1.2.1

[13] Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010
[14] Fel uchod

### 1.1.3 Pridd

Priddoedd iach yw sylfaen unrhyw fusnes fferm llwyddiannus. Mae pridd yn gyfrwng lle y gellir tyfu cnydau, mae'n darparu porthiant ar gyfer da byw ac yn sicrhau mynediad da i gaeau os caiff ei reoli'n briodol. Mae priddoedd yn adnodd cyfyngedig na ellir ei adnewyddu ac felly mae'n hanfodol eu rheoli'n gywir.

Mae priddoedd ag adeiledd da hefyd yn gweithredu fel system glustogi naturiol, gan hidlo llygryddion, ac yn lleihau niwed i'r amgylchedd. Maent hefyd yn cynnal cynefinoedd ecolegol a bioamrywiaeth, ac yn diogelu safleoedd archeolegol.

**<u>Effeithiau ar Briddoedd</u>**

Gall priddoedd gael eu llygru a'u halogi, a gallant gael eu niweidio gan weithgarwch maes a da byw. Gall ychydig o bridd sy'n cael ei olchi oddi ar dir (a elwir weithiau yn olchi pridd) ac erydu pridd, ymddangos yn ddibwys, ond gall achosi llygredd a niwsans ac arwain at golli maetholion, deunydd organig pridd a charbon.

Mewn rhai achosion, gall diraddiad pridd gyfrannu at niweidio dŵr wyneb a chynefinoedd yn amgylcheddol, ac at ryddhau nwyon tŷ gwydr. Gall hefyd fod yn golled ddrud, yn enwedig pan gollir maetholion ac effeithir ar natur hydrin y pridd ac iechyd cnydau (gan gynnwys porfa).

Gall **colli deunydd organig pridd** niweidio adeiledd pridd gan leihau pwysau cnydau, a gwaethygu ymdreiddiad dŵr gwael, erydu pridd a'r perygl o lifogydd. At hynny collir carbon pridd cysylltiedig. Dyma rai enghreifftiau o arferion sy'n lleihau deunydd organig pridd yng Nghymru:

- gorbori, lle mae clirio gormod o lystyfiant yn arwain at lai o ddeunydd organig yn cael ei ymgorffori yn y pridd;
- troi porfa barhaol yn wyndynnydd newydd a / neu systemau âr;
- prosesau llosgi grug nas rheolir neu a reolir yn wael lle y llosgir deunydd organig y pridd (Cyf 8).

Mae **erydu pridd** yn arwain at golli adnodd hanfodol o'ch caeau a gall achosi llygredd a phroblemau gwaddodi mewn cyrsiau dŵr ac ar ffyrdd. Gall hyn hefyd gyfrannu at lifogydd lleol. Dyma rai enghreifftiau o arferion sy'n arwain at erydu pridd:

- tyfu cnydau âr ar lethrau serth;
- gadael priddoedd moel dros y gaeaf;
- porthi atodol sy'n arwain at dda byw yn sathru ar dir a phridd yn cael ei olchi oddi ar dir i mewn i ddŵr wyneb gerllaw.

Achosir **cywasgiad pridd** gan dda byw a pheiriannau yn gwasgu i lawr ar y pridd, yn enwedig mewn tywydd gwlyb. Mae hyn yn niweidio adeiledd pridd, gan rwystro gwreiddiau rhag tyfu, maetholion rhag symud drwy'r pridd a phrosesau draenio, a gall hefyd gyfrannu at lifogydd lleol.

Gall **halogi pridd** gan fetelau trwm neu gemegau organig parhaus fod yn broblem, neu gall ddatblygu'n broblem, yn enwedig halogiad o wastraff organig a wasgerir ar y tir, neu halogiad a achosir drwy ddyddodiad atmosfferaidd. Dylech ystyried y posibilrwydd y bydd hyn yn digwydd a rheoli'r tir i ddiogelu ei ffrwythlondeb hirdymor.

Gellir datrys y cyfryw broblemau drwy gynllunio gweithgareddau fferm yn ofalus, cyflawni gwaith trin tir pan fo'r amodau yn iawn, a defnyddio'r arfer da a nodir yn y Cod hwn.  Bydd hyn yn cyfrannu at ddiogelu ein hadnodd dŵr a'r amgylchedd ehangach.  Er enghraifft, mewn llawer o achosion, rheoli tir mewn ffyrdd i atal pridd rhag cael ei golli yw'r ffordd orau o atal olion archeolegol rhag cael eu difrodi hefyd.

## 1.2 Newid yn yr Hinsawdd

### 1.2.1 Nwyon tŷ gwydr

Mae nwyon tŷ gwydr yn gyfrifol am newid yn yr hinsawdd a achosir gan bobl. Mae amaethyddiaeth yn cyfrif am 10.4% o'r holl nwyon tŷ gwydr yng Nghymru, a hon yw'r sector ffynhonnell bwysicaf ar gyfer methan ac ocsid nitraidd, sy'n cyfrif am 55% ac 85% o holl allyriadau'r ddau nwy hyn yng Nghymru, yn y drefn honno (Cyf 9).

Cynhyrchir **carbon deuocsid** drwy losgi tanwydd ffosil megis glo ac olew, i gynhyrchu ynni.  Y broses o weithgynhyrchu gwrteithiau nitrogen anorganig yw un o ffynonellau mwyaf carbon deuocsid o amaethyddiaeth, pan gaiff cryn dipyn o'r nwy ei ollwng i'r atmosffer.
Mae priddoedd yn elfen bwysig o'r cylch carbon, ac ar raddfa fyd-eang, nhw sy'n dal y stoc fwyaf o garbon, ar ôl y cefnforoedd, gweler 1.2.3 isod.

Cynhyrchir **ocsid nitraidd** gan ficro-organebau ar ôl gwasgaru gwrteithiau a thail organig ar dir, yn enwedig os yw'r pridd wedi'i awyru'n wael a gormod o nitrogen wedi'i wasgaru ar y tir.  Mae amaethyddiaeth yn gyfrifol am 85% o'r allyriadau ocsid nitraidd yng Nghymru, gyda phrosesau pridd yn cyfrif am 94% o'r cyfanswm hwnnw.   **Mae ocsid nitraidd 300 gwaith yn fwy pwerus fel nwy tŷ gwydr na charbon deuocsid.**

Cynhyrchir **methan** yn uniongyrchol gan wartheg a defaid, drwy eplesu enterig[15] ac fe'i rhyddheir o dail organig hefyd, ond ar raddfa lai. Mae amaethyddiaeth yn gyfrifol am 55% o'r holl allyriadau methan yng Nghymru, y cynhyrchir 90% ohonynt gan eplesu enterig.   **Mae methan 20 gwaith yn fwy pwerus fel nwy tŷ gwydr na charbon deuocsid.**

Mae **clorofflwrocarbonau** a **halonau** yn nwyon tŷ gwydr, ac maent hefyd yn niweidio'r haen osôn. Mewn amaethyddiaeth, defnyddir clorofflwrocarbonau mewn oergelloedd a halonau yn aml mewn diffoddwyr tân i'w defnyddio ar danau trydanol.

[15] Eplesu enterig yw'r broses o dreulio bwyd anifail yn y rwmen gan ficro-organebau, sy'n cynhyrchu methan fel sgil-gynnyrch.

Bydd defnyddio gwrteithiau a thail organig yn effeithlon fel y nodir yn y Cod hwn yn helpu i leihau allyriadau ocsid nitraidd a sicrhau elw ariannol i ffermwyr. Mae modd lleihau allyriadau methan drwy sicrhau bod da byw yn cael y deiet gorau posibl. Mae lefel y methan a allyrrir o dail da byw yn dibynnu ar y system a ddefnyddir i drafod a storio'r tail a'i wasgaru ar y caeau, ond bydd osgoi amodau anaerobig yn lleihau'r cyfryw allyriadau. Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl casglu a defnyddio methan o dail da byw mewn proses reoledig a elwir yn dreulio anaerobig, i gynhyrchu ynni.

### 1.2.2 Effeithlonrwydd Ynni

Bydd defnyddio ynni yn effeithlon ar y fferm yn cynhyrchu allyriadau $CO_2$ - am ganllawiau pellach gweler cyfeiriadau 2.4, 10 ac 11.. Bydd asesu cydbwysedd carbon eich fferm yn helpu i nodi arbedion cost a chyfrannu at fynd i'r afael â chynhesu byd-eang. Gall Cyfrifydd Carbon CALM, neu ddulliau tebyg, eich helpu i lunio'r cyfryw gydbwysedd (Cyf 12). Efallai y byddwch yn gallu hawlio’n ôl yr elfen drethadwy o unrhyw galedwedd a gwaith gosod drwy Gynllun Lwfans Cyfalaf Uwch y Llywodraeth (ECA) (gweler Cysylltiadau Defnyddiol).

### 1.2.3 Carbon pridd

Yng Nghymru mae priddoedd yn cynnwys tua naw gwaith yn fwy o garbon na'r hyn sydd wedi'i storio mewn llystyfiant (Cyf 13), ac mae dros 80% o'r carbon hwn yn gysylltiedig â phriddoedd ucheldir a glaswelltir, yn enwedig priddoedd mawnog ac organig. Amcangyfrifwyd bod cyfanswm y stoc carbon mewn pridd a llystyfiant yng Nghymru tua 450-500 o filiynau o dunelli o garbon.

Rhyddheir carbon deuocsid yn bennaf gan ddadfeiliad microbaidd ysbwriel planhigion a deunydd organig pridd ond gall gweithgarwch amaethyddol sy'n effeithio ar amodau a phrosesau pridd gynyddu allyriadau carbon deuocsid. Er enghraifft, mae draenio priddoedd organig dwrlawn yn arwain at awyru ac at lefelau uwch o ddadfeiliad microbaidd ac allyriadau carbon deuocsid. I'r gwrthwyneb, mae rheoli priddoedd i gynyddu eu cynnwys organig yn dal ac yn storio carbon. Mae'n bwysig atal y stociau pridd hyn a'r carbon cysylltiedig rhag cael eu diraddio.

## 1.3 Diogelu'r amgylchedd ehangach

Mae'r Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru (Cyf 14) yn rhestru heriau pellach sy'n wynebu amgylchedd Cymru sy'n ychwanegol at y rhai a nodwyd uchod, gan gynnwys colli bioamrywiaeth a cholli tirwedd ac ansawdd treftadaeth a hynodrwydd ein tirwedd. Mae gan berchenogion a rheolwyr tir ran bwysig i'w chwarae wrth leihau ac atal y colledion hyn, mae llawer o'r arfer

da yn y Cod hwn i leihau'r risg o lygredd hefyd yn arfer da ar gyfer yr amgylchedd ehangach.

### 1.3.1 Cynefinoedd a Rhywogaethau Tir Fferm

Mae cynefinoedd ar ffermydd o werth cadwraeth natur uchel yn cynnwys gwrychoedd, cyrsiau dŵr, coridorau glan nant, ymylon caeau, glaswelltiroedd heb eu gwella a'u lled-wella, gweundiroedd, gwlyptir a phrysgdir. Mae'r modd y rheolir yr holl gynefinoedd hyn yn cael effaith fawr ar eu gwerth i fywyd gwyllt a'r amgylchedd ehangach. Bydd cadw pridd, tail, gwrteithiau a phlaladdwyr allan o'r cynefinoedd hyn ac i ffwrdd o goed mewn caeau yn ystod gweithgarwch maes, a gadael lleiniau clustogi neu ran o'r dalar heb ei thrin, yn sicrhau manteision ychwanegol i adar sy'n nythu ar y ddaear ac ysglyfaethwyr naturiol plâu cnydau.

Mae coetiroedd brodorol a chymysg yn gynefinoedd allweddol ar ffermydd. Nid yn unig y maent o fudd i fioamrywiaeth fel cynefin ond gallant ddarparu gwasanaethau amgylcheddol gwerthfawr megis sefydlogrwydd pridd a helpu i leihau llygredd gwasgaredig o bwysau defnyddio tir eraill. Gallant hefyd leihau darnio cynefinoedd coetir yn yr amgylchedd o gwmpas ffermydd.

Gall rheoli porfa barhaol yn ofalus, gan gynnwys, o bosibl, leihau dwysedd stocio a mewnbwn maetholion yn gyffredinol, leihau'r pridd sy'n cael ei olchi i ffwrdd a'i erydu, lleihau’r nitrogen a'r ffosfforws a gollir, ac mewn amser amrywio cyfansoddiad botanegol y borfa gan sicrhau manteision pellach i drychfilod ac adar.

Mae codi ffensys ar hyd cyrsiau dŵr yn atal da byw rhag baeddu'r dŵr, difrodi'r glannau ac achosi i bridd fynd i mewn i'r dŵr. Bydd plannu coed brodorol neu ganiatáu i gynefin naturiol ddatblygu, yn eu tro yn rhoi diogelwch ychwanegol i'r cyrsiau dŵr rhag pridd sy'n cael ei olchi i ffwrdd a'i erydu. Gall plannu gwrychoedd ar hyd cyfuchliniau hefyd leihau'r pridd sy'n cael ei olchi i ffwrdd a'i erydu.

Dros lawer o flynyddoedd, oherwydd newidiadau mewn systemau ffermio a phwysau defnyddio tir gwahanol, mae cynefinoedd bywyd gwyllt wedi cael eu hynysu a'u darnio fwyfwy, gyda'r canlyniad bod poblogaethau rhywogaethau yn llai hyfyw. Oherwydd hyn mae hefyd yn anos i rywogaethau symud o amgylch yng nghefn gwlad. Bydd newid yn yr hinsawdd yn gwaethygu'r effeithiau hyn, am y bydd angen i lawer o rywogaethau addasu drwy gytrefu ardaloedd lle mae'r hinsawdd yn fwy addas iddynt neu symud iddynt. Bydd gwella amodau cyffredinol cynefinoedd i fywyd gwyllt a datblygu coridorau rhwng ardaloedd sydd wedi'u darnio a'u hynysu (gwella cysylltedd) yn cynyddu gallu rhywogaeth i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

### 1.3.2 Rhywogaethau Cynefinoedd a Diogelu Cynefinoedd

Gall fod ardaloedd dynodedig megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig[12] (SoDdGAoedd)), a safleoedd Natura 2000[13] (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAoedd), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAoedd) a Safleoedd Ramsar) ar eich tir neu'n agos ato. Bydd gan SoDdGAoedd 'weithrediadau sy'n debygol o niweidio'r diddordeb arbennig' (OLDSI) sydd wedi'u rhestru fel rhan o'u hysbysiad, ac na ellir eu cyflawni heb gael caniatâd ymlaen llaw. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau megis trin priddoedd, draenio, plannu neu gwympo coed, newidiadau mewn arferion pori a defnyddio gwrteithiau, plaladdwyr ac agrocemegau.

Diogelir llawer o'r adar, yr anifeiliaid a'r planhigion a geir ar dir fferm ac yng nghefn gwlad ehangach gan ddeddfwriaeth y DU[16] a deddfwriaeth Ewropeaidd[17]. Gall gwaith megis codi ffensys, draenio a rheoli coetir effeithio ar rywogaethau a warchodir megis Ystlumod, Moch Daear, Pathewod, Llygod Dŵr, Madfallod Cribog a Dyfrgwn. Gall rhai rhywogaethau a warchodir megis ystlumod hefyd fod yn bresennol mewn adeiladau y bwriedir eu hadnewyddu. Mae pob aderyn gwyllt, eu hwyau a'u nythod wedi'u diogelu hefyd.

Am ragor o wybodaeth am gynefinoedd a rhywogaethau cysylltwch â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) (gweler Cysylltiadau Defnyddiol).

### 1.3.3 Yr Amgylchedd Hanesyddol

Mae'r nodweddion hanesyddol pwysicaf wedi'u diogelu'n statudol fel Henebion Cofrestredig, ond mae llawer o nodweddion eraill yn dibynnu ar waith rheoli sympathetig er mwyn goroesi. Dylid diogelu olion archeolegol o dan wyneb y ddaear a nodweddion hanesyddol gweladwy eraill rhag cael eu difrodi. Gall gweithgareddau megis isbriddio, aredig dwfn, trin tir newydd, dadwreiddio coed, gorbori, arferion bwydo a dyfrio amhriodol yn ogystal â stocio â mathau penodol o dda byw, (er enghraifft moch maes) achosi erydiad pridd neu ei waethygu. Gall hyn, yn ei dro, arwain at golli olion archeolegol ac ansefydlogi nodweddion sy'n sefyll. I'r gwrthwyneb, bydd arfer da i atal pridd rhag erydu, a deunydd organig rhag cael ei golli, neu i arafu llif dŵr o dir o fudd i nodweddion hanesyddol ac olion archeolegol yn y pridd. Mae canllawiau pellach ar ofalu am nodweddion hanesyddol ar ffermydd ar gael (Cyf 15).

Os ydych yn ansicr ynghylch statws unrhyw safle neu os hoffech gael cyngor ar reoli cysylltwch â'ch Ymddiriedolaeth Archeolegol leol – ceir manylion am y rhain yn yr adran Cysylltiadau Defnyddiol. Gall Cadw roi cyngor manwl ar y

---

[16] Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1991, fel y'i diwygiwyd yn 1991

[17] Cyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EEC

ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Henebion Cofrestredig a sut i'w rheoli.

### 1.3.4 Tirwedd

Mae'r defnydd cynaliadwy o dir a'r dirwedd yn agwedd bwysig iawn ar ddealltwriaeth y cyhoedd o'r modd y mae cefn gwlad yn cael ei ffermio a'i reoli. Bob cyfle posibl dewiswch a defnyddiwch fesurau sy'n gwella neu'n cynnal y dirwedd lle rydych yn ffermio. Byddai rhywfaint o'r arfer da a nodir yn y Cod hwn, megis plannu gwrychoedd newydd i dorri llethrau ac atal pridd rhag erydu, hefyd yn cael effaith weledol y dylid ei hystyried.

# RHAN 2

# Lleihau'r risg o lygredd

Rhan 2 o’r Cod yw’r Cod Statudol o dan adran 97 o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr. Er nad oes rhaid ichi ddilyn y cyngor yn Rhan 2, gallai Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ystyried a ydych wedi gwneud hynny ai peidio wrth benderfynu ar y camau gorfodi yn dilyn unrhyw achos o lygredd dŵr. Nid yw hyn yn berthnasol i unrhyw gyngor a roddir er mwyn lleihau peryglon llygredd aer a phridd yn unig.

# 2 Cynllunio Gwaith Rheoli Amgylcheddol

Bydd cynllunio system rheoli amgylcheddol gyffredinol ar gyfer eich daliad yn helpu i nodi unrhyw risgiau llygredd, llwybrau y gallai llygrydd eu cymryd (e.e. slyri yn rhedeg i lawr llwybr i ddŵr wyneb) a mannau lle y gallai problemau godi. Bydd yn eich helpu i fod yn fwy parod i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau amgylcheddol a all godi neu eu hatal. Mae digwyddiadau amgylcheddol ar ffermydd yn cynnwys tanau, elifion ffo silwair, neu lagwnau slyri yn gollwng neu'n torri. Gallent hefyd gynnwys niwed i ardaloedd a warchodir, megis tân ar SoDdGA.

**Bydd dilyn arfer da yn yr adran hon yn eich helpu i wneud y canlynol:**
Cynllunio'r defnydd o adnoddau, gan leihau'r risg o lygredd a achosir gan y defnydd amhriodol o adnoddau; a pharatoi ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau posibl.
**Gall hefyd arbed arian i chi drwy:**
Leihau unrhyw gostau glanhau; darparu ffynhonnell ariannu i gyflawni mesurau amgylcheddol.

## 2.1 Gofynion Cyfreithiol

Nid oes unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol o ran y modd rydych yn cynllunio system rheoli amgylcheddol ar gyfer eich fferm, oni bai eich bod yn ddaliad Moch neu Ddofednod mawr y mae angen i chi gael trwydded gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar ei gyfer[18], neu eich bod mewn Parth Perygl Nitradau. Fodd bynnag, mae cadw cofnodion yn ofyniad ar gyfer llawer o ddeddfau, e.e. y ddeddf Bwyd a Phlaladdwyr, a bydd cynllunio yn eich helpu i drefnu hyn.

### 2.1.1 Unedau Moch a Dofednod Mawr

Mae'n ofynnol i ffermydd moch a dofednod mwy o faint lunio Cynlluniau ar gyfer Damweiniau ac Argyfyngau i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Atal a Rheoli Llygredd Integredig[19], fel rhan o'u trwydded, fel uchod.

### 2.1.2 Parthau Perygl Nitradau

Os ydych mewn Parth Perygl Nitradau[20], bydd yn ofynnol i chi lunio map o risgiau, gan ddangos lle mae'r risgiau posibl y bydd nitradau yn cyrraedd dŵr wyneb. At hynny bydd angen i chi ddefnyddio nitrogen gan ystyried gofynion cnydau, wedi'u hasesu drwy broses gynllunio ar gyfer rheoli maetholion, a

[18] Rheoleiddir gan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Mae unedau 'mawr' yn cynnwys mwy na 40,000 o leoedd i ddofednod, 2000 o leoedd i foch cynhyrchu a 750 o leoedd i hychod bridio.
[19] Cyfarwyddeb Cyngor yr UE 2008/1/EC sy'n ymwneud â Rheoli ac Atal Llygredd Integredig
[20] Fel y'i diffinnir gan Reoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008

chadw cofnodion o gyfrifiadau, y defnydd o nitrogen, a'r modd y mae tail wedi'i storio. Ceir rhagor o fanylion yn y canllawiau ar Barthau Perygl Nitradau (Cyf 3).

### 2.1.3 Trawsgydymffurfio

Os ydych yn cymryd rhan yng Nghynllun y Taliad Sengl mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r Gofynion Rheoli Statudol a hefyd y gofynion i gadw eich tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da.

Y Gofynion Rheoli Statudol sy'n ymwneud â rheoli'r fferm o safbwynt amgylcheddol, o ran cadw cofnodion, yw:

- Diogelu dŵr mewn Parthau Perygl Nitradau
- Cyfyngiadau ar Ddefnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion
- Egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd
- Safonau lles ar gyfer diogelu pob anifail a gedwir at ddibenion ffermio
- Diogelu dŵr daear rhag llygredd
- Diogelu'r amgylchedd, ac yn benodol priddoedd, pan ddefnyddir slwtsh carthion mewn amaethyddiaeth

Y safonau perthnasol sy'n gyson â chadw tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da yw:

- A1 sy'n nodi'r gofynion ar gyfer pridd. Mae'n rhaid cadw Cofnod Asesu Pridd (Cyf 16)

Gweler Canllaw'r Ffermwr i Drawsgydymffurfio (Cyf 17) am ganllawiau pellach.

## 2.2 Arfer Da

Mae'r cyngor a'r canllawiau canlynol ar arfer amaethyddol da yn ychwanegol at eich rhwymedigaethau cyfreithiol.

**Crynodeb o Gamau Gweithredol Allweddol**

- Ystyriwch eich arferion rheoli fferm yn gyffredinol, a chan ddefnyddio'r cyngor a roddir yn y Cod hwn, nodwch feysydd lle y gallech wneud newidiadau syml mewn arferion rheoli i ddiogelu'r amgylchedd ac, efallai, arbed arian i chi. Gall Arferion Ffermio Gorau a gyhoeddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyf 1), a Thaflenni Data Cyswllt Ffermio (Cyf 2), hefyd helpu'r broses hon**.** Gall archwiliad Cysylltu Amgylchedd a Ffermio (LEAF), a Rheoli Ffermydd yn Gyfannol hefyd helpu i reoli adnoddau mewn ffordd ecogyfeillgar, gweler Cyfeiriad 18 am ragor o fanylion.

- Mae cynlluniau rheoli yn darparu proses i sicrhau bod y defnydd a wnewch o adnoddau megis pridd a thail yn cyd-fynd â gofynion eich tir a'ch cnydau.

Drwy sicrhau bod y defnydd a wnewch o adnoddau yn cyd-fynd mor agos â phosibl â’ch anghenion, gallwch arbed adnoddau, amser ac arian ac atal yr amgylchedd rhag cael ei lygru drwy orddefnyddio, er enghraifft, wrteithiau ac agrocemegau.

- Bydd **cynllun rheoli pridd** yn eich helpu i sicrhau'r amodau gorau posibl ar gyfer tyfu cnydau a phorfa, tra'n lleihau'r risg y caiff pridd ei olchi i ffwrdd neu ei erydu.
- Bydd **cynllun rheoli tail** yn eich helpu i wneud y gorau o'ch tail yn y ffordd fwyaf darbodus ac ecogyfeillgar, i leihau eich bil gwrtaith a lleihau'r risg y caiff dŵr ei lygru gan faetholion, deunydd organig a phathogenau.
- Bydd **cynllun rheoli maetholion** yn eich helpu i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o wrteithiau a gwneud y defnydd gorau o faetholion a geir mewn unrhyw ddeunydd organig rydych yn ei wasgaru ar y tir. Bydd hefyd yn lleihau'r risg o lygredd a achosir drwy orddefnyddio maetholion.
- Bydd **cynllun rheoli ar gyfer diogelu cnydau** yn eich helpu i sicrhau bod unrhyw blaladdwyr a ddefnyddiwch mor effeithlon â phosibl a lleihau'r risg yr effeithir ar iechyd pobl, yr amherir ar fioamrywiaeth neu y caiff dŵr ei lygru.

- Bydd ymuno â chynllun rheoli tir yn cynnig rhywfaint o gymorth ariannol a chanllawiau technegol ar y newidiadau y gallwch eu gwneud, gweler adran 2.2.2.

- Defnyddiwch y map o'ch fferm a'r penawdau yn y Cod hwn i ystyried unrhyw risgiau llygredd posibl.  Nodwch ardaloedd risg ar y map, ac ystyriwch beth y byddech yn ei wneud petai rhywbeth yn digwydd.  Gweler adran 2.2.3 ar gyfer llunio Cynllun ar gyfer Damweiniau ac Argyfyngau Amgylcheddol

- Sicrhewch fod pawb sy'n gweithio ar y daliad yn ymwybodol o unrhyw risgiau amgylcheddol posibl, a'r gweithdrefnau y dylent eu dilyn os bydd rhywbeth yn digwydd, gweler adran 2.2.4..

- Dylech brofi unrhyw ddŵr wyneb yn rheolaidd i sicrhau nad yw wedi'i lygru. Dylech ei brofi ar adegau o risg uchel megis pan fydd slyri, elifion silwair neu ddŵr brwnt yn cael eu gwasgaru neu'n fuan ar ôl glaw trwm. Chwiliwch am arwyddion o erydu pridd a golchi pridd i ffwrdd, gan gynnwys difrod i'r glannau a achoswyd gan dda byw, sathru ar dir gan dda byw, dŵr sydd wedi cronni mewn caeau, rhigoli a dŵr ffo ar hyd ‘llinellau tram’.  Defnyddiwch y cyngor yn y Cod hwn i'ch helpu i gymryd y camau priodol.

- **Os oes risg y caiff unrhyw ddŵr wyneb, llyn, pwll neu ddŵr daear eu llygru neu os cânt eu llygru, dywedwch wrth Asiantaeth yr Amgylchedd a chymerwch gamau ar unwaith i atal unrhyw lygredd pellach.**

**Llinell gymorth 24 awr Asiantaeth yr Amgylchedd yw     RHADFFON 0800 80 70 60**

### 2.2.1 Cynlluniau rheoli

Mae cynlluniau rheoli yn ffynhonnell o wybodaeth i bawb sydd â mewnbwn ar y fferm, gan gynnwys staff fferm, contractwyr ac ymgynghorwyr.

Efallai mai'r ffordd fwyaf effeithiol yw llunio'r holl gynlluniau perthnasol ar gyfer eich fferm ar yr un pryd am y bydd angen rhywfaint o'r un wybodaeth mewn mwy nag un cynllun. Gall fod yn ddefnyddiol cyfuno'r cynlluniau yn un ddogfen i roi gwell trosolwg o'ch system.

Elfennau hanfodol unrhyw gynllun rheoli yw:

- asesiad o'r adnodd cyfredol e.e. priddoedd, cnydio, faint o dail da byw a gynhyrchir;
- rhagweld gofynion pellach a phroblemau posibl e.e. gofynion o ran maetholion cnydau, darnau o bridd y mae angen eu rheoli;
- sicrhau bod adnoddau yn cyd-fynd â gofynion a chynllunio camau gweithredu pellach e.e. penderfynu faint o'r maetholion sydd eu hangen ar gnydau y gellir eu cyflenwi gan dail a faint o wrtaith a brynir; neu gynllunio lle y gellir tyfu cnydau risg uchel, fel indrawn, a pha gamau y bydd angen eu cymryd i liniaru unrhyw erydu pridd cysylltiedig;
- cofnodi camau a gymerwyd, ac adolygu'r cynlluniau yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithio ac yn cael eu diweddaru pan fydd amgylchiadau yn newid.

### Cynllun Rheoli Pridd

Mae'r Cofnod Trawsgydymffurfio ac Asesu Pridd yn fath syml o Gynllun Rheoli Pridd (Cyf 16). Os ydych eisoes wedi llunio cynllun rheoli pridd ar gyfer cytundeb rheoli tir, megis Tir Cynnal, efallai y byddwch am ei ymestyn i gynnwys map risgiau ar gyfer golchi pridd ac erydu pridd, ac asesiad fesul cae o gyflwr y pridd a sut y byddwch yn ei reoli. Os nad oes gennych gynllun eto, dylech ystyried llunio un gan ddefnyddio fformat tebyg.

- Darllenwch gyhoeddiadau perthnasol ar reoli golchi pridd ac erydu pridd ac arferion da ar gyfer rheoli priddoedd (Cyfeiriadau 19, 20 ac 21).
- Gan ddefnyddio Cynllun Tir Cynnal neu Gynllun Rheoli Adnoddau Tir Gofal (Cyf 22) neu gyngor gan ymgynghorydd, lluniwch asesiad o'r risgiau o olchi pridd ac erydu pridd ar eich fferm gyfan. Edrychwch ar bridd pan fydd yn bwrw glaw ac ar ôl iddi fwrw glaw i nodi mannau sy'n draenio'n wael a lle y gall pridd fod yn cael ei olchi neu ei erydu gan gynnwys gatiau, ffyrdd a llwybrau. Gallwch hefyd gynnwys goleddf pob cae a'r math o bridd sydd ynddo ac wedyn gallwch lunio map sy'n dangos dosbarth y risg ar gyfer pob cae neu ran o gae. Gweler Atodiad 2 am enghraifft.
- Defnyddiwch y map i nodi'r darnau gorau o dir i blannu cnydau risg uchel, megis indrawn a thatws, ac ymdrin ag unrhyw risgiau a nodwyd.

- Cloddiwch bwll pridd i edrych ar adeiledd y pridd ym mhob cae, neu ran o gae, i benderfynu beth y bydd angen i chi ei wneud i gynnal neu wella ei gyflwr. Ystyriwch a oes angen i chi gymryd unrhyw gamau ychwanegol i wella cynnwys deunydd organig y pridd.
- Cofnodwch fesul cae y camau a gymerwch yn ystod y flwyddyn i ddod i leihau golchi pridd ac erydu pridd a sicrhau adeiledd da a sicrhau bod glaw yn parhau i ymdreiddio i'r pridd, megis agennu pridd ac isbriddio.
- Cadwch yr amgylchedd ehangach mewn cof wrth lunio eich cynllun rheoli pridd – e.e. peidiwch â gosod rhagor o ddraeniau o amgylch ardaloedd pwysig o wlyptir.
- Yn ystod y flwyddyn cofnodwch unrhyw broblemau megis dŵr yn cronni, darnau o dir lle mae'r tyfiant yn wael, neu achosion o olchi pridd neu erydu pridd.
- Cymerwch gamau i ddatrys problemau sy'n ymwneud â phridd megis sathru ar dir ac erydu.
- Adolygwch y cynllun bob blwyddyn, a chynhwyswch asesiadau eraill o adeiledd pridd, gan roi sylw arbennig i unrhyw ddarnau o dir lle y gwnaethoch sylwi ar broblemau. Ystyriwch newid eich dull rheoli yn y rhannau hyn o'r daliad.

## Cynllun Rheoli Tail

Os ydych eisoes wedi llunio cynllun rheoli tail ar gyfer cytundeb rheoli tir neu gynllun gwarant fferm efallai y byddwch am gadarnhau ei fod yn cynnwys y camau canlynol. Os nad oes gennych gynllun eto, lluniwch un gan ddefnyddio fformat tebyg. Dylai gynnwys map risgiau fesul cae ac asesiad o'r angen am gyfleusterau storio slyri neu ddŵr brwnt ychwanegol. Gallwch lunio eich map eich hun gan ddefnyddio canllawiau a gyhoeddwyd (Cyfeiriadau 23 a 24) neu mynnwch gyngor proffesiynol gan ymgynghorydd. Dylech nodi eich cynllun yn glir a chynnwys y camau canlynol:

- Drwy ystyried goleddf, y math o bridd a lleoliad dŵr wyneb a chyflenwadau dŵr, dylech nodi caeau neu rannau o gaeau lle na ddylai tail da byw byth gael ei wasgaru. Dylech nodi'r darnau hyn o dir lle na ddylid gwasgaru tail ar fap o'r fferm (mewn coch).
- Nodwch lle na ddylid gwasgaru tail da byw o dan rai amgylchiadau penodol neu lle y dylid cyfyngu ar faint sy'n cael ei ddefnyddio. Dylid nodi'r ardaloedd hyn lle y ceir risg uchel iawn (lliw oren) a risg uchel (melyn) ar y map o'r fferm. Dylid nodi'r ardaloedd sy'n weddill fel rhai risg is (gwyrdd). Gweler Atodiad 3 am enghraifft.
- Cyfrifwch <u>isafswm arwynebedd</u> y tir sydd ei angen ar gyfer gwasgaru tail da byw gan ddefnyddio uchafswm cyfradd gwasgaru ar gaeau o gyfanswm o 250 kg o nitrogen fesul hectar bob blwyddyn. Bydd hyn yn lleihau lefel y nitradau a gollir drwy gael eu trwytholchi. Gallwch ddefnyddio tablau safonol (Cyf 25) neu ddadansoddiad o'ch tail i wneud hyn. Mae cyfarpar syml y gallwch eu defnyddio ar y fferm i fesur y nitrogen mewn slyri sydd ar gael yn rhwydd i gnydau (Cyf 26) neu gallwch anfon sampl i ffwrdd i'w ddadansoddi.

- Mewn Parthau Perygl Nitradau, ar ddaliadau organig wedi'u hardystio, a chyda chytundebau rheoli eraill efallai y bydd cyfraddau gwasgaru is yn gymwys.
- Aseswch a oes gennych ddigon o dir ar gael i wasgaru tail eich da byw o fewn y cyfyngiadau perthnasol. Os nad oes, dylech ystyried lleihau lefelau stocio neu wneud trefniadau i drosglwyddo tail i rywle arall, e.e. anfon gwasarn dofednod i orsaf drydan, yn ddarostyngedig i amodau trwyddedu amgylcheddol. Byddai symud tail i ddaliad arall yn ddarostyngedig i ystyriaethau bioddiogelwch, a gofynion unrhyw gynlluniau, megis Gwarant Fferm neu Safonau Organig.

**Bioddiogelwch**
Ystyriwch yn ofalus a ddylid allforio tail a gynhyrchwyd gan eich da byw - mae risg y caiff clefydau eu lledaenu yn gysylltiedig â symud tail/slyri rhwng safleoedd, oni bai bod gan y ddau safle yn union yr un statws clefydau - sy'n annhebygol.
Mae llawer o glefydau, rhai sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor, y gellir eu lledaenu fel hyn (hyd yn oed os gwasgerir y tail ar laswelltir at ddibenion gwarchod porthiant). Dylech bob amser gymryd camau i leihau'r risg y caiff clefydau anifeiliaid eu lledaenu wrth gludo tail i ffermydd eraill:

- Darparwch gynwysyddion diogel ar gyfer y tail
- Glanhewch du allan y cerbyd a ddefnyddir i gludo'r tail cyn gadael eich fferm
- Sicrhewch fod y tail yn cael ei wasgaru ar dir âr neu laswelltir a ddefnyddir at ddibenion gwarchod porthiant

- Os ydych am wasgaru slwtsh carthion, compost gwastraff gwyrdd neu wastraff organig arall dylech nodi faint o dir sydd ar gael ar ôl i chi wasgaru tail a gynhyrchwyd ar eich fferm. Ni ddylech dderbyn y cyfryw ddeunyddiau ar eich tir os bydd yn ei gwneud yn anodd gwasgaru tail yn ddiogel neu fodloni unrhyw gyfyngiadau.
- Aseswch a oes angen storfeydd ychwanegol arnoch ar gyfer slyri neu ddŵr brwnt. Defnyddiwch y map risgiau lliw, a'ch profiad o wasgaru dros y gaeaf, i'ch helpu i benderfynu faint o'r uchod, os o gwbl, y gallwch ei wasgaru ar yr adeg hon.
- Os ydych mewn Parth Perygl Nitradau, rhaid i chi gydymffurfio â'r isafswm gofynion storio (Cyf 3).
- Gweler adran 3.1.2 am safonau adeiladu ar gyfer storfeydd slyri a thail.
- Dylech ddiweddaru'r map os cymerwch dir ychwanegol.
- Diweddarwch y map rheoli tail os bydd nifer y da byw yn cynyddu, os bydd arwynebedd y buarth brwnt yn cynyddu neu os bydd newidiadau eraill yn effeithio ar faint o slyri neu ddŵr brwnt a gynhyrchir.

## Cynllun Rheoli Maetholion

Os ydych eisoes wedi llunio cynllun rheoli maetholion ar gyfer cytundeb rheoli tir efallai y byddwch am gadarnhau ei fod wedi'i nodi'n glir ac yn cynnwys y

camau angenrheidiol canlynol. Mae fformatau safonol ar gael (Cyfeiriadau 27 ac 28).

- Dadansoddwch briddoedd bob tair i bum mlynedd i asesu eu statws maetholion. Dylid dadansoddi priddoedd i nodi pH, P, K, ac Mg a defnyddio'r canlyniadau i addasu mewnbynnau calch (Cyf 29) a maetholion ffosffad, potash a magnesiwm.
- Aseswch ofynion maethol y cnwd gan ddefnyddio system argymell gwrtaith gydnabyddedig megis RB209 Defra (Cyfeiriadau 30 ac 31). Os derbyniwch gyngor proffesiynol ar eich cynllun, sicrhewch eich bod yn defnyddio rhywun â chymhwyster FACTS (Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau (Cyf 32).
- Aseswch y cyflenwad maetholion o dail organig. Cyfeiriwch at eich cynllun rheoli tail neu ystyriwch lle mae angen dadansoddiad labordy neu ddadansoddiad ar y fferm (Cyf 24, 25).
- Cyfrifwch faint o faetholion gwrtaith sydd eu hangen drwy ddidynnu'r cyfraniad gan dail organig oddi wrth ofynion maethol y cnwd.
- Ffosfforws mewn tail ddylai fod y ffactor cyfyngol - pan fyddwch yn defnyddio nitrogen a maetholion eraill mewn tail, a bod y mynegai ffosfforws pridd eisoes yn 3 neu'n uwch, ni ddylech ddefnyddio mwy o ffosfforws na'r hyn a gaiff ei dynnu gan y cnydau yn y cylchdro. Bydd hyn yn osgoi cynyddu cronfeydd ffosfforws mewn pridd yn fwy na'r hyn sydd ei angen i gynhyrchu cnydau.
- Bydd lefel y ffosfforws a gollir drwy brosesau erydu, trwytholchi neu lif draeniau yn dibynnu ar faint o ffosfforws sydd yn y pridd. Er mwyn lleihau colledion, ni ddylech wasgaru gwrtaith na thail organig sy'n cynnwys mwy na'r symiau o ffosfforws a argymhellir.
- Dylech gyfrifo'n ofalus faint o nitrogen sydd ei angen ar gyfer pob cnwd ym mhob cae. Ni ddylech gyflenwi mwy o nitrogen nag sydd ei angen ar y cnwd, am fod hyn yn cynyddu lefel y nitrad a gollir drwy drwytholchi yn ogystal â bod yn wastraff arian. Dylech ystyried faint o nitrogen a gyflenwir gan y pridd, a fydd yn dibynnu ar y math o bridd, y cnydio blaenorol, glaw ac unrhyw dail organig a wasgarwch gennych. Os yw'n cyflenwi cryn dipyn o nitrogen, gall dadansoddi'r pridd nodi'n fwy manwl gywir faint o wrtaith sydd ei angen.
- Pan fyddwch yn lleihau'r amonia a gollir, gallai fod mwy o nitrogen ar gael i'w dderbyn gan borfa neu gnydau. Dylai eich Cynllun Rheoli Maetholion nodi'r arbedion hyn.
- Cadwch gofnodion maes clir a chywir o'ch cnydio a'r holl wrteithiau a thail organig sydd wedi'u gwasgaru ar y tir. Bydd hyn yn eich helpu yn y dyfodol i wneud penderfyniadau ynghylch rheoli maetholion ac yn dangos canlyniad ymarferol y cynllun.
- Adolygwch lwyddiant y cynllun bob blwyddyn. Defnyddiwch waith dadansoddi cnydau neu borfa i gadarnhau diffygion o ran elfennau hybrin, ac i'ch helpu i nodi unrhyw rai a all fod yn effeithio ar eich cnydau neu eich da byw. Dylech geisio cyngor milfeddygol ar gyfer problemau sy'n ymwneud â da byw am fod trin y stoc yn fwy effeithiol fel arfer na gwasgaru unrhyw beth ar y pridd.
- Dylech ddiweddaru'r cynllun ar ddechrau pob blwyddyn gnydio.

## Cynllun Rheoli ar gyfer Diogelu Cnydau

Bydd cynllun rheoli ar gyfer diogelu cnydau yn darparu rhestr wirio o'r hyn y dylech ei ystyried wrth gynllunio'r defnydd o blaladdwyr. Dylech ddarllen y Cod Ymarfer ar ran Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Cyf 33) cyn llunio cynllun. Gweler hefyd Adrannau 3 a 4 o'r Cod hwn am y camau y dylech eu cymryd wrth storio a defnyddio plaladdwyr.

Mae'r Fenter Wirfoddol yn rhoi canllawiau ar lunio cynllun rheoli ar gyfer diogelu cnydau. Os ydych wedi llunio cynllun fel rhan o'r Fenter Wirfoddol (Cyf 34), dylai eisoes gydymffurfio â'r cyngor a roddir isod.

- Os ydych yn defnyddio agromonegydd, sicrhewch fod ganddo gymhwyster BASIS (Cyf 35).
- Ystyriwch leoliad y fferm, y math o bridd, cnydio blaenorol, cylchdroadau a materion sy'n ymwneud â'r gallu i wrthsefyll plaladdwyr. Gall hyn eich helpu i ragweld a rhagfynegi problemau posibl.
- Dylech fabwysiadu opsiynau anghemegol lle y bo hynny'n ddarbodus ac yn ymarferol. Dylech gynnwys y defnydd o gylchdroadau, gwaith trin tir a rhywogaethau gwrthsafol ac annog ysglyfaethwyr naturiol drwy ymgorffori cloddiau chwilod ac ymylon caeau.
- Archwiliwch gnydau yn rheolaidd i gofnodi chwyn, plâu a chlefydau yn gywir. Gwerthuswch yr angen am blaladdwr drwy ddefnyddio trothwyon a chyfarpar diagnostig. Dylech ystyried effaith amgylcheddol dulliau rheoli amgen megis y tanwydd a ddefnyddir wrth losgi chwyn neu'r posibilrwydd o niweidio adar sy'n nythu ar y ddaear wrth chwynnu ag offer mecanyddol.
- Dewiswch blaladdwr costeffeithiol a fydd yn lleihau'r effeithiau ar ysglyfaethwyr plâu cnydau, organebau nad ydynt yn dargedau, cnydau cyfagos, cynefinoedd bywyd gwyllt, ac ansawdd dŵr a dŵr daear.
- Os ydych am leihau'r llain glustogi statudol lle na ddylid chwistrellu – a nodir gan label y cynnyrch - gerllaw dŵr wyneb mae'n rhaid i chi wneud Asesiad o'r Risg i'r Amgylchedd Lleol ar gyfer Plaladdwyr (LERAPS) (Cyf 36).
- Cadwch gofnodion manwl gywir. Mae'n ofynnol cadw cofnodion o dan gyfraith y CE pan fyddwch yn tyfu bwyd neu gnydau porthiant ac mae'n un o ofynion trawsgydymffurfio (Cyf 17). Mae cofnodion yn ddull rheoli allweddol i helpu i nodi lle y gellir gwneud gwelliannau, a dylent gynnwys y cyfiawnhad dros unrhyw gamau penodol a gymerwyd.
- Cwblhewch adolygiad blynyddol er mwyn ymgorffori unrhyw flaenoriaethau newydd.

## 2.2.2 Cynlluniau Rheoli Tir Cynaliadwy

Mae diogelu aer, pridd a dŵr yn un o amcanion cynlluniau rheoli tir, sy'n darparu taliad ariannol am ffermio mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd. Mae elfen fferm gyfan i gynlluniau - sef y modd y rheolir y fferm gyfan i sicrhau lefel dda o ddiogelwch amgylcheddol. Ceir manylion cynlluniau rheoli tir sy'n weithredol ar hyn o bryd, gan gynnwys Glastir, gan Swyddfeydd Rhanbarthol Llywodraeth y Cynulliad.

**Coetiroedd Gwell i Gymru** yw cynllun grant Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae'r cynllun yn rhoi mwy o bwyslais ar weithgarwch rheoli coetiroedd o safon ac yn cynnig grantiau sydd wedi'u hanelu'n benodol at goetiroedd Cymru. Mae cymorth grant yn seiliedig ar gynllun rheoli hirdymor cymeradwy. Mae'n rhaid i'r cynllun hwn gyrraedd y safonau gofynnol o dan Gynllun Gwarant Coetiroedd y DU.

Gweler yr adran Cysylltiadau Defnyddiol am fanylion Swyddfeydd Rhanbarthol a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.

## 2.2.3 Cynllun ar gyfer Damweiniau ac Argyfyngau Amgylcheddol

Mae gan lawer o ffermydd gynllun argyfwng eisoes, ac mae'n arfer da llunio un i'ch fferm i'ch helpu i ddelio â damweiniau neu argyfyngau os byddant yn digwydd. Sicrhewch fod pawb yn gwybod ble mae'r cynllun a'r cyfarpar argyfwng yn cael eu cadw, yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud, a sut i'w wneud.

Dylai eich cynllun gynnwys:

*a)* Rhestr gysylltiadau

Dylech gynnwys rhifau ffôn (gan gynnwys y tu allan i oriau gwaith) ar gyfer gwasanaethau brys, rheoleiddwyr (e.e. Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Awdurdod lleol), cyflenwr dŵr, darparwr carthffosydd, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, tynwyr dŵr i lawr yr afon a pherchenogion tir, a chontractwyr glanhau arbenigol.
Dylech hefyd gynnwys unrhyw ddeiliaid allweddi neu staff y dylid cysylltu â hwy mewn argyfwng.

*b)* Cynllun o'r safle sy'n dangos y canlynol:

- y cynllun, mynediad a'r trefniadau draenio ar gyfer:-
  - pob adeilad a strwythur perthnasol;
  - pob draen, tyllau archwilio a gylïau - ar gyfer systemau draeniau dŵr glân a dŵr budr
- lleoliad nentydd, ffosydd, ffosydd cerrig; ffrydiau, ffynhonnau a thyllau turio ger y safle;
- lleoliad cyfleusterau dal y gellir eu defnyddio mewn argyfwng.

*c)* Lleoliad cyfarpar a mannau lle y gellir atal llygredd rhag ymledu.

- lleoliad unrhyw gyfarpar a deunyddiau y gellir eu defnyddio i blygio draeniau, cau ffosydd neu atal gollyngiadau rhag ymledu.
- Mannau mwyaf hwylus i gau'r draeniau neu'r ffosydd hyn dros dro

*ch)* Prawf rheolaidd

Ystyriwch gynnal ymarfer ymateb mewn argyfwng yn rheolaidd, yn enwedig ar safleoedd mwy o faint, i weld sut mae'r cynllun yn gweithio mewn argyfwng gwirioneddol. Adolygwch eich cynllun ar ôl digwyddiad, pan gaiff systemau sy'n cynnwys llygryddion posibl eu newid, neu eu hadleoli ac o leiaf bob tair blynedd.

*d)* Unrhyw gamau gweithredu dilynol unwaith y bydd yr argyfwng drosodd megis hysbysu CCGC o niwed i SoDdGA.

Ceir templed ar gyfer system fferm syml yn Atodiad 4 y gellir ei ychwanegu ato mewn sefyllfaoedd mwy cymhleth.

### 2.2.4 Cyfrifoldebau rheolwyr tir, ffermwyr, staff ffermydd a chontractwyr

Dylai pob aelod o staff y fferm ac unrhyw gontractwyr a gyflogir gennych fod yn gyfarwydd ag achosion ac effeithiau llygredd. Dylent:

- gael hyfforddiant priodol ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud;
- gwybod sut i weithredu'r cyfarpar a ddefnyddiant a'i gynnal a'i gadw;
- gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng;
- gallu dilyn unrhyw gynllun argyfwng ar gyfer y fferm;
- cydymffurfio ag unrhyw asesiadau risg a luniwyd, er enghraifft, mewn cynlluniau rheoli ar gyfer diogelu tail, maetholion, pridd neu gnydau;
- bod yn ymwybodol o fodolaeth ardaloedd y gallent eu niweidio wrth wneud eu gwaith, megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ardaloedd gwarchodedig eraill, a thir o dan gytundebau rheoli;
- bod yn ymwybodol iawn o adegau risg uchel megis gwneud silwair a dipio defaid

Dylid ystyried llunio cytundeb ysgrifenedig â chontractwyr, i nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am wneud y gwaith dan sylw. Os nad yw hyn yn glir, gallai'r ddau ohonoch fod yn atebol am unrhyw broblemau neu achosion o lygredd sy'n digwydd.

# 3 Adeiladau a Strwythurau Fferm

**Mae'r adran hon yn ymdrin â rhai o'r adeiladau a strwythurau ar ffermydd a allai fod yn ffynhonnell llygredd dŵr, aer neu bridd. Mae hefyd yn cynnwys cyngor ar sut i drafod a rheoli soledau a hylifau ar y buarth ac o'i amgylch i osgoi llygredd.**

**Bydd dilyn arfer da yn yr adran hon yn eich helpu i wneud y canlynol:**
lleihau'r risg o lygredd dŵr a achosir gan ollyngiadau o adeiladau a strwythurau; lleihau llygredd aer a achosir gan nwyon a llwch; diogelu adnoddau pridd.
**Gall hefyd arbed arian i chi drwy:**
Leihau unrhyw gostau glanhau; lleihau'r defnydd o ynni.

## 3.1 Gofynion Cyfreithiol

Dyma beth mae'n rhaid i chi ei wneud yn ôl y gyfraith mewn perthynas â'r adeiladau a'r strwythurau ar eich fferm:

### 3.1.1 Gofynion Cynllunio

Bydd angen cyhoeddi hysbysiad cynllunio ar gyfer unrhyw adeiladau neu strwythurau newydd ac efallai y bydd angen caniatâd cynllunio arnynt hefyd. Ceir canllawiau pellach yn Arweiniad i'r System Gynllunio ar gyfer Ffermwyr (Cyf 37). Dylech bob amser geisio cyngor gan eich awdurdod cynllunio lleol a fydd hefyd yn dweud wrthych os oes angen gwneud asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer adeiladau da byw newydd neu estynedig, neu os bydd angen ystyried rhywogaethau a warchodir (megis ystlumod ac adar sy'n nythu). Efallai y bydd angen trwyddedau os byddwch yn tarfu ar rywogaethau megis moch daear ac ystlumod – ceir rhagor o wybodaeth gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru – gweler yr adran Cysylltiadau Defnyddiol am fanylion.

### 3.1.2 Diogelu Adnoddau Dŵr

Mae'n drosedd achosi i ddeunydd gwenwynig, afiach neu lygrol, neu ddeunydd gwastraff solet gael ei ollwng i ddŵr daear neu ddyfroedd wyneb neu ganiatáu i hynny ddigwydd yn fwriadol heb awdurdod priodol gan Asiantaeth yr Amgylchedd[21]. Byddai hyn yn gymwys i lygredd a achoswyd gan slyri, elifion silwair neu olew tanwydd, plaladdwyr neu fioladdwyr yn gollwng o fuarthau neu adeiladau.

### 3.1.3 Rheoli Llygredd o Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd

[21] Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010

Gelwir Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010 yn aml yn Rheoliadau SSAFO. Maent yn disodli'n llwyr y rheoliadau a wnaed gyntaf yn 1991 ac a ddiwygiwyd yn 1997. Ers mis Medi 1991, mae'n rhaid i unrhyw storfeydd neu fannau storio newydd neu unrhyw storfeydd neu fannau storio a ymestynnwyd yn sylweddol neu a ailadeiladwyd ar gyfer storio silwair, casglu neu storio slyri neu storio olew tanwydd amaethyddol (hynny yw, olew a ddefnyddir ar gyfer y fenter fferm ac nid tanwydd a ddefnyddir i wresogi'r ffermdy yn unig) gydymffurfio â safonau cyfreithiol safonol. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Safonau adeiladu gofynnol sy'n gymwys lle bynnag y defnyddir y system.
- Mae'n rhaid hysbysu Asiantaeth yr Amgylchedd yn ysgrifenedig o leiaf 14 diwrnod cyn i'r system gael ei defnyddio am y tro cyntaf.
- Mae'n rhaid i systemau fod ag oes cynllun o 20 mlynedd os cânt eu cynnal a'u cadw, ac eithrio tanciau elifion silwair o dan y ddaear sy'n gorfod bod ag oes cynllun o 20 mlynedd **heb** eu cynnal a'u cadw sy'n adlewyrchu'r cyfyngiadau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw systemau elifion silwair o dan y ddaear.
- Mae'n rhaid lleoli unrhyw systemau o leiaf 10m i ffwrdd o ffosydd neu ddŵr wyneb, y gallai'r deunydd fynd i mewn iddo petai'n gollwng, a safleoedd silwair mewn caeau o leiaf 50m i ffwrdd o ffynhonnell cyflenwi dŵr.
  Noder: diffiniad eang ei gwmpas yw hwn sy'n cynnwys ffosydd a all fod yn sych am ran o'r flwyddyn, draeniau rhyddhau dan wasgedd o amgylch storfeydd slyri, neu ddraeniau tir. Fodd bynnag, yn achos rhai gosodiadau slyri gall Asiantaeth yr Amgylchedd ganiatáu rhywfaint o lacio, fel arfer i ganiatáu draeniau rhyddhau dan wasgedd o amgylch storfeydd slyri, ar yr amod yr ymgynghorir â hi cyn eu hadeiladu.

Gall Asiantaeth yr Amgylchedd gyflwyno Hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol sicrhau bod systemau perthnasol yn cyrraedd y safonau a nodir yn y Rheoliadau os oes ***risg*** sylweddol o lygredd – felly nid oes rhaid i lefel y llygredd posibl fod yn uchel.

Ymgynghorwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd cyn gwneud unrhyw newidiadau i'ch:

- Systemau gwneud neu storio silwair
- Storio slyri
- Systemau storio Olew Tanwydd Amaethyddol

Gweler yr adran Cysylltiadau Defnyddiol am fanylion.

Mae Rheoliadau SSAFO a'r Canllawiau i ffermwyr (Cyf 39), yn rhoi canllawiau mwy penodol ar gyfer systemau unigol, gan gynnwys:

**Storio silwair**[22]

- Rhaid i loriau fod yn anhydraidd a rhaid iddynt allu gwrthsefyll elifion silwair. Gellir defnyddio asffalt bellach, ar yr amod ei fod wedi'i weithgynhyrchu at y diben hwnnw
- Gellir defnyddio seilos heb waliau ond mae angen sianeli perimedr a storfeydd elifion silwair arnynt.
- Dylech storio neu agor silwair wedi'i fwndelu sydd wedi'i lapio neu ei selio mewn bagiau anhydraidd o leiaf 10m i ffwrdd o unrhyw ddŵr, gan gynnwys draeniau maes a ffosydd, y gallai'r elifion silwair fynd i mewn iddo petai'n gollwng.

**Storio slyri:**

- Rhaid i systemau storio fod yn anhydraidd, rhaid iddynt allu gwrthsefyll cyrydu a rhaid iddynt fod yn strwythurol gadarn.
- Rhaid i byllau derbyn fod o faint priodol (h.y. gallant ddal cynnyrch dau ddiwrnod o leiaf o slyri, o ystyried glaw a dŵr ffo a gesglir.)
- Rhaid sicrhau bod dwy falf mewn llinell ar unrhyw bibellau gollwng rhwng storfeydd uwchben y ddaear a phyllau derbyn, gyda bwlch o 1 fetr o leiaf rhyngddynt ac mae'n rhaid eu cau pan na fyddant yn cael eu defnyddio.
- Mae'n rhaid i chi ddarparu system a all storio slyri am bedwar mis o leiaf, oni allwch ddangos i Asiantaeth yr Amgylchedd fod gennych system ddiogel ar gyfer rheoli slyri a'i wasgaru ar gaeau drwy gydol y flwyddyn sy'n cynnwys lleihau'r effaith ar dir i lefelau derbyniol.
- Mae'n rhaid i chi gydymffurfio hefyd â'r isafswm gofyniad storio os yw eich fferm mewn Parth Perygl Nitradau, sy'n debygol o fod yn fwy na gofynion rheoliadau SSAFO (Cyf 3).
- Mae'n rhaid i bob lagŵn newydd neu bob lagŵn â chloddiau pridd a newidiwyd yn sylweddol gadw 750 mm o fwrdd rhydd bob amser ac, wrth bennu maint storfeydd slyri a dŵr brwnt eraill, mae'n rhaid sicrhau eu bod yn cynnwys 300 mm o fwrdd rhydd.

**Storio Olew Tanwydd** (Os bydd cyfanswm yr olew tanwydd amaethyddol sydd wedi'i storio ar fferm yn fwy na 1500 o litrau):

- Mae'n rhaid gosod bwnd anhydraidd o amgylch y tanc olew neu'r man storio ac os yw'r olew tanwydd yn cael ei storio mewn tanciau rhaid i gymhwysedd y bwnd fod 10% yn fwy na chymhwysedd y tanc.
- Ni ddylai fod gan y bwnd ollyngfa na draen, ni ddylai olew allu treiddio drwyddo a dylid ei adeiladu fel y bydd yn para am 20 mlynedd os caiff ei gynnal a'i gadw.
- Dylai pob falf neu ollyngfa o'r tanc fod y tu mewn i'r bwnd ac wedi'i chloi pan na fydd yn cael ei defnyddio.
- Os oes gollyngfa bibell hyblyg, dylai fod ganddi dap neu falf sy'n cau yn awtomatig ac a gedwir o fewn y bwnd pan na fydd yn cael ei ddefnyddio.

---

[22] Diffinnir silwair fel 'unrhyw gnwd wedi'i silweirio neu ei fwndelu sydd wedi'i lapio mewn deunydd anhydraidd'

***Nid*** yw'r rheoliadau yn gymwys i danciau storio tanddaearol, na thanciau ac ati a ddefnyddir i gludo olew tanwydd o amgylch fferm, nac olew a ddefnyddir ar gyfer anhedd-dai yn unig. Fodd bynnag, noder y gall Asiantaeth yr Amgylchedd gyflwyno Hysbysiadau i atal dŵr wyneb neu ddŵr daear rhag cael eu llygru o ganlyniad i unrhyw weithgarwch storio olew.

### 3.1.4 Dipio Defaid

- Rhaid i gyfansoddion dip defaid gael eu trafod gan unigolyn â Thystysgrif Cymhwysedd mewn Defnyddio Dip Defaid yn Ddiogel neu mae'n rhaid i'r defnydd ohonynt gael ei oruchwylio gan y cyfryw unigolyn[23]. Mae canllawiau pellach ar gael (Cyf 40).

- Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r Rheoliadau Dŵr Daear[24] os ydych yn chwistrellu defaid, yn eu hysgeintio, yn rhoi cawod iddynt neu'n eu dipio mewn ffordd gonfensiynol. Bydd y Cod Diogelu Dŵr Daear (Cyf 41) ar ddefnyddio a gwaredu cyfansoddion dip defaid yn eich helpu i gydymffurfio â'r rheoliadau hyn ac fe'ch cynghorir yn gryf i'w ddarllen a'i ddilyn cyn i chi drin defaid, pan fyddwch yn eu trin ac ar ôl hynny – gweler adran 3.2.4 am grynodeb o'r canllawiau.
- Mae angen cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw, a elwir yn Drwydded Amgylcheddol erbyn hyn, gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i gael gwared ar ddip defaid ar dir, hyd yn oed mewn meintiau bach[25]. Caniatewch ddigon o amser i'ch cais gael ei brosesu.
- Os mai cael gwared ar ddip defaid oddi ar y safle yw'r unig opsiwn gwaredu ymarferol, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn defnyddio cludwr gwastraff trwyddedig, neu fod gan eich contractwr ganiatâd priodol i gael gwared ar y dip a ddefnyddiwyd.
- Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch hefyd yn rhoi cyngor ar gydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd gan roi sylw i ddipio defaid (Cyf 42).

### 3.1.5 Diogelu Dŵr Daear

- O dan y Rheoliadau Dŵr Daear[26] ni ddylech adael i lygryddion buarth, hyd yn oed mân ollyngiadau o sylweddau megis olewau neu gemegau ymdreiddio i'r ddaear. Dylech reoli deunyddiau megis elifion silwair, slyri a golchion buarth fel na fyddant yn mynd i mewn i ddŵr daear. Mae hyn hefyd yn rhan o Ofynion Rheoli Statudol trawsgydymffurfio.

<u>Corlannau sglodion coed/Gorchuddion 'Stand off'</u>

- Mae'r rhain wedi dod yn fwyfwy poblogaidd ar gyfer gaeafu gwartheg yn yr awyr agored. Mae gwaith cynllunio, adeiladu a rheoli da yn hanfodol i osgoi llygru dŵr daear a dŵr wyneb (Cyf 43). Mae'n rhaid darparu leinin a

---

[23] Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol, Offeryn Statudol 2407, 2006.
[24] Rheoliadau Dŵr Daear (Cymru a Lloegr), 2009
[25] Erbyn hyn, gelwir pob trwydded dŵr daear, hy pob caniatâd dan y Rheoliadau Dŵr Daear, yn drwyddedau amgylcheddol yn unol â Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010
[26] Rheoliadau Dŵr Daear (Cymru a Lloegr), 2009

chyfleusterau casglu elifion a dylech geisio cyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar safleoedd addas.

### 3.1.5 Storio a thrin plaladdwyr

- Mae nifer o reoliadau yn ymdrin â defnyddio plaladdwyr[27] felly mae'n bwysig eich bod yn deall eich cyfrifoldebau yn llawn. Mae'r Cod Ymarfer ar ddefnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion yn rhoi canllawiau manwl ar sut i gydymffurfio â'r gyfraith wrth storio plaladdwyr (Cyf 33).
- Mae'n rhaid i chi storio plaladdwyr a gymeradwywyd yn y cynhwysydd gwreiddiol gyda label y cynnyrch a gymeradwywyd.
- Mae'n rhaid i chi gael trwydded amgylcheddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd cyn y gellir gwasgaru gwastraff plaladdwyr ar dir mewn ffordd nas cymeradwywyd ar gyfer y cynnyrch.
- Os ydych yn bwriadu gosod cyfleuster trin gwastraff ar gyfer golchion plaladdwyr gwan, megis biowely, dylech ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyntaf i drafod y trwyddedau angenrheidiol sydd eu hangen. Am ragor o wybodaeth am fiowelyau, gweler adran 3.2.6.

### 3.1.6 Storio Gwrtaith

Mae nifer o reoliadau yn ymdrin â storio a thrafod sylweddau peryglus megis gwrteithiau sy'n seiliedig ar amoniwm nitrad[28]. Lluniwyd canllawiau defnyddiol gan y diwydiant amaethyddiaeth a HSE, sy'n rhoi cyngor pellach ar y rheoliadau cyfreithiol (Cyfeiriadau 44 a 45). Gweler hefyd Cysylltiadau Defnyddiol.

### 3.1.7 Trafod Pridd

Efallai y bydd angen cael caniatâd gan reoleiddiwr i wneud gwaith sy'n cynnwys symud pridd at ddibenion cloddio mwynau, gwaredu gwastraff a gosod pibellau[29]. Os nad ydych yn siŵr cysylltwch ag un o'r canlynol:

- At ddibenion mwynau – eich Awdurdod Cynllunio Mwynau, sef eich Awdurdod Unedol.
- Yn achos tirlenwi, adfer gwastraff neu waredu gwastraff - Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

---

[27] Rhan III, Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985, Rheoliad Rheoli Plaladdwyr 1986 (fel y'i diwygiwyd), a Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 1994. Cyfarwyddeb Cyngor yr UE 91/414/EEC ar farchnata cynhyrchion diogelu planhigion, Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion 2005 i'w gweithredu yng nghyfraith Prydain, a Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Amodau Sylfaenol) 1997 sy'n cymhwyso Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985 at gynhyrchion a gymeradwywyd o dan Reoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion 2005.

[28] Y Rheoliadau Gwrteithiau, 1991; Y Rheoliadau Gwrteithiau (Diwygio) ,1995; Y Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus), 1992.

[29] Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

- Yn achos cynnig ar gyfer piblinell – yr Awdurdod Unedol a rheoleiddiwr arall gan ddibynnu ar y deunydd sy'n cael ei drosglwyddo[30].

Gweler yr adran Cysylltiadau Defnyddiol am fanylion eich Awdurdod Unedol lleol.

### 3.1.8 Lles anifeiliaid

- Mae'n rhaid i'r lwfansau gofod a darpariaethau eraill ar gyfer gwartheg, moch a dofednod fodloni gofynion cyfreithiol[31]. Dylech ddilyn y cyngor yn y Codau Lles (Cyf 46).

- Mae'n rhaid i unedau moch a dofednod mwy o faint gydymffurfio ag amodau trwydded a bennwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd[32]. Mae'r amodau hyn yn seiliedig ar y Technegau Gorau sydd Ar Gael i osgoi neu leihau pob math o allyriadau nwyol. Mae canllawiau ar gael ar y Technegau Gorau sydd Ar Gael gan Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyf 47).

### 3.1.9 Asbestos

- Mae gan gyflogwyr ddyletswydd i ddiogelu cyflogeion ac eraill a all gael ei niweidio yn y gwaith gan asbestos[33].

### 3.1.10 Trawsgydymffurfio

Os ydych yn cymryd rhan yng Nghynllun y Taliad Sengl mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r Gofynion Rheoli Statudol a hefyd y gofynion i gadw eich tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da.

Y Gofynion Rheoli Statudol sy'n ymwneud â'r amgylchedd fferm adeiledig yw:

- Diogelu Dŵr Daear rhag llygredd sy'n gysylltiedig â defnyddio dip defaid, storio plaladdwyr, elifion silwair, slyri, golchion llaethdai, gollyngiadau olew.
- Diogelu dŵr mewn Parthau Perygl Nitradau, o ran yr angen am gyfleusterau storio slyri digonol o fewn y parthau hyn.
- Cyfyngiadau ar Ddefnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion.
- Egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, sy'n cynnwys canllawiau ar gynllunio adeiladau llaethdai.
- Safonau lles ar gyfer diogelu pob anifail a gedwir at ddibenion ffermio, sy'n ymwneud â safonau adeiladau, ac yn enwedig, ar gyfer adeiladau lloi a moch.

---

[30] Mae cyfres o Ddeddfau yn nodi'r gofynion ar gyfer gwahanol fath o waith piblinell: Deddf Piblinellau 1962, Deddf Nwy 1986, Deddf Dŵr Diwydiant 1991, Deddf Adnoddau Dŵr 1991.
[31] Rheoliadau Lles Anifeiliaid Fferm (Cymru) 2007
[32] Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007
[33] Rheoliadau Rheoli Asbestos yn yr Awyr 1990

Gweler Canllaw'r Ffermwr i Drawsgydymffurfio (Cyf 17) am ganllawiau pellach.

## 3.2 Arfer Da

Mae'r adran hon yn rhoi cyngor a chanllawiau ar arfer amaethyddol da sy'n ychwanegol at eich rhwymedigaethau cyfreithiol.

**Crynodeb o Gamau Gweithredol Allweddol**

- Mae cadw adeiladau a strwythurau mewn cyflwr da yn hanfodol i arfer da. Bydd cynnal archwiliadau rheolaidd o'r holl strwythurau sy'n cynnwys yr hylifau canlynol a allai achosi llygredd yn fodd i chi nodi unrhyw broblemau, a gall atal achosion difrifol o lygredd:
    - Elifion silwair
    - Slyri a thail
    - Olew tanwydd
    - Plaladdwyr a dip defaid
    - Gwrteithiau ac agrocemegau

- Dylech gynnal archwiliadau rheolaidd:
    - ar bob adeilad, to, gwter, draen dŵr glân, draen budr, rhan o'r buarth, ac unrhyw arllwysfeydd dŵr glân i ffosydd, dŵr wyneb a ffosydd cerrig;
    - i fonitro lefelau hylifau yn yr holl gyfleusterau storio.
    - i chwilio am arwyddion cyrydu, difrod a gollyngiadau mewn cynwysyddion, pibellwaith a storfeydd.

- Sicrhewch fod gennych ddigon o gyfleusterau storio tail i osgoi'r angen i wasgaru slyri a thail pan fydd cyflwr y ddaear a'r tywydd yn wael, (gweler adran 5.3.4 am ragor o fanylion). Bydd hyn yn eich galluogi i amseru a defnyddio maetholion tail yn well a lleihau'r gwrtaith rydych yn ei brynu.

- Dylech leihau lefel y dŵr brwnt a gynhyrchir, drwy roi to dros iardiau da byw neu leihau eu maint. Dargyfeiriwch ddŵr glân a dŵr o doeau i mewn i ddŵr wyneb, neu ailgylchwch ef i'w ddefnyddio ar y fferm.

- Dylech fonitro'r defnydd a wneir o ynni a nodi ffyrdd o arbed costau drwy leihau'r ynni a ddefnyddiwch. (Cyfeiriadau 1, 2.4 ac 11). Gellir lleihau'r gwres a gollir o adeiladau drwy ddefnyddio systemau insiwleiddio ac awyru effeithiol. Bydd insiwleiddio adeiladau hefyd yn lleihau enillion gwres a'r angen i'w hawyru wedyn. Ystyriwch gyfleoedd i ddefnyddio ffynonellau ynni eraill yn lle tanwydd ffosil.

- Gallwch leihau allyriadau carbon deuocsid drwy gadw cyfarpar sefydlog megis sychwyr grawn, storfeydd wedi'u hoeri a swmp-danciau llaeth, mewn cyflwr da a thrwy eu gweithredu'n effeithlon (Cyf 48 ar gyfer Astudiaeth Achos).

- Bydd gwaith rheoli da a hylendid a glanweithdra o safon uchel yn lleihau allyriadau arogleuon ac amonia o adeiladau da byw ac iardiau concrid agored wedi'u baeddu.

- Byddwch yn ofalus pan fyddwch yn symud pridd at ddibenion adeiladu - dylid diogelu swyddogaeth hirdymor priddoedd pan derfir arnynt at

ddibenion echdynnu mwynau, gosod piblinellau, tirlenwi, adfer tir a gwaith strwythurol ar y fferm.

### 3.2.1 Glanhau a diheintio

- Ystyriwch yn ofalus y dewis o fioladdwr (cemegau) a sut y byddwch yn cael gwared arno pan fyddwch yn defnyddio'r rhain fel rhan o'ch rhaglen fioddiogelwch i ddiogelu da byw neu gnydau. Efallai y bydd angen mewn rhai amgylcheddau sensitif i ddal unrhyw fioladdwr i gael gwared arno'n gywir oddi ar y fferm.

### 3.2.2 Storfeydd Silwair ac Elifion

- Dylai gwaelod a waliau seilo gael eu cynllunio'n broffesiynol i gyd-fynd ag amodau'r safle. Mae nifer o Safonau Prydeinig neu safonau cyfatebol eraill yn gysylltiedig â hyn.

- Dylid goruchwylio gwaith adeiladu i sicrhau bod y seilo yn strwythurol gadarn ac na all elifion ddianc. Mae canllawiau pellach ar gael (Cyf 49).

- Os defnyddir arwyneb asffalt a roliwyd yn boeth fel sail llawr dylai'r gwaith hwn gael ei wneud gan arbenigwr (Cyf 50).

- Wrth wneud silwair edrychwch o amgylch y seilo bob dydd i nodi unrhyw ollyngiadau a rhwystrau, monitrwch lefelau tanciau elifion yn ôl yr angen, ac archwiliwch ffosydd, dŵr wyneb a draeniau dŵr wyneb am arwyddion o lygredd. Os canfyddir unrhyw lygredd neu rwystrau rhowch eich cynllun argyfwng ar waith.

- Gwasgarwch elifion o seilos ar y ddaear yn unol â'ch cynllun rheoli tail. Gellir rhoi elifion heb eu halogi i dda byw i'w bwyta.

- Yn achos silwair wedi'i fwndelu pan fo deunydd sych cnwd yn llai na 25%, bydd defnyddio deunydd lapio bêls 750mm o led (yn hytrach na 500mm) yn arwain at well sêl, ac yn lleihau'r elifion a ollyngir tra bydd yn cael ei storio.

- Mae ychwanegion silwair yn creu llawer o lygredd. Dylid eu storio'n ddiogel a'u trafod o leiaf 10 metr i ffwrdd o ddraen maes neu ddŵr wyneb. Peidiwch â gadael cynnyrch heb ei wanhau allan ar y safle na gadael i ychwanegion na chynwysyddion a ddefnyddiwyd fynd i mewn i ddŵr wyneb

  - Am opsiynau priodol ar gyfer cael gwared ar blastigau silwair, cynwysyddion ychwanegion a theiars, gweler Adran 7.

**Nodyn Diogelwch**

Gall tanciau elifion gynnwys nwyon angheuol. **PEIDIWCH** â mynd i mewn iddynt ar unrhyw adeg. Clowch gloriau tanciau. Arddangoswch rybudd clir.

### 3.2.3 Adeiladau Da Byw

Holl Adeiladau Da Byw

- Dylech gasglu a throsglwyddo slyri o adeiladau a mannau concrid i storfa addas bob dydd.
- Yn achos systemau gwasarn defnyddiwch ddigon o wasarn sych a glân i gadw anifeiliaid yn lân. Mae da byw brwnt yn cynyddu allyriadau arogleuon ac amonia.
- Glanhewch a diheintiwch adeiladau yn rheolaidd, er enghraifft, ar ôl i bob llwyth o stoc gael ei symud o adeilad neu wrth i gorlannau ddod yn wag. Glanhewch ddyddodion trwchus o lwch o arwynebau y tu mewn i'r adeilad, yn enwedig o siliau, siafftiau awyru a chyflau. Cliriwch raean a gwaddod o sianeli slyri a systemau casglu. Peidiwch â gadael i unrhyw un o'r golchion neu'r dyddodion hyn fynd i mewn i ddraeniau dŵr glân, dŵr wyneb na ffosydd cerrig.
- Dylech sicrhau fod yr adeilad wedi'i awyru'n ddigonol, er enghraifft, drwy gynnal prawf mwg syml. Lle maent ar gael, dylech gynnal a chadw gwyntyllau awyru, a sicrhau eu bod yn rhedeg â'r llif aer cywir ar gyfer nifer a phwysau'r anifeiliaid neu adar sydd yn yr adeilad. Gall system awyru wael achosi lleithder a all arwain at arogleuon annymunol, lefel uchel o amonia ac iechyd a lles gwael mewn anifeiliaid.
- Cymerwch gamau i leihau'r defnydd a wneir o ynni mewn adeiladau â systemau awyru mecanyddol neu adeiladau sydd wedi'u gwresogi. Er enghraifft, gall adeilad a gynlluniwyd yn dda helpu i gadw gwres a gynhyrchir gan dda byw yn y gaeaf.

Adeiladau gwartheg a llaethdai

- Craffwch dramwyfeydd ciwbiclau a mannau budr iawn eraill yn rheolaidd, fel arfer ddwywaith y dydd, i leihau allyriadau amonia.

- Dylid golchi a glanhau llaethdai a pharlyrau godro yn aml. Ailgylchwch ddŵr golchi llaethdai lle y bo'n bosibl (Cyf 48).

Adeiladau moch

- Lleiheir allyriadau os cedwir corlannau yn lân.  Gall cynllun ac adeiladwaith corlannau, yr arwyneb llawr cywir, a chyfleusterau bwydo a dyfrio sydd wedi'u lleoli'n dda helpu i gadw corlannau yn lân. Glanhewch fannau tomi concrid heb wasarn bob dydd, os yw'n bosibl.

- Ystyriwch ddefnyddio'r Dechneg Orau sydd Ar Gael wrth adnewyddu neu godi adeiladau newydd ar gyfer yr holl unedau moch (Cyf 47).

Adeiladau dofednod

- Ystyriwch ddefnyddio'r Dechneg Orau sydd Ar Gael wrth adnewyddu neu godi adeiladau newydd ar gyfer yr holl unedau dofednod, fel uchod.

  Adar dodwy mewn cewyll

  - Gwaredwch dail ieir dodwy mewn cewyll yn rheolaidd gan ddefnyddio systemau belt tail. Ystyriwch sychu tail yn gyflym ag aer ar y beltiau. Yn achos systemau pyllau dwfn – bydd sychu tail yn gyflym ag aer islaw'r cewyll yn lleihau allyriadau.
    - Dylech atal teclynnau yfed sy'n gollwng rhag gollwng dŵr ar feltiau tail nac i mewn i storfeydd tail.

  Systemau gwasarn dwfn

    - Dylai adeiladau â systemau gwasarn dwfn fod wedi'u hawyru'n ddigonol a hefyd wedi'u hinswleiddio â deunyddiau addas sydd ag atalfa anwedd i atal y deunydd inswleiddio rhag dirywio.
    - Dylai teclynnau yfed fod wedi'u cynllunio i sicrhau bod cyn lleied o hylif â phosibl yn cael ei ollwng. Os ydynt yn addas ar gyfer y math o stoc – mae'n well defnyddio cwpanau cnoi a diferu (neu systemau tebyg) na phowlenni crog fel teclynnau yfed. Sicrhewch fod teclynnau yfed ar yr uchder cywir drwy eu haddasu'n rheolaidd i lefel llygaid aderyn i osgoi gollyngiadau a gwasarn gwlyb.

Arogleuon o borthiant a storfeydd bwyd

- Gall arogleuon gael eu hamsugno gan ronynnau llwch ac wedyn eu cludo yn yr awyr. Mae porthiant sydd wedi'i falu'n fân a systemau gollwng porthiant hir (i mewn i finiau neu ar loriau) yn cynhyrchu mwy o lwch. Gall defnyddio bwydydd hylifol neu fwydydd ar ffurf peledi leihau llwch a gallant helpu i leihau arogleuon.

- Cadwch fwydydd megis sgil-gynhyrchion llaeth (maidd, llaeth sgim), burumau a thriagl, a all greu arogleuon cryf, mewn tanciau neu seilos gorchuddiedig a adeiladwyd yn gywir.

- Sicrhewch na adewir i unrhyw elifion o unrhyw storfa fwyd lifo ar draws concrid agored, ond eu bod yn cael eu casglu mewn sianel neu ddraen, a'u storio mewn storfa addas. Dylai'r man danfon fod wedi'i wneud o goncrid a dylid cyfeirio unrhyw hylif a ollyngir i mewn i'r system draenio dŵr budr.

### 3.2.4 Casglu, storio a thrin tail a dŵr brwnt

- Dylech fonitro lefelau hylifau yn yr holl gyfleusterau slyri a dŵr brwnt yn rheolaidd.
  - Lleihewch lefel y slyri a dŵr brwnt drwy gadw dŵr glaw allan o gyfleusterau storio, oni fydd ei angen yn benodol at ddibenion gwanhau. Bydd hyn yn lleihau costau storio a gwasgaru ar gaeau. Gall dargyfeirio dŵr o doeau i ffwrdd o'r storfa slyri arbed cryn dipyn ar gostau gwasgaru (Cyf 1).
- Dylai fod system briodol i atal dom sych, slyri a dŵr brwnt rhag dianc a'u cyfeirio i mewn i storfa gadarn o gynllun da a luniwyd gan berson proffesiynol, ac sy'n cydymffurfio â Safonau Prydeinig neu safonau cyfatebol eraill.
- Dylai maint storfeydd fod yn seiliedig ar nifer yr anifeiliaid neu adar a gedwir, faint o amser y cânt eu cadw dan do, arwynebedd iardiau concrid budr agored ac unrhyw fannau casglu ychwanegol. Dylid hefyd ystyried faint o ddŵr golchion a ddefnyddir, faint o law sy'n disgyn ar storfeydd heb do ac unrhyw ddŵr ffo arall o fannau megis caeau, ffyrdd a thoeau. Mae'r Pecyn i Ffermwyr ar Barthau Perygl Nitradau (Cyf 3) yn cynnwys canllawiau i gyfrifo maint addas y storfeydd.
- Am resymau gweithredol ac i osgoi llygredd efallai y bydd angen o leiaf pump neu chwe mis o gapasiti storio arnoch, yn enwedig ar ffermydd mewn ardaloedd gwlyb iawn lle mae'r tir yn anaddas ar gyfer gwasgaru yn y gaeaf.
- Argymhellir cloriau neu doeau arnofiol i leihau allyriadau arogleuon ac amonia, yn ogystal â chadw glaw allan.

**Nodyn Diogelwch**

- Gall cymysgu neu ailgylchredeg slyri greu nwyon peryglus a all ladd pobl a da byw.
- Peidiwch byth â rhoi elifion silwair mewn storfeydd slyri tanddaearol, am y gall problemau tebyg godi.
- Gorchuddiwch danciau a phyllau derbyn tanddaearol neu codwch ffens o'u hamgylch; codwch ffens o amgylch storfeydd â chloddiau pridd. Arddangoswch arwyddion rhybudd yn glir.

Storio Slyri

Wrth adeiladu systemau newydd dylid goruchwylio unrhyw waith adeiladu a chloddwaith i sicrhau bod y storfa yn strwythurol gadarn ac na all slyri ollwng. Mae canllawiau pellach ar gael ar amrywiaeth o opsiynau storio gwahanol (Cyfeiriadau 51 – 57).

Tanciau a phyllau derbyn tanddaearol

Mae'r math hwn o storfa yn addas ar gyfer slyri a dŵr brwnt, ac fel arfer fe'i hadeiledir gan ddefnyddio concrid cyfnerthedig crynswth. Mae cynllun llawer ohonynt yn darparu ar gyfer dodi to arnynt ac ymgorffori lloriau delltog uwchlaw'r tanc fel lloriau i adeiladau yn cynnwys ciwbiclau ac adeiladau ar gyfer da byw sy'n bwydo.

- Dylech sicrhau bod mannau cymysgu slyri digonol a hefyd drefniadau mynediad digonol ar gyfer gwagio'r tanc.
- Dylai adeiladau da byw â storfeydd tanddaearol fod wedi'u hawyru'n dda a dylid symud da byw allan o'r adeilad pan fyddwch yn cymysgu slyri.
- Dylai gwaelod a waliau sianeli neu byllau fod yn anhydraidd.
- Sicrhewch fod y pwll yn ddigon mawr i ddal yr holl slyri a allai gael ei arllwys o sianeli.

Storfeydd crwn uwchben y ddaear

Mae'r rhain yn addas i storio slyri sy'n hawdd ei bwmpio. Nid ydynt yn addas ar gyfer slyri sy'n cynnwys llawr o wasarn ar ffurf gwellt hir neu dywod neu borthiant gwastraff.

- Cymysgwch y slyri yn drylwyr yn y pwll derbyn, pan fyddwch yn ei drosglwyddo i'r storfa uwchben y ddaear.
- Cymysgwch gynnwys y storfa i chwalu unrhyw grystyn a chodi gwaddod cyn i chi wagio'r storfa.
- Er mwyn osgoi'r risg o orlifo, peidiwch â gadael y pwmp yn rhedeg heb neb i ofalu amdano gyda'r falfiau ar agor rhwng y storfa a'r pwll derbyn.
- Bydd gadael i grystyn ffurfio ar y slyri neu ddarparu clawr dros y storfa yn lleihau allyriadau arogleuon ac amonia.

Storfeydd wal hidlo

Mae'r rhain yn arbennig o addas ar gyfer slyri gwartheg sy'n cynnwys llawer o wasarn gwellt ac fel arfer maent wedi'u hadeiladu o baneli concrid ag agennau fertigol rhwng pob panel. Mae angen sianel o amgylch y storfeydd i gasglu'r hylif sy'n draenio drwy'r agennau a dargyfeirio'r hylif hwn i storfa o faint addas.

- Ni ddylech ganiatáu i ormod o hylif fynd i mewn i'r storfa wal hidlo, am y gall hyn achosi i'r hylif "ffrydio" drwy'r agennau, sy'n anodd ei atal rhag ymledu. Dylid cyfeirio unrhyw hylifau sydd dros ben i mewn i'r tanc

storio cysylltiedig neu gyfleuster dal arall, gan ddibynnu ar gynllun y system. Bydd tua 10% o'r hylif sy'n mynd i mewn i'r storfa yn hidlo drwy'r wal ac mae'n rhaid casglu'r hylif hwn drwy ei ddraenio i danc o faint addas.

- Dylid cynllunio'r storfa i storio hylif drwy'r gaeaf, am fod y math hwn o storfa yn cael ei gwagio fel arfer ar ddechrau'r haf, am fod angen i'r cynnwys sychu i sicrhau y gellir agor y storfa yn ddiogel.

Storfeydd â chloddiau pridd

Gellir defnyddio'r rhain ar gyfer pob math o slyri neu ddŵr brwnt. Gan ddibynnu ar ba mor dew yw ei chynnwys, gallant weithredu fel storfeydd hylif sy'n cael ei gwagio gan bwmp neu dancer sugno, neu drwy gymryd rhai hylifau i ffwrdd gyntaf a chael gwared ar y solidau sydd ar ôl gan ddefnyddio llwythwr a gwasgarwr.

- Mae'n rhaid i storfeydd newydd neu storfeydd a newidiwyd yn sylweddol fod yn anhydraidd – gallwch fewnforio clai neu ddefnyddio leinin i sicrhau eich bod yn atal y deunydd hylifol rhag gollwng. Nid yw leininau parod yn addas ar gyfer dadlwytho mecanyddol ac felly dim ond at ddibenion storio hylif y dylid eu defnyddio.
- Dylai'r dylunydd sicrhau bod y pridd a'r safle yn addas ar gyfer gwaith adeiladu. Dylai hefyd archwilio'r cloddiau a sicrhau eu bod wedi caledu a dylid darparu ar gyfer sadio.
- Dylid gorchuddio cloddiau moel â haen o uwchbridd wedi'i hau â glaswellt i atal erydu ond dylech gadw llystyfiant yn fyr fel y gellir eu harchwilio. Peidiwch â gadael i goed dyfu arnynt nac yn agos atynt. Os bydd craciau yn ymddangos neu os bydd y cloddiau yn sadio, dylid eu hatgyweirio yn syth. Archwiliwch gloddiau ar ôl glaw trwm.
- Bydd blwch hidlo wedi'i osod yn rhan ddyfnaf y storfa yn ei gwneud yn bosibl i dynnu rhywfaint o hylif gan ddefnyddio pwmp.
- Bydd gadael i grystyn ffurfio yn lleihau allyriadau arogleuon ac amonia ond bydd angen i chi allu chwalu'r cyfrwy grystiau i osgoi problemau trafod ar ôl hynny.

<u>Systemau storio ar gyfer dŵr brwnt</u>

- Efallai y byddwch yn penderfynu cyfeirio cyfeintiau bach o ddŵr brwnt i mewn i storfeydd slyri, ond ar gyfer cyfeintiau mwy o ddŵr brwnt gallech ystyried system ar wahân ar gyfer ei storio a'i wasgaru ar y tir ar ôl hynny, megis system ddyfrhau ‘cyfradd isel’.
- Mae'r systemau hyn yn defnyddio tanciau addas neu storfeydd â chloddiau pridd i gasglu hylifau a'u gadael iddynt waddodi. Maent yn defnyddio pwmp trydan, pibellau calibr bychan a dyfrhäwr symudol bach. Bydd angen system hidlo arnynt, fel arfer trefniant o rwyllwaith neu fyfferi â chompartmentau, i'w gwneud yn bosibl i wahanu deunydd a allai flocio'r system.
- Byddwch yn arbennig o ofalus os ydych yn defnyddio systemau dyfrhau ‘cyfradd uchel’. Mae'r systemau hyn yn defnyddio pibellau calibr mawr i ddarparu cyfraddau llifo a gwasgaru uchel, ac fel arfer nis defnyddir yn y

gaeaf oherwydd y risg uchel o oferu. Maent yn gysylltiedig fel arfer â chyfleusterau storio hirdymor.

- Dim ond ar gaeau pan fo cyflwr y pridd a goleddf y tir yn addas ac nid oes unrhyw risg yr achosir llygredd wrth ei wasgaru y mae'n dderbyniol gwasgaru mwy na 50 $m^3$/ha o ddŵr brwnt ar dir.
- Symudwch daenellwyr a dyfrhawyr yn rheolaidd, ac archwiliwch dir rydych yn ei ddyfrhau am arwyddion o oferu neu gronni ar yr wyneb, neu o fwydod yn cael eu lladd.
- Mae angen dyfeisiau rhybuddio rhag ofn y bydd system yn methu.
- Dylai dyfrhawyr symudol ddiffodd yn awtomatig ar ddiwedd rhediad.

<u>Storfeydd dom sych</u>

- Dylai fod gan storfeydd parhaol ar gyfer dom sych waelod anhydraidd. Dylai'r gwaelod raddol ddisgyn fel bod hylifau yn llifo i mewn i sianeli casglu, a leolir fel arfer y tu allan i'r storfa, sy'n draenio i danc o faint neu gynllun addas.
- Bydd defnyddio pentyrrau cul siâp A sydd wedi'u pacio'n ddwys yn cael gwared ar ddŵr glaw yn haws ac yn atal tail rhag mynd yn rhy wlyb, a hefyd leihau allyriadau arogleuon ac amonia.
- Bydd darparu to neu glawr i atal glaw rhag disgyn ar y tail yn lleihau lefelau dŵr brwnt ffo. Gallwch leihau allyriadau arogleuon ac amonia o dail dofednod drwy ei gadw mor sych â phosibl. Yn achos adeiladau moch â llwybrau craffu dom, lle y bwriedir cynhyrchu dom sych y gellir ei bentyrru, dylai fod iard goncrid ddigon mawr i gadw'r ffracsiwn solet am o leiaf fis i'w gwneud yn bosibl i hylifau ddraenio i mewn i storfa slyri addas.

<u>Pentyrrau mewn caeau</u>

- Ni ddylech osod pentyrrau o fewn 10 metr i ddŵr wyneb nac o fewn 50 metr i ffrwd, ffynnon neu dwll turio nac mewn lleoliadau a fyddai'n achosi problemau arogleuon i breswylwyr gerllaw.
- Ni ddylid pentyrrau dros dro mewn caeau fod yn yr un lle am fwy na 12 mis yn olynol.
- Dylai fod bwlch o ddwy flynedd cyn dychwelyd i'r un safle mewn cae.
- Os na ellir osgoi storio tail dros ddraeniau maes, sicrhewch na chaiff ei storio yno am fwy na diwrnod neu ddau ac nad yw'n achosi llygredd.
- Dylid lleoli pentyrrau mewn caeau ymhell oddi wrth unrhyw rigolau neu lwybrau a allai fod yn llwybr i elifion gyrraedd dŵr wyneb neu gynefinoedd.

<u>Materion rheoli tail eraill</u>

Halogi gan barasitiaid a phathogenau

- Ar ffermydd lle y canfuwyd *Cryptosporidium parva* (paraseit a all wneud pobl yn sâl), storiwch slyri cyhyd ag y bo'n ymarferol bosibl. Bydd storio dom sych (tail buarth) am o leiaf ddau fis cyn ei wasgaru ar dir, yn lleihau'r risg y caiff dŵr wyneb ei halogi ag öosytau hyfyw (wyau).

- Os ydych yn bwriadu gwasgaru tail cyn plannu cnydau "parod i'w bwyta", dylech ddilyn y cyngor ar sut i leihau'r risg y caiff bwyd ei halogi gan bathogenau (Cyf 58).

Mae'r technegau canlynol yn ychwanegol at arfer amaethyddol da cyfredol, ond efallai y byddant yn briodol mewn rhai sefyllfaoedd:

Compostio

- Mae compostio dom sych yn cwtogi ar yr hyn y mae angen ei wasgaru ar dir ac yn lleihau'r arogl a ryddheir wrth ei wasgaru ac ar ôl hynny. Gall compostio ei hun greu arogleuon ar y safle a chynyddu lefel yr amonia a gollir. Sicrheir y canlyniadau gorau drwy ddefnyddio cynhwysion sydd wedi'u torri a'u cymysgu'n dda - fel arfer tail a gwellt yn y meintiau cywir - a thrwy reoli'r tymheredd a chynnwys lleithder, a thrwy ei droi yn rheolaidd.

Gwahanu mecanyddol

- Mae gwahanu slyri yn fecanyddol yn cael gwared ar rai solidau ac yn darparu hylif y gellir ei bwmpio. Gellir pentyrru a storio'r gyfran solet, rhwng 10 ac 20% o gyfaint gwreiddiol y slyri fel arfer, mewn ffordd debyg i dail buarth, er bod rhaid i chi ddarparu ar gyfer casglu goferion o'r man gwahanu a'r pentyrrau. Mae sgriniau llifo i lawr â phanel gwifrau lletem neu sgriniau dirgrynu syml ar gyfer slyri moch, yn cynhyrchu solidau wedi'u gwahanu na ellir eu pentyrru ac sy'n dueddol o sadio. Yn achos slyri moch a gwartheg, mae gwahanwyr sy'n gwasgu'r slyri yn erbyn belt ffabrig neu sgrin ddur yn cynhyrchu solidau wedi'u gwahanu sy'n cynnwys rhwng 18 a 30% o ddeunydd sych y gellir eu pentyrru a'u compostio'n hawdd.

Treulio anerobig

- Mewn rhai amgylchiadau gall proses treulio slyri anerobig ynghyd â deunyddiau organig eraill, gan gynnwys gwastraff bwyd, gynhyrchu digon o fio-nwy i'w ddefnyddio ar gyfer cynlluniau gwresogi lleol neu i gynhyrchu trydan. Ymhlith y ffactorau llwyddiant allweddol mae sicrhau cyflenwad rheolaidd a chyson o ddeunydd organig (a 'ffioedd gât' cysylltiedig) a pharu'r maetholion yn y deunydd wedi'i dreulio (gweddillion treuliad anaerobig) â chnydau a thir sydd ar gael gerllaw. Mae Cyfeiriad 59 yn rhoi dewis o wybodaeth bellach am dreulio anerobig.

Gwlyptiroedd Adeiledig

- Mae gwlyptiroedd adeiledig yn gyfres o byllau seliedig bach sy'n cynnwys dŵr bas a chyrs sy'n dal gwaddod ac yn dadelfennu maetholion cyn gollwng dŵr i'r systemau dŵr wyneb neu ddŵr daear. Gwnaed rhywfaint o ymchwil gadarnhaol ar weithrediad y gwlyptiroedd hyn, er yr ystyrir ei bod yn cael y budd mwyaf o'u defnyddio ar gyfer

halogiad lefel isel o fuarthau a thoeau (Cyf 60). Mae angen cael caniatâd ysgrifenedig gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer y gollyngiadau felly fe'ch cynghorir yn gryf i drafod unrhyw gynigion gydag Asiantaeth yr Amgylchedd cyn dechrau eu hadeiladu.

### 3.2.5 Dipio Defaid

- Cynlluniwch eich gwaith dipio defaid, i ymdrin ag iechyd a diogelwch personol (Cyf 42) ac effeithiau ar les anifeiliaid a'r amgylchedd (Cyfeiriadau 61 a 62). Gweler y Cod Diogelu Dŵr Daear (Cyf 41) am fanylion pellach.

Lleoli cyfleusterau

- Dylid lleoli cyfleusterau, gan gynnwys systemau ymfudol a chorlannau draenio, o leiaf 10 metr i ffwrdd o ffosydd a dŵr wyneb, a 50 metr i ffwrdd o ffrydiau, ffynhonnau neu dyllau turio.
- Gall systemau symudol beri mwy o risg i'r amgylchedd na dipiau sefydlog os cânt eu lleoli'n anghywir. Dim ond os oes ganddynt systemau draenio a chasglu seliedig y dylid defnyddio lleiniau caled.
- Mae rhai caeau yn dderbyniol ar gyfer systemau symudol, ar yr amod
    - eu bod yn wastad, neu'n disgyn yn raddol
    - eu bod yn cynnwys glaswelltir neu borfa arw sefydledig
    - bod ganddynt o leiaf ddyfnder rhaw o uwchbridd ac, os oes modd, ddyfnder pellach o bridd o 50 cm uwchben craig, a dim dŵr daear o fewn 1m i'r wyneb
    - yn rhydd o lifogydd a chroniadau dŵr wyneb ac nad ydynt yn llawn dŵr, wedi rhewi nac wedi'u cywasgu.

Paratoi i ddipio

- Dylech gynllunio, adeiladu a chynnal a chadw cafnau dipio i sicrhau nad ydynt yn gollwng. Ni ddylai fod ganddynt dyllau draenio ond dylai fod ganddynt sgriniau ac ymylon i leihau tasgu ac atal dip rhag gollwng. Dylai cafnau newydd fod wedi'u gwneud o un darn, ac wedi'u cynllunio yn unol â manyleb ADAS (Cyf 63). Sicrhewch fod cafnau dipio wedi'u gorchuddio pan na fyddant yn cael eu defnyddio.
- Storiwch a chludwch grynodiad dip yn ddiogel.
- Dylai fod corlannau “draenio” digon mawr i ddal defaid am o leiaf 10 munud ar ôl eu dipio, fel bod dip a ddefnyddiwyd yn draenio yn ôl i'r cafn dipio.
- Rhowch weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau megis gollwng crynodiad dip neu ddip a ddefnyddiwyd, neu ddefaid gwlyb yn mynd i mewn i wlyptiroedd neu ddŵr wyneb. Dylech gynnwys y rhain yn eich cynllun damweiniau ac argyfyngau ar gyfer y fferm (gweler Adran 2.2.3).
    - Archwiliwch yr ardal o amgylch y safle trin ac edrychwch am lwybrau llygru. Archwiliwch y cafn am ollyngiadau, llenwch ef â dŵr a gadewch ef dros nos. Os bydd lefel y dŵr yn gostwng, dylech ganfod y gollyngiadau a'u selio'n barhaol.

Pryd i ddipio

- Peidiwch â dipio defaid os yw'n debygol o fwrw glaw o fewn 24 awr.
- Defnyddiwch grynodiad dip sydd wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio. Cymysgwch a chadwch y crynodiad o fewn yr ardal ddipio. Dilynwch y cyfarwyddiadau cymysgu a byddwch yn ofalus wrth olchi'r tu mewn i gynwysyddion a golchi dillad diogelu i sicrhau na chaiff dŵr wyneb ei lygru.
- Peidiwch â gorlenwi'r cafn dipio.
- Trefnwch fod y defaid yn cael eu trafod yn y fath fodd ag i leihau tasgu, a sicrhewch nad yw cemegau yn cael eu gollwng ar gyfarpar na dillad.
- Cadwch ddefaid yn y gorlan hyd nes nad oes unrhyw arwyddion o doddiad dip yn diferu oddi arnynt. Gallai hyn gymryd o leiaf 10 munud. Peidiwch â gadael i ddip a ddefnyddiwyd lifo i mewn i ddraeniau, ffosydd, dŵr wyneb nac ymdreiddio i'r ddaear.

Ar ôl dipio defaid

Gellir golchi dip o gneifiau os bydd defaid yn mynd i mewn i ddŵr wyneb, neu os ceir glaw trwm.

- Peidiwch â gadael i ddefaid gwlyb fynd i mewn i wlyptiroedd na chyrsiau dŵr.
- Os oes modd cadwch ddefaid allan o ddŵr wyneb am o leiaf bythefnos. Nes y bydd y cnu'n sych, peidiwch â chadw defaid mewn mannau sy'n cynnwys ffynhonnau, ffrydiau, dŵr wyneb na gwlyptiroedd.
- Gwagiwch y cafn dipio cyn gynted â phosibl. Golchwch gyfarpar, gan gynnwys y gorlan ddraenio, gan sicrhau na chaiff unrhyw olchion eu gollwng fel y gellir eu gwaredu'n briodol.
- Peidiwch â chael gwared ar dip drwy adael iddo fynd i mewn i ddŵr daear na dŵr wyneb ar unrhyw gyfrif. Dylech gael gwared ar dip sydd wedi'i ddefnyddio yn unol â thrwydded amgylcheddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru[34].
- Peidiwch â chymysgu dip â slyri mewn storfeydd slyri.

Cynwysyddion a chrynodiad dip dros ben

- Peidiwch ag ailddefnyddio cynwysyddion gwag at unrhyw ddiben. Golchwch gynwysyddion gwag deirgwaith â dŵr glân, ac arllwyswch y cynnwys i mewn i'r cafn dipio. Storiwch y cynwysyddion wedi'u golchi o dan orchudd cyn cael gwared arnynt. Storiwch unrhyw grynodiad sydd dros ben yn ddiogel neu, os nad oes ei eisiau, dylech gael gwared arno (gweler Adran 7 am opsiynau gwaredu).

**Nodyn Diogelwch**
Mae rhai cemegau dipio defaid yn wenwynig i adar, gan gynnwys gwyddau ac ieir domestig. Peidiwch â gadael i adar a da byw eraill yfed y dip. Peidiwch â

[34] Erbyn hyn, gelwir pob trwydded dŵr daear, hy pob caniatâd dan y Rheoliadau Dŵr Daear, yn drwyddedau amgylcheddol yn unol â Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010

gadael i dda byw bori am o leiaf fis ar dir lle mae dip a ddefnyddiwyd wedi'i wasgaru.

### 3.2.6 Storio a thrafod plaladdwyr

Am arfer da o ran defnyddio plaladdwyr gweler adran 4.2.5.

Storio

- Storiwch gymaint o blaladdwr ag sydd ei angen arnoch yn y dyfodol agos a dim mwy. Dylai storfeydd plaladdwyr newydd gyrraedd safonau cynllunio ac adeiladu da (Cyfeiriadau 64 a 65), ac ni ddylid eu hadeiladu lle mae risg y caiff dŵr wyneb neu ddŵr daear ei lygru. Ceisiwch gyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdodau cynllunio a thân lleol, y swyddog atal troseddu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch cyn i chi adeiladu storfa blaladdwyr neu newid storfa blaladdwyr yn sylweddol.
- Dylid archwilio storfeydd yn rheolaidd a gwneud gwelliannau neu waith atgyweirio yn ôl yr angen
- Gellir storio symiau bach o blaladdwyr mewn cist, bin, daeargell neu gabinet addas. Dylai'r cynhwysydd hwn allu gwrthsefyll trawiadau a thân a dylai allu atal unrhyw blaladdwr rhag gollwng. Dylid ei gadw dan glo.
- Dylai fod gan storfeydd lawr anhydraidd a dylent allu atal gollyngiadau o holl gynnwys y storfa ynghyd ag o leiaf 10% ychwanegol (85% ychwanegol os ydych gerllaw safle amgylcheddol sensitif).

Cymysgu plaladdwyr, llenwi tanciau chwistrellu a golchi cyfarpar

- Dylid cyflawni gweithrediadau cymysgu, llenwi a golchi mewn man dynodedig lle na all gollyngiadau na golchion ollwng i halogi pridd, dŵr daear na dŵr wyneb. Dylid cyfeirio unrhyw hylifau a gollyngiadau at danc neu system gasglu addas. Dylai'r cyfleusterau hyn fod ymhell o ddraeniau iardiau, ffosydd, draeniau maes a dŵr wyneb arall.
- Mae'n rhaid i chi osgoi ôl-seiffno wrth lenwi chwistrellwr drwy sicrhau nad oes unrhyw gysylltiadau uniongyrchol rhwng chwistrellwr a chyflenwad dŵr.
- Mae biowelyau yn byllau llawn gwellt, pridd a chompost sydd wedi'u gorchuddio â thyweirch, y bwriedir iddynt gasglu diferion a gollyngiadau plaladdwyr. Mae micro-organebau yn y pwll yn diraddio cemegau i lefel ddiogel (Cyf 66). Am ragor o wybodaeth am adeiladu biowely, cysylltwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Fenter Wirfoddol.
- Am ragor o wybodaeth am waredu plaladdwyr gwastraff gweler adran 7.1.6 a 7.2.4.

Gollyngiadau

- Os ceir gollyngiad y tu allan i'r man dynodedig ar gyfer glanhau â chwistrellwr, dylech ddilyn eich cynllun damweiniau ac argyfyngau. Dylid amsugno gollyngiadau bach ar unwaith â deunydd sugno e.e. tywod neu

wasarn cathod. Ar gyfer gollyngiadau mawr, cysylltwch â llinell frys Asiantaeth yr Amgylchedd ar 0800 807060. **Peidiwch** â chwistrellu dŵr drostynt am y bydd hynny'n cynyddu risg y caiff dŵr ei lygru.

Trafnidiaeth

- Dylech gludo plaladdwyr yn ofalus. Os ydych yn casglu plaladdwyr o gyflenwr, neu'n symud plaladdwyr o amgylch y fferm neu oddi arni, dylech gadarnhau eich rhwymedigaethau cyfreithiol o ran cludo nwyddau peryglus yn ddiogel. Ymgynghorwch â'r Cod Ymarfer ar Ddefnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Cyf 33) am ragor o fanylion.

### 3.2.7 Storio a thrafod gwrtaith

Am arfer da o ran defnyddio gwrteithiau gweler adran 4.2.5.

Mae'r risg y caiff dŵr ei lygru drwy storio a thrafod gwrteithiau solet yn isel, ond mae angen i chi fod yn arbennig o ofalus gyda gwrteithiau hylifol. Os ceir achosion o lygredd, maent yn debygol o fod yn ddifrifol iawn. Sicrhewch eich bod yn cynnwys sut i ymdrin â gollyngiadau yn eich cynllun damweiniau ac argyfyngau.

Gwrteithiau solet

- Dilynwch y Cod Ymarfer ar atal llygredd dŵr a achosir drwy storio a thrafod gwrteithiau solet (Cyf 67).
- Peidiwch â storio bagiau o wrtaith o fewn 10 metr i ddraen maes, ffos neu ddŵr wyneb, nac o fewn 50 metr i ffrwd, ffynnon neu ddŵr wyneb.
- Dylech ddychwelyd bagiau nas defnyddiwyd o safleoedd dros dro mewn caeau i storfa barhaol cyn gynted â phosibl.
- Peidiwch â thorri'r bagiau a chasglwch unrhyw ddeunydd a ollyngwyd.
- Darparwch gyfleusterau storio diogel ar y fferm a chynhaliwch archwiliadau stoc rheolaidd. Os oes modd cadwch wrteithiau mewn adeilad dan glo. Ceir canllawiau pellach ar arfer da ar gyfer storio gwrtaith yng Nghyfeiriadau 44, 45 a 68.
- Mae angen cael gwared ar fagiau neu eu hailgylchu. Peidiwch â llosgi plastigau yn yr awyr agored (gweler Adran 7).

Gwrteithiau hylifol

- Dilynwch y Cod Ymarfer ar atal llygredd dŵr a achosir drwy storio a thrafod gwrteithiau hylifol (Cyf 69).
- Dylai tanciau storio, pibellau, falfiau, cysylltiadau ac ati allu gwrthsefyll cyrydu a achosir gan wrteithiau a dylid eu harchwilio'n rheolaidd.
- Dylai gwaelodion tanciau storio fod wedi'u cynllunio i ddal pwysau'r storfa lawn.
- Mae'n rhaid sicrhau bod gan gerbydau dosbarthu mawr fynediad addas i'r storfa.

- Diogelwch danciau rhag cael eu difrodi gan gyrydu a pheidiwch â defnyddio cynwysyddion hyblyg heb ddiogelwch na chynwysyddion heb ddim i'w cynnal ar gyfer storfeydd dros dro na storfeydd parhaol.
- Peidiwch â gorlenwi tanciau. Gadewch le i'r cynnwys ehangu. Clowch unrhyw falfiau a allai adael i wrtaith ollwng.
- Dylai fod gan bob tanc system ddal eilaidd, megis bwnd, i atal unrhyw hylif rhag gollwng.
- Dylid cau hatshis, cloriau a falfiau tanceri a thanceri dŵr sy'n dal gwrteithiau hylifol yn dynn pan fyddant yn cael eu cludo. Dylid cloi pob falf pan na fydd neb i ofalu amdanynt.

### 3.2.8 Storio Olew Tanwydd

- Gallech ddefnyddio “tanc â chroen dwbl” i ddarparu system ddal eilaidd, ond sicrhewch ei fod yn bodloni'r gofynion cyfreithiol hefyd, gweler adran 3.1.3.
- Defnyddiwch danc, megis y rhai a ddefnyddir gan orsafoedd tanwydd, lle y tynnir tanwydd o ran uchaf y tanc gan bwmp, drwy falf unffordd. Mae'r cyfryw danciau, yn eu hanfod, yn fwy diogel. Mae'n rhaid i chi sicrhau eu bod hefyd yn cydymffurfio â'r rheoliadau.
- Sicrhewch fod tanciau yn cael eu dal yn sownd.
- Archwiliwch danciau am ollyngiadau ac atgyweiriwch neu adnewyddwch y tanc ar unwaith. Gellir tynnu olew o ddŵr gan ddefnyddio blanced a wnaed yn arbennig i amsugno olew. Dosberthir gwastraff olew yn ddeunydd peryglus (gweler Adran 7), ond gall rhoi to dros danciau neu fannau storio helpu i atal y deunydd hwn rhag cronni.
- Gosodwch y tanc(iau) i ffwrdd o **unrhyw** ddraeniau.
- Cynlluniwch weithdrefnau ar gyfer dosbarthu olew tanwydd i'r tanc ac oddi yno, i leihau'r risg y bydd hylif yn gollwng, neu y caiff y tanc ei daro gan gerbydau. Os oes modd, goruchwyliwch y gwaith o ddosbarthu tanwydd a sicrhewch fod gennych fwy o le storio ar gael nag sydd ei angen ar gyfer y tanwydd sy'n cael ei gyflenwi. Sicrhewch y gall gyrrwr y cerbyd dosbarthu weld y mesurydd llenwi ac unrhyw bibell aer yn hawdd, i atal gorlenwi.
- Sicrhewch fod gennych falfiau sy'n dangos yn glir pryd maent ar agor ac sy'n cael eu cloi pan na fyddant yn cael eu defnyddio.
- Byddwch yn ofalus gyda thanciau symudol, yn enwedig wrth gludo olew tanwydd a'i ddefnyddio i lenwi cyfarpar.
- Sicrhewch fod hambyrddau diferion a chynfasau amsugno olew ar gael i ymdrin â mân ollyngiadau.

Ceir canllawiau pellach ar arfer da ar gyfer storio tanwydd (Cyfeiriadau 70 - 72).

### 3.2.9 Trafod pridd yn ystod gwaith adeiladu

- Sicrhewch fod unrhyw weithrediad ar eich tir sy'n cynnwys symud pridd yn cynnwys cynigion manwl a fydd yn diogelu'r defnydd a wneir ohono a'i weithrediad yn yr hirdymor. Lle y bo angen ceisiwch gyngor arbenigol i sicrhau bod y rhain yn briodol i'r gwaith a fydd yn cael ei wneud. Yn

ogystal ag arfer gorau (Cyf 73), dylech fod yn ymwybodol o unrhyw beth y mae'n orfodol yn gyfreithiol i chi ei wneud, ac o unrhyw faterion cytundebol ar wahân i unrhyw amod cynllunio neu drwydded.

- Mae gwaith cynllunio da yn hanfodol a dylai gynnwys unrhyw oblygiadau i'r tir oddi amgylch a'r ardal leol. Dylech ystyried y risg y bydd dŵr ffo ac erydu yn achosi llifogydd a llygredd ar dir cyfagos.
- Efallai y bydd angen i chi ddarparu cyfleusterau storio, yn ogystal â ffyrdd mynediad neu ffyrdd cludo i ddarparu ar gyfer symud ac ailddefnyddio priddoedd, ac, o bosibl, adfer neu symud deunyddiau dros ben hefyd. Efallai y bydd y rhain yn gofyn am ganiatadau ar wahân. Cysylltwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd am fanylion unrhyw ofynion neu eithriadau o ran trwyddedau amgylcheddol y gall fod eu hangen i wneud y gwaith.
- Dylech fod yn ymwybodol o rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n cymryd rhan yn y prosiect. Os bydd prosiect yn gofyn am drwyddedau a gwaith cynllunio bydd hyn yn cynnwys amodau cyfreithiol gyfrwymol, gwaith monitro ac ymrwymiadau parhaus. Os bydd gweithredwr safle yn methu â chyflawni ei ymrwymiadau, efallai y cymerir camau gorfodi yn erbyn perchennog y tir.
- Yn aml mae gan gontractwyr gyfarwyddiadau ymarferol manwl ar gyfer gweithio ar safle a ddatblygwyd o'r broses gynllunio neu drwyddedu ffurfiol. Bydd llwyddiant neu ansawdd y gwaith yn dibynnu ar ddilyn yr arfer gorau hwn. Os credwch nad ydynt yn cael eu dilyn, rhowch wybod i'ch asiant neu'r awdurdod gorfodi perthnasol.
- Dylid trafod a storio gwahanol briddoedd a geir ar y safle ar wahân, yn enwedig, uwchbriddoedd ac isbriddoedd. Ceisiwch leihau achosion o halogi pridd â chemegau megis olew, neu ddeunyddiau eraill megis cerrig, brics a phren.
- Bydd potensial hirdymor y tir yn dibynnu ar sut y caiff y safle ei weithio a'i reoli. Dylech osgoi gweithio ar briddoedd neu deithio drostynt. Er y bydd priddoedd yn adfer yn yr hirdymor, bydd gwaith cynllunio gofalus ac arfer da yn lleihau'r angen am weithrediadau peirianyddol drud. Mae priddoedd a adferwyd yn fregus a gellir eu niweidio'n hawdd gan ddefnydd amhriodol. Dylech drafod y pridd â gofal mawr, ni waeth pa ddefnydd a allai gael ei wneud ohono ar ôl hynny.
- Ceir canllawiau pellach ar adfer safleoedd yn y Nodyn Cyngor Technegol ar Fwynau (Cyf 74).

# 4 Hwsmonaeth Caeau

**Bydd gwneud gwaith maes yn unol â'r Cod hwn yn helpu i leihau'r risg y bydd dŵr ffo ac erydu yn llygru dŵr, y risg y caiff allyriadau nwyon i'r awyr eu cynyddu neu'r risg y caiff cynefinoedd a nodweddion hanesyddol eu niweidio. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau amodau pridd da, gan sicrhau'r tyfiant gorau posibl, gan gynorthwyo prosesau draenio ac yn helpu planhigion i gymryd maetholion o'r pridd.**

**Bydd dilyn arfer da yn yr adran hon yn eich helpu i leihau:**
erydu pridd, cywasgu pridd a niwed arall i adeiledd pridd, llygredd dŵr a achosir gan bridd a maetholion yn cael eu golchi o gaeau a phlaladdwyr, llygredd aer a achosir gan fwg, allyriadau nwyon tŷ gwydr, niwed i gynefinoedd, nodweddion archeolegol neu nodweddion tirwedd.
**Gall hefyd arbed arian i chi drwy:**
Leihau'r defnydd a wneir o ynni, lleihau unrhyw waith adferol, lleihau'r defnydd o wneir o wrtaith

## 4.1 Gofynion Cyfreithiol

Dyma beth mae'n rhaid i chi ei wneud yn ôl y gyfraith mewn perthynas â'ch hwsmonaeth caeau:

### 4.1.1 Diogelu Adnoddau Dŵr

Mae'n drosedd achosi i ddeunydd gwenwynig, afiach neu lygrol, neu ddeunydd gwastraff solet gael ei ollwng i ddyfroedd a reolir, gan gynnwys dŵr daear a dyfroedd wyneb, neu ganiatáu i hynny ddigwydd yn fwriadol heb awdurdod priodol gan Asiantaeth yr Amgylchedd[35]. Byddai hyn yn gymwys i achosion o lygredd a achoswyd gan slyri a thail a wasgarwyd ar gaeau yn cael eu golchi oddi ar y tir hwnnw, neu gan erydu pridd.

### 4.1.2 Pridd sy'n cael ei Olchi oddi ar Dir

Efallai y byddwch yn agored i gael eich erlyn os caiff pridd sy'n erydu o'ch tir ei ddyddodi ar briffordd[36]. Efallai y byddwch yn wynebu hawliad sifil os bydd yn difrodi eiddo cymydog.

### 4.1.3 Diogelu safleoedd a rhywogaethau dynodedig

Dylech fod yn ymwybodol o unrhyw safleoedd dynodedig ar eich tir. Diogelir Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAoedd), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAoedd) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAoedd) gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Ni ddylech

[35] Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010.
[36] Deddf Priffyrdd, 1980 (fel y'i diwygiwyd)

gyflawni unrhyw weithrediadau sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig yr ardaloedd hyn, a all gynnwys trin tir neu ddraenio priddoedd.

Diogelir llawer o ardaloedd o briddoedd mawnog heb eu gwella fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Diogelir llawer o'r adar, yr anifeiliaid a'r planhigion a geir ar dir fferm ac yng nghefn gwlad ehangach gan ddeddfwriaeth y DU[37] a deddfwriaeth Ewropeaidd[38]. Gall gwaith megis codi ffensys, draenio a rheoli coetir effeithio ar rywogaethau a warchodir megis Ystlumod, Moch Daear, Pathewod, Llygod Dŵr, Madfall Cribog a Dyfrgwn. Gall rhai rhywogaethau a warchodir megis ystlumod hefyd fod yn bresennol mewn adeiladau y bwriedir eu hadnewyddu. Mae pob aderyn gwyllt, eu hwyau a'u nythod wedi'u diogelu hefyd.

Mae'n drosedd tarfu ar rywogaethau gwarchodedig, eu lladd, eu hanafu neu eu cymryd a difrodi, dinistrio neu rwystro mynediad i leoedd a ddefnyddir ganddynt ar gyfer cysgod, diogelwch neu at ddibenion bridio. Mae hefyd yn drosedd casglu, dadwreiddio neu ddinistrio llawer o rywogaethau planhigion.

Efallai y bydd angen trwydded arnoch o ran, er enghraifft, moch daear neu fadfallod dŵr, os ydych yn debygol o darfu arnynt yn ystod gweithrediad maes. Ceir gwybodaeth am reoli bywyd gwyllt gan gynnwys gwaddod (Cyfeiriadau 38 a 75) a moch daear gan Lywodraeth Cynulliad Cymru – gweler yr adran Cysylltiadau Defnyddiol.

Diogelir Henebion Cofrestredig o dan Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979. Mae'n drosedd gwneud unrhyw waith sy'n arwain at ddifrodi neu ddinistrio heneb, neu unrhyw waith i'w symud neu ei hatgyweirio, neu foddi tir lle y ceir heneb gofrestredig neu dipio arno. Mae'n rhaid i chi gael caniatâd ffurfiol Llywodraeth Cynulliad Cymru (drwy Cadw) yn gyntaf. Felly, cynghorir rheolwyr tir i ymgynghori â Cadw cyn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd, a allai effeithio ar heneb gofrestredig.

### 4.1.4 Newid dulliau rheoli ar dir heb ei drin ac ardaloedd lled-naturiol

Rhaid i bob ffermwr gydymffurfio â Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth)(Cymru) 2007. Os ydych yn bwriadu newid y ffordd y rheolir tir lled-naturiol a thir heb ei drin, fel y gwneir defnydd dwysach ohono, mae'n rhaid i chi wneud cais am benderfyniad sgrinio. Er enghraifft, gall aredig porfa barhaol dorri Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol, a gofynion cysylltiedig trawsgydymffurfio. Mae nodiadau cyfarwyddyd ar gael sy'n diffinio mathau o dir lled-naturiol a thir heb ei drin, a'r math o waith amaethyddol a fyddai'n gofyn am benderfyniad sgrinio (Cyf 76).

### 4.1.5 Defnyddio Plaladdwyr

Er mwyn defnyddio plaladdwyr mae'n rhaid i chi:

[37] Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
[38] Cyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EEC

1) meddu ar dystysgrif cymhwysedd berthnasol, neu
2) gweithio o dan oruchwyliaeth rhywun â'r tystysgrifau cywir (Cyf 33), neu
3) bod â hawliau 'taid', os cawsoch eich geni cyn 31/12/1964.

Fodd bynnag, mae newidiadau mewn deddfwriaeth yn golygu, o 2013, y bydd yn rhaid i holl ddefnyddwyr plaladdwyr feddu ar dystysgrif cymhwysedd er mwyn prynu a defnyddio plaladdwyr.

- Mae'n rhaid i chi hefyd gydymffurfio â'r amodau defnyddio a nodir ar y label neu sy'n rhan o Gymeradwyaeth Oddi ar Label Benodol (SOLA) (Cyf 77). Bydd y rhain yn nodi sut i ddefnyddio'r plaladdwr a faint o glustogfa sydd ei hangen o amgylch dŵr wyneb, safleoedd bywyd gwyllt a gwrychoedd. Os ydych am leihau'r llain glustogi statudol lle na ddylid chwistrellu gerllaw dŵr wyneb mae'n rhaid i chi wneud Asesiad o'r Risg i'r Amgylchedd Lleol ar gyfer Plaladdwyr (LERAPS) (Cyf 36).

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnoch i gadw plaladdwyr ar y safle lle y cawsant eu defnyddio h.y. atal ysgeintiad rhag drifftio a phlaladdwyr rhag cael eu golchi oddi ar y tir. Cyn i chi ddefnyddio unrhyw gynnyrch mewn dŵr neu'n agos at ddŵr, e.e. ar y lan, dylech gysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyntaf.

Mae'n rhaid i chi gadw cofnodion o'r defnydd a wneir o blaladdwyr pan fyddwch yn tyfu bwyd neu gnydau porthiant[39].

Am ganllawiau pellach ar ddefnyddio Plaladdwyr, gweler adran 4.2.5 a'r Cod Ymarfer ar ddefnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Cyf 33).

### 4.1.6 Llosgi Grug a Glaswellt

Mae gweithgarwch llosgi grug a glaswellt yn ddarostyngedig i Reoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc. (Cymru) 2008 sy'n diffinio pryd a sut y gellir eu llosgi. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i lunio Cynllun Rheoli Llosgi bob tro rydych yn bwriadu llosgi grug neu laswellt (Cyf 78).

### 4.1.7 Cynhyrchu tyweirch

Efallai y bydd angen i chi gael caniatâd i dorri mawn cyn i'r gwaith dechrau, o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Ceisiwch gyngor gan eich Awdurdod Cynllunio Lleol os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a ellid ystyried bod y gweithgaredd arfaethedig yn un masnachol ac nad yw'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer amaethyddiaeth. Gweler yr adran Cysylltiadau Defnyddiol am fanylion eich Awdurdod Unedol lleol.

At hynny, ar gyfer rhai cynigion, mae'n bosibl y bydd angen i chi wneud cais o dan Reoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth)(Cymru) 2007 (Cyf 76), a chael caniatâd gan Cadw os yw'r safle ar heneb gofrestredig

[39] Rheoliadau'r CE 852/2004 ar hylendid bwydydd, a weithredwyd gan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru), 2006, a 183/2005 ar hylendid bwyd ar gyfer da byw.

neu'n agos at un[40]. Efallai y bydd angen i chi ystyried rhywogaethau gwarchodedig – gweler adran 4.1.2 uchod.

### 4.1.8 Trawsgydymffurfio

Os ydych yn cymryd rhan yng Nghynllun y Taliad Sengl mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r Gofynion Rheoli Statudol a hefyd y gofynion i gadw eich tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da.

Y Gofynion Rheoli Statudol sy'n ymwneud â rheoli hwsmonaeth caeau yw:

- Diogelu dŵr daear rhag llygredd, sy'n gysylltiedig â defnyddio dip defaid a phlaladdwyr.
- Gwarchod ffawna a fflora
- Gwarchod adar gwyllt
- Cyfyngiadau ar ddefnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion, o ran ble a phryd i ddefnyddio plaladdwyr
- Gweler hefyd y Gofynion Rheoli Statudol sy'n ymwneud â Pharthau Perygl Nitradau a Slwtsh Carthion ym Mhennod 5

Y safonau perthnasol sy'n gyson â chadw tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da yw:

- A1 – A3 sy'n nodi'r gofynion ar gyfer pridd, sy'n ymwneud ag erydu pridd, deunydd organig pridd ac adeiledd pridd. Mae'n rhaid cadw Cofnod Asesu Pridd (Cyf 16).
- A2 - Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r Rheoliadau Llosgi Sofl. Ni ddylech losgi gweddillion cnydau (ac eithrio gweddillion had llin) oni bai eich bod yn gwneud hynny o dan amodau cyfyngedig penodol.
- B – ni ddylech orbori tir.
- D – ni ddylech roi porthiant atodol anaddas i dda byw ar ffurf llystyfiant naturiol neu led-naturiol, ac eithrio pan fydd angen gwneud hynny i ddiogelu lles anifeiliaid yn ystod tywydd eithafol, ac ni ddylech roi porthiant atodol i dda byw o fewn 10 metr i ddŵr wyneb.
  - H – peidiwch â llosgi grug, porfa arw, rhedyn, eithin na llus os yw hynny'n torri'r Cod Llosgi Grug a Glaswellt (Cyf 78). Mae'r rheolau hyn yn atgyfnerthu Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt (Cymru) etc 2008 (fel y'u diwygiwyd). Os ydych yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, byddwch eisoes yn bodloni'r gofynion.
- I - Mae'r safon hon yn atgyfnerthu Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007, sy'n rheoli'r broses o ddwysáu'r defnydd a wneir o dir heb ei drin ac ardaloedd lled-naturiol at ddibenion amaethyddol.
- K - Ni ddylech adael i dda byw ddifrodi nodweddion pwysig ar SoDdGAoedd, nac ar ardaloedd dynodedig eraill.
- N - Ni ddylech drin tir o fewn metr i ffin draddodiadol tir amaethyddol. Mae ffin draddodiadol yn cynnwys: wal gerrig, clawdd ag arwyneb cerrig, gwrych, clawdd pridd, ffens lechi, postyn giât carreg, sticill, coeden, llwyn, ffos a chwrs dŵr.

[40] Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979.

Gweler Canllaw'r Ffermwr i Drawsgydymffurfio (Cyf 17) am ganllawiau pellach.

## 4.2 Arfer Da

Mae'r adran hon yn rhoi cyngor a chanllawiau ar arfer amaethyddol da sy'n ychwanegol at eich rhwymedigaethau cyfreithiol.

**Crynodeb o Gamau Gweithredol Allweddol**

- Dewch i adnabod eich priddoedd; – gweler canllawiau pellach (er enghraifft, cyfeiriadau 19 -21 a 79).

- Lluniwch gynllun rheoli pridd i reoli gwaith maes a gweithgarwch rheoli da byw fesul cae, gweler adran 2.2.1 am fanylion pellach. Dylech
    - Ystyried y risg y caiff pridd ei olchi oddi ar y tir a'i erydu wrth gynllunio beth i'w dyfu neu sut i reoli da byw ar dir sy'n graddol ddisgyn.
    - Ar ôl glaw, nodi unrhyw fannau lle mae pridd yn cael ei olchi neu ei erydu o gaeau neu rannau eraill o'r fferm megis ffyrdd a llwybrau.
    - Ystyried yr amodau daear posibl adeg y cynhaeaf er mwyn cynllunio ar gyfer trin y tir.

- Ystyried darparu lleiniau neu barthau clustogi[41] o amgylch dŵr wyneb a gwlyptiroedd, gwrychoedd a mynedfeydd i gaeau i atal pridd a maetholion rhag cael eu golchi i ffwrdd ac ysgeintiad rhag drifftio Gall y rhain gynnwys:
    - Lleiniau o laswellt
    - Plannu coetir brodorol i sefydlogi ac amddiffyn priddoedd yn ogystal â lleihau llygredd gwasgaredig ac erydu pridd. Gall coetiroedd hefyd helpu i arafu'r broses o ddŵr o gyfnodau o law eithafol yn mynd i mewn i ddŵr wyneb pan gânt eu plannu yn yr ardaloedd a dalgylchoedd priodol.
    - Bydd codi ffens o amgylch dŵr wyneb yn ei gwneud yn bosibl i lystyfiant naturiol ymsefydlu, amddiffyn y priddoedd rhag cael eu sathru gormod gan dda byw, ac atal ysgarthion anifeiliaid rhag cael eu gollwng yn uniongyrchol i'r dŵr wyneb.

- Dylech bob amser gyflawni gweithrediadau maes gan ystyried y tywydd a chyflwr y tir. Er mwyn osgoi rhigoli a chywasgu, peidiwch â theithio ar draws pridd gwlyb lle bynnag y bo modd. Byddwch yn barod i atal gwaith, gan gynnwys gwaith contractwyr, mewn tywydd gwael. Bydd hyn hefyd yn lleihau costau tanwydd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr. Cadwch gymaint o

[41] Llain o dir, wedi'i gorchuddio â llystyfiant neu fel arall, sy'n gweithredu fel trap gwaddod, neu sy'n ei gwneud yn bosibl i dynnu maetholion o drwytholch neu ddŵr ffo.

bridd yn y cae â phosibl, gan gynnwys yn ystod gweithrediadau torri tyweirch.

- Lleihewch achosion o erydu pridd a chywasgu drwy reoli da byw i atal sathru ar dir lle bynnag y bo modd.

- Peidiwch â gadael pridd yn foel am gyfnodau hir, yn enwedig dros y gaeaf.

- Dylid rheoli priddoedd mawnog ac organig nad ydynt wedi'u draenio na'u gwella ar gyfer amaethyddiaeth i leihau colledion, er enghraifft drwy osgoi eu gorbori. Maent yn dal cronfeydd mawr o garbon ac maent yn gynefinoedd prin sy'n dod yn fwyfwy pwysig ar gyfer bioamrywiaeth. At hynny mae ganddynt ran i'w chwarae wrth reoli llifogydd, drwy gadw dŵr.

- Defnyddiwch blaladdwyr lle mae eu hangen yn unig ac yn unol â'r Cod ymarfer ar gyfer defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion (Cyf 33), i sicrhau eu bod yn cael y budd mwyaf posibl a lleihau'r risg y caiff pobl a da byw eu niweidio a'r amgylchedd ei lygru.

- Am arfer gorau o ran rheoli, cynllunio a defnyddio maetholion, gweler Adran 5.

### 4.2.1 Draeniau a llwybrau

- Bydd archwilio eich priddoedd yn rheolaidd yn nodi anghenion o ran draenio gan gynnwys gosod pibellau ('moling') neu isbriddio. Bydd system ddraenio dda yn gwella ymdreiddiad dŵr, helpu i gynnal strwythur pridd a bydd yn golygu bod mwy o amser ar gael i weithio ar y tir neu i bori da byw.
- Fodd bynnag, peidiwch â gosod rhagor o ddraeniau o amgylch darnau pwysig o wlyptir, na draenio priddoedd mawnog.
- Defnyddiwch lwybrau sydd wedi'u draenio'n dda ar gyfer cerbydau a da byw. Lle y bo angen, darparwch ddraeniau croes i atal dŵr ffo rhag sianelu ar hyd arwynebau anhydraidd. Peidiwch â gadael i ddŵr ffo llygredig fynd i mewn i ddraeniau maes, ffosydd na dŵr wyneb.
- Cwtogwch gymaint â phosibl ar symudiadau gan beiriannau ar lwybrau mewn tywydd gwlyb.
- Lle mae llwybrau da byw yn croesi dŵr wyneb, ystyriwch opsiynau i leihau'r effaith ar ansawdd dŵr, drwy ddarparu cwlfertau neu bontydd. Fel arfer bydd angen cael caniatâd Amddiffynfeydd Llifogydd (a elwid gynt yn ganiatâd draenio tir) gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer cwlfertau.

### 4.2.2 Rheoli Caeau

- Ar unrhyw gae ar eich fferm, peidiwch â gadael pridd yn foel, yn enwedig pridd mân am unrhyw gyfnod o amser. Bydd cnydau gorchudd megis tail gwyrdd yn lleihau erydu pridd ac yn darparu maetholion pridd.

- Peidiwch â gadael pridd moel yn dilyn gweithrediadau rheoli rhedyn, yn enwedig ar safleoedd sy'n graddol ddisgyn lle mae risg o erydu pridd. Gadewch y rhedyn a dorrwyd i ddiogelu'r pridd.
- Gall ffiniau weithredu fel trapiau gwaddod a hidlwyr maetholion. Gall gwrychoedd a blannwyd ar lethrau arafu llif dŵr tuag at i lawr. Bydd gadael llain o dir heb ei drin a heb ei chwistrellu o amgylch y cae yn diogelu unrhyw wrych ac yn darparu llain glustogi.
- Mae dŵr ffo yn aml yn cael ei sianelu drwy fynedfeydd ar waelod tir sy'n graddol ddisgyn. Mewn rhai achosion bydd yn well adleoli'r fynedfa, cadarnhewch a oes angen caniatâd cynllunio i wneud hyn yn gyntaf.
- Bydd adeiladu mannau bwydo rwbel neu osod rwbel mewn mynedfeydd yn lleihau sathru ar dir a'r pridd sy'n cael ei olchi i ffwrdd o ganlyniad.
- Ystyriwch greu pantiau glaswelltog lle y mae risg uchel y caiff pridd ei olchi i ffwrdd. O'i gymharu â ffos gonfensiynol, mae pant yn fas ac yn eithaf llydan. Mae'n darparu storfa ddŵr dros dro a'r posibilrwydd y bydd dŵr yn ymdreiddio o dan amodau addas (Cyf 80).
- Lle y ceir achosion difrifol o erydu pridd (er gwaethaf eich ymdrechion gorau), gellir defnyddio cloddiau pridd, rhwystrau ffisegol eraill neu safleoedd cronni dŵr pan fetho popeth arall i atal llif dŵr i leihau'r effeithiau oddi ar y safle. Dylid eu cynllunio a'u gosod yn ofalus i sicrhau eu bod yn cael yr effaith sydd ei hangen. Efallai y bydd angen i chi gael caniatâd gan Asiantaeth yr Amgylchedd os ydynt o fewn saith metr i brif afon, er enghraifft, neu os yw'r deunydd a ddefnyddir i'w gwneud yn ddeunydd gwastraff. (Cyf 81)
- Dylid archwilio pridd yn rheolaidd am gywasgu gan ddefnyddio penetrometer, neu ffon a wthir i mewn i'r ddaear, a gaiff ei rhwystro ar ddyfnder unrhyw gywasgu. Os gallwch gloddio pwll pridd - gellir gweld haen gywasgedig yn aml yn y 10 cm uchaf o bridd o dan laswelltir, a gall ddigwydd fel pannwl aradr mewn tir âr.
- Os oes rhaid i chi deithio ar briddoedd gwlyb, ceisiwch osgoi eu cywasgu drwy leihau'r llwyth â gosodiadau â phwysedd tir isel, neu osod pwyseddau teiars ar y lefel isel posibl ar gyfer y math o lwyth a theiar.
- Dylech gael gwared ar gywasgu drwy isbriddio ar y dyfnder priodol – 2–5cm islaw'r pannwl, lle mae'r pridd yn frau ac na fydd yn staenio. Ystyriwch ddefnyddio isbriddiwr glaswelltir lle y bo'n briodol. Isbriddiwch ar draws llethrau i osgoi creu sianeli draenio, os oes angen i chi gadw lleithder yn y pridd.
- Cymerwch gamau cadarnhaol i gynnal neu gynyddu deunydd organig yn y pridd, a fydd yn gwella sefydlogrwydd pridd a'i wneud yn fwy hydrin drwy ddychwelyd gweddillion cnydau, gwasgaru tail organig swmpus a chyflwyno porfa neu dail gwyrdd yn y cylchdro. Cofiwch addasu'r defnydd a wnewch o wrtaith yn unol â hynny.

### 4.2.3 Rheoli da byw

- Cynhwyswch effaith eich holl systemau da byw wrth lunio cynllun rheoli pridd e.e. cynhyrchu a rheoli tail, sathru ar dir.
- Sicrhewch fod cynnwys nitrogen a ffosfforws porthiant da byw gan ystyried y rhan o'u deiet sy'n seiliedig ar borfa, yn cyd-fynd â gofynion penodol y

stoc. Mae hyn yn lleihau'r maetholion mewn tail a ddychwelir i'r tir, sy'n lleihau'r risg o golledion dilynol i'r amgylchedd dŵr.

- Bydd lleihau dwysedd pori ar ddiwedd yr haf ac yn ystod misoedd yr hydref yn lleihau lefel y nitrad a drwytholchir o laswelltir a borir.
- Dylech ystyried llethrau wrth gynllunio a rheoli padogau i osgoi sianelu dŵr ffo.
- Osgowch sathru ar dir wrth ymestyn y tymor pori neu aeafu da byw yn yr awyr agored - gall hyn leihau cynhyrchiant ar ôl hynny, neu achosi i ddŵr wyneb gael ei lygru gan bridd sydd wedi cael ei olchi oddi ar y tir neu ei erydu a niweidio cynefinoedd sensitif eraill. Byddwch yn arbennig o ofalus wth bori cnydau porthiant neu weddillion cnydau.
- Symudwch dda byw o'r tir pan fydd y pridd yn rhy wlyb. Rhowch amser i'r safle adfer yn y gwanwyn, triniwch y tir a'i ailhau, yn ôl yr angen, a phan fo amodau pridd yn caniatáu, ailsefydlwch orchudd gwyrdd.
- Darparwch lain galed o amgylch cafnau bwydo parhaol, cafnau dŵr ac mewn mynedfeydd.
- Dylech symud cafnau bwydo atodol i osgoi sathru ar y pridd mewn unrhyw sefyllfa lle y bydd yn achosi i bridd gael ei olchi oddi ar y tir a'i erydu.
- Lle bynnag y bo modd, cadwch dda byw allan o ddŵr wyneb. Os oes angen iddynt yfed yn uniongyrchol o ddŵr wyneb, cyfyngwch ar y darn o dir y gallant ei gyrraedd drwy osod cilfach yfed. Bydd hyn yn lleihau effeithiau erydu ar y glannau ac achosion o faeddu'r afon yn uniongyrchol gan y da byw. Yn ddelfrydol, gosodwch gyfleusterau dyfrio amgen megis pympiau trwyn.
- Peidiwch â gadael i ddŵr ffo llygredig o gyfleusterau trafod da byw fynd i mewn i ddŵr wyneb na darn o wlyptir.
- Ni ddylid defnyddio corlannau sglodion coed na gorchuddion 'standoff' at ddibenion gaeafu gwartheg yn yr awyr agored oherwydd y risg uchel y caiff dŵr wyneb neu ddŵr daear ei lygru, oni bai eu bod wedi'u leinio a bod ganddynt gyfleusterau casglu elifion. Ceisiwch gyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar safleoedd addas a chyfeiriwch at ganllawiau arfer da (Cyf 43).
- Dylech gynnal gorchudd porfa mewn libartau dofednod drwy ddefnyddio system o gytiau dofednod symudol neu gylchdroi'r darnau o dir y maent yn crwydro arnynt, i sicrhau bod eu bod yn cael amser i adfer. O bryd i'w gilydd torrwch y borfa ar dir sy'n cael ei bori gan ddofednod dros yr hirdymor, i leihau lefelau trwytholchi nitradau ac atal maetholion eraill rhag crynhoi. Darparwch lain galed o amgylch siediau sefydlog i leihau achosion o bridd yn cael ei olchi i mewn i byllau mewn tywydd gwlyb.
- Gall moch awyr agored achosi problemau penodol ac maent yn fenter risg uchel o ran erydu pridd. Defnyddiwch yr egwyddorion a restrwyd uchod i leihau'r perygl y caiff pridd ei erydu a'i olchi oddi ar y tir. Mae cyngor pellach ar gael (Cyf 82).
- Darparwch ymdrochfeydd ar gyfer y moch mewn tywydd poeth, wedi'u lleoli i osgoi golchi pridd oddi ar y tir, ond cymerwch gamau i adfer y pridd ar y cyfryw ddarnau o dir ar ôl i'r moch adael y safle.

Am fanylion pellach am arfer gorau o ran dipio defnydd gweler adran 3.2.5.

### 4.2.4 Rheoli a Thrin Cnydau

- Defnyddiwch eich cynllun rheoli pridd i'ch helpu i benderfynu pa ddarnau o dir y dylech eu trin. Cyfeiriwch at 'Controlling soil erosion' a gyhoeddir gan Defra (Cyf 19) am weithgareddau a darnau o dir risg uchel. Er enghraifft, peidiwch â thyfu grawnfwydydd gaeaf a heuwyd yn hwyr ar lethrau sy'n graddol ddisgyn lle y ceir priddoedd ysgafnach.
- Gall cnydau a gynaeafir yn hwyr megis indrawn porthiant a chnydau ynni megis Miscanthus neu risomau achosi problemau erydu a golchi pridd. Cyfeiriwch at ganllawiau ar wahân ar arfer gorau (Cyfeiriadau 83 a– 84, a bocs 'Tyfu Indrawn' isod) a lleolwch hwy mewn caeau gwastad priodol mewn ardaloedd risg isel.
- Peidiwch ag aredig glaswelltir parhaol er mwyn tyfu cnydau âr. Gall hyn arwain at lawer o nitrad yn cael ei drwytholchi dros sawl blwyddyn, at ddeunydd organig yn cael ei golli ac at garbon yn cael ei ryddhau i'r atmosffer. At hynny mae risg uchel o erydu pridd ar lethrau yn nyffrynnoedd afonydd sy'n gorlifo.
- Er mwyn lleihau lefelau trwytholchi nitradau, ni ddylech ddefnyddio gwrteithiau yn ystod y chwe mis cyn trin gwyndynnydd glas.

<u>Trin tir</u>

- Cyfeiriwch at gyhoeddiadau defnyddiol megis y rhai a gyhoeddir gan y Fenter Rheoli Pridd (Cyf 85).
- Archwiliwch y pridd am gywasgu gan ddefnyddio penetrometer neu drwy gloddio twll.
- Os yw'r pridd wedi'i gywasgu, gwnewch unrhyw waith i ryddhau'r pridd neu unrhyw waith isbriddio sydd ei angen pan fo'r priddoedd yn sych ac yn frau hyd at ddyfnder o 2-5cm islaw'r cywasgiad. Efallai y bydd angen trin y tir ar lefel ddyfnach ar dramleiniau, talarau a mynedfeydd os yw'r cywasgiad yn achosi i bridd gael ei erydu a'i olchi oddi ar y tir.
- Addaswch bwysau peiriannau a phwysedd teiars yn ôl cyflwr y pridd a chanllawiau gweithgynhyrchwyr.
- Er mwyn cwblhau gwaith yn gyflymach a lleihau'r tanwydd a ddefnyddir, dewiswch system trin tir sy'n defnyddio'r nifer leiaf o basiau i greu amodau pridd sy'n addas i dyfu'r cnwd. Ystyriwch ddrilio'n uniongyrchol neu systemau trin tir llai. Defnyddiwch wasg cwysau os ydych yn aredig tir i gadw lleithder a'ch helpu i drin y tir.
- Peidiwch â thrin tir yn ddyfnach nag sydd ei angen. Bydd yn arafu gwaith yn gyffredinol, cynyddu'r defnydd o danwydd ac felly costau, a gall niweidio system ddraenio caeau a dod â phridd gwael ei adeiledd neu bridd â lefel isel o ddeunydd organig i'r wyneb.
- Gall tynnu cerrig o briddoedd cyn plannu cnydau achosi niwed hirdymor i adeiledd y pridd a chynyddu'r deunydd organig a gollir. Dim ond pan fo'n hanfodol er mwyn sicrhau ansawdd y cnwd a gynaeafir y dylech wneud hynny e.e. ar gyfer gwreiddgnydau.
- Bydd gwely hadau garw yn lleihau'r risg y bydd y pridd yn cwympo neu'n capio a all leihau'r cnwd sy'n ymddangos ac arwain at bridd yn cael ei olchi oddi ar y tir a'i erydu. Paratowch wely hadau sydd mor arw â phosibl a

fydd yn dal i sicrhau egino da a bod unrhyw chwynladdwyr a ddefnyddir cyn i'r cnwd ymddangos yn effeithiol.

- Dylech aredig neu drin y tir ar draws y llethr gan daflu'r pridd i fyny'r llethr lle y mae'n ddiogel gwneud hynny. Gall pridd sy'n symud i lawr y llethr oherwydd prosesau erydu neu weithrediadau trin tir leihau dyfnder y pridd a chyfyngu ar dwf cnydau yn enwedig ar gopa bryn.
- Os na ellir aredig y tir ar draws y llethr, rhannwch lethrau hir â lleiniau o borfa mewn caeau neu dalarau wedi'u trin nas heuwyd i atal y pridd rhag cael ei erydu.
- Mewn caeau tatws defnyddiwch gefnau clwm (cloddiau bach ar waelod cwysau) i wella ymdreiddiad dŵr.
- Gosodwch leiniau clustogi wrth ochr dŵr wyneb ar waelod llethrau. Peidiwch â dibynnu ar y cyfryw leiniau ar draul gwaith rheoli pridd da yng ngweddill y cae. Gall lleiniau clustogi wrth ochr dŵr wyneb fod yn aneffeithiol mewn dalgylchoedd afonydd lle mae'r lefel trwythiad yn agos at yr wyneb. Os bydd angen, ystyriwch borfa barhaol, coetir neu orchudd tir tebyg.
- Yn yr hydref dylech drin y tir mor agos at yr adeg y byddwch yn hau'r cnwd nesaf ag sy'n bosibl yn agronomaidd. Bydd cnydau a heuwyd yn gynharach yn cymryd mwy o nitrad o'r pridd a byddant hefyd yn lleihau'r risg o gapio pridd ac wedyn ddŵr ffo ar erydu pridd. Gall hyn fod yn arbennig o fuddiol ar ôl cnwd megis rêp had olew sy'n gadael gwaddod sy'n cynnwys llawer o nitrogen.
- Triniwch laswelltir wedi'i wella yn y gwanwyn yn hytrach na'r hydref i osgoi trwytholchi nitradau. Ystyriwch orhau yn lle aredig ac ailhau, ond os oes rhaid i chi ailhau, defnyddiwch gyn lleied o basiau â phosibl a sefydlwch orchudd o borfa o weithrediadau ailhau yn yr hydref erbyn dechrau mis Hydref.
- Heuwch gnwd o dan indrawn a chnydau grawn y gwanwyn i leihau erydu pridd ar ôl cynaeafu.

Erydu gan y gwynt

Er mwyn cyfyngu ar effeithiau erydu gan y gwynt ar briddoedd ysgafn sy'n chwythu, megis rhai o'r priddoedd tywodlyd yng ngogledd-ddwyrain Cymru, dylech:

- osgoi cnydau sy'n agored i effeithiau erydu gan y gwynt, megis betys siwgr a rhai llysiau, ar y caeau mwyaf agored
- sefydlu atalfeydd gwynt
- drilio'n uniongyrchol neu ddrilio i mewn i arwyneb 'wedi'i aredig a'i wasgu'
- gwasgaru tomwellt ar wyneb y ddaear megis tail buarth ond cofiwch ystyried ei werth fel gwrtaith yn eich cynllun rheoli maetholion
- hau cnydau meithrin megis haidd i sefydlogi'r pridd a diogelu eginblanhigion.

<u>Rheoli'r cnwd</u>

- Ar briddoedd lle mae risg o gapio a dŵr ffo, sicrhewch fod y cnwd yn cael ei ddyfrhau yn gyfartal ac nad yw'r defnynnau yn rhy fawr. Gweler Adrannau 8 a 9 am ragor o wybodaeth am ddyfrhau.

- Defnyddiwch chwynwr deintiog neu declyn tebyg o fewn cnwd rhes i dorri priddoedd wedi'u capio sy'n achosi dŵr ffo.
- Wrth ddefnyddio gorchuddion plastig ar raddfa cae, cymerwch ragofalon i gyfyngu ar ddŵr ffo ac erydu pridd o'r safle. Gellid cadw lleiniau clustogi o borfa o amgylch y caeau a gellid lleihau erydu pridd a cholli dŵr a cholli maetholion sy'n gysylltiedig â hynny drwy blannu rhygwellt rhwng gwelyau wedi'u gorchuddio.
- Am sut i ddefnyddio plaladdwyr a maetholion, gweler adrannau 4.2.5 a 5.2 yn y drefn honno.
- Cadwch ymylon heb eu chwistrellu a lleiniau clustogi drwy gydol y cyfnod cnydio.

<u>Cynaeafu ac ar ôl cynaeafu</u>

- Peidiwch â chynaeafu cnydau pan fo priddoedd yn wlyb lle mae peiriannau a chyfarpar trwm yn gadael rhigolau yn y cae ac yn achosi cywasgu pridd dwfn.
- Dylech drin neu isbriddio sofl indrawn ar ôl cynaeafu i glirio'r cywasgiad ac annog dŵr i ymdreiddio i'r ddaear cyn gynted ag y bydd yr amodau yn addas.
- Lle bynnag y bo modd defnyddiwch deiars aergrwn ar beiriannau i leihau niwed i briddoedd.
- Lleihewch y pridd a gymerir o'r cae ar gyfarpar neu ar gnydau.
- Pan fwriedir tyfu cnwd a heuir yn y gwanwyn ar ôl cnwd a gynaeafwyd yn gynnar yr hydref blaenorol dylech geisio hau gorchudd dros dro neu dail gwyrdd is-gnwd ar ôl cynaeafu, megis mwstard, rhyg neu bupys. Os nad yw'n ymarferol sefydlu cnwd gorchudd neu is-gnwd, dylech adael y tir yn llawn sofl neu wedi'i drin yn arw dros y gaeaf, i leihau dŵr ffo ac erydu pridd.

**Tyfu Indrawn**

Mae gweithrediadau tyfu indrawn a reolir yn dda yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i ffermwyr. Fodd bynnag gall cnydau a reolir yn amhriodol arwain at broblemau amgylcheddol (Cyf 86). Y brif broblem amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag indrawn yw golchi pridd/dŵr ffo ac erydu pridd a achosir gan adeiledd pridd wedi'i niweidio sy'n gysylltiedig â chynaeafu hwyr pan fo'r pridd yn wlyb. Gall hyn arwain at bridd, wedi'i halogi ag agrocemegau a maetholion cnydau, yn cael ei olchi i mewn i gyrsiau dŵr.
Er mwyn lleihau'r problemau hyn cymaint â phosibl dilynwch yr egwyddorion cyffredinol sy'n ymwneud â rheoli cnydau gan roi sylw penodol i'r canlynol:

- Dewis y safle - dewiswch y caeau mwyaf gwastad â'r risg isaf, ond sydd leiaf tebygol o ddioddef llifogydd neu broblemau sy'n gysylltiedig ag adeiledd pridd ar ôl cynaeafu.
- Dewis y rhywogaeth – dewiswch y rhywogaeth indrawn (dosbarth aeddfedrwydd) i gyd-fynd â'ch lleoliad a chyflwr y pridd er mwyn plannu'r cnwd a'i gynaeafu cyn gynted â phosibl. Gall Cymdeithas y Tyfwyr Indrawn roi manylion am benderfynu ar ddosbarth aeddfedrwydd addas i'ch lleoliad (cyf 87).
- Drilio'n gynnar – dylech ddrilio'r cnwd cyn gynted â phosibl yn y gwanwyn pan fydd tymheredd y pridd yn cyrraedd 8°C. Bydd drilio'n gynnar â'r rhywogaeth indrawn gywir yn helpu i sicrhau cynhaeaf cynnar a lleihau'r risg y caiff adeiledd y pridd ei niweidio.
- Rheoli pridd - sicrhewch fod y defnydd a wnewch o faetholion yn cyd-fynd â gofynion cnydau a bod sofl ar ôl cynaeafu yn cael eu rheoli i leihau dŵr ffo a maetholion sy'n cael eu golchi i ffwrdd. Heuwch borfa neu feillion o dan indrawn, neu heuwch gnwd gorchudd cyn gynted â phosibl ar ôl cynaeafu i gwtogi cymaint â phosibl ar briddoedd moel. Fel arall triniwch y tir cyn gynted â phosibl ar ôl cynaeafu i'w gwneud yn bosibl i ddŵr ddraenio tuag i lawr, yn hytrach nag oddi ar y cae.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Gymdeithas y Tyfwyr Indrawn (Cyf 87).

<u>Gwneud silwair</u>

- Gallwch leihau'r elifion a gynhyrchir drwy wywo glaswellt nes ei fod yn cynnwys o leiaf 25% o ddeunydd sych cyn ei silweirio.
- Yn achos silwair wedi'i fwndelu pan fo deunydd sych cnwd yn llai na 25%, bydd defnyddio deunydd lapio bêls 750mm o led (yn hytrach na 500mm) yn arwain at well sêl, ac yn lleihau'r elifion a ollyngir tra bydd yn cael ei storio.
- Mae ychwanegion silwair yn creu llawer o lygredd. Dylid eu storio'n ddiogel a'u trafod o leiaf 10 metr i ffwrdd o ddraen maes neu ddŵr wyneb. Peidiwch â gadael cynnyrch heb ei wanhau allan ar y safle na gadael i ychwanegion na chynwysyddion a ddefnyddiwyd fynd i mewn i ddŵr wyneb

### 4.2.5 Defnyddio Plaladdwyr

- Dylai pawb sy'n ymwneud â defnyddio plaladdwyr amaethyddol ddilyn y Cod ymarfer ar ddefnyddio cynhyrchion diogelu planhigion (Cyf 33).
- Bydd cynllun rheoli ar gyfer diogelu cnydau yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio plaladdwyr ar eich fferm, i wneud y defnydd gorau posibl ohonynt a lleihau gwastraff a faint o blaladdwyr sy'n cael eu golchi oddi ar y tir (gweler adran 2.2.1). Archwiliwch gnydau yn rheolaidd i gofnodi chwyn, plâu a chlefydau yn gywir. Gwerthuswch yr angen am blaladdwr drwy ddefnyddio trothwyon a chyfarpar diagnostig.
- Sicrhewch fod y rhai sy'n defnyddio plaladdwyr wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt dystysgrif cymhwysedd i wneud hynny a bod gan

gynghorwyr gymwysterau fel y rhai o BASIS. Anogwch y rhai sy'n defnyddio chwistrellwyr i ymuno â'r Gofrestr Genedlaethol o Weithredwyr Chwistrellwyr (NROSO) (Cyf 88).

- Cadwch eich chwistrellydd mewn cyflwr da i'w atal rhag gollwng neu ddiferu. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn chwistrellu'n gyfartal ac nad yw'n gadael darnau o dir heb eu trin na darnau o dir wedi'u gordrin. Ystyriwch drefnu i chwistrellwyr a lusgir, chwistrellwyr wedi'u mowntio a chwistrellwyr hunanyredig gael eu profi yn flynyddol o dan y Cynllun Profi Chwistrellwyr Cenedlaethol (Cyf 89).
- Dylech bob amser geisio sicrhau bod cyn lleied o ysgeintiad â phosibl yn drifftio drwy ddefnyddio'r cyfarpar priodol ac offer llywio chwistrellydd. Defnyddiwch chwistrell ddrifft isel a mathau eraill o chwistrellau os na fydd hynny yn tanseilio effeithiolrwydd y plaladdwr a dewiswch y cyflymder ymlaen cywir a'r uchder cywir ar gyfer y droslath.
- Cyn i chi ddefnyddio unrhyw gynnyrch a gymeradwywyd i'w ddefnyddio mewn dŵr neu'n agos at ddŵr h.y. ar y lan, cysylltwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Efallai y bydd angen i chi roi gwybod i dynwyr dŵr hefyd. Mae canllawiau pellach ar gael (Cyf 90).
- Dewiswch blaladdwr effeithiol a fydd yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar ysglyfaethwyr plâu cnydau, organebau nad ydynt yn darged, cnydau gerllaw, cynefinoedd bywyd gwyllt, ac ansawdd dŵr wyneb a dŵr daear.
- Wrth ddefnyddio plaladdwyr sicrhewch mai dim ond ar y targed a fwriadwyd y maent yn effeithio.
- Sicrhewch eich bod yn cymryd rhagofalon digonol i ddiogelu gwenyn a thrychfilod buddiol eraill. Rhowch wybod i'ch gwenynwyr lleol cyn chwistrellu pryfladdwyr.
- Dylech nodi a diogelu cynefinoedd bywyd gwyllt ac atal ysgeintiad sy'n drifftio rhag effeithio arnynt. Er mwyn gwneud hyn ystyriwch adael lleiniau o dir heb eu chwistrellu neu gael talarau cadwraeth.
- Edrychwch i weld sut y bydd y tywydd yn eich ardal leol ac ystyriwch gyfeiriad a chyflymer y gwynt wrth benderfynu a yw'n ddiogel chwistrellu a byddwch yn barod i roi'r gorau iddo os bydd y tywydd yn dirywio. Mae'r tywydd yn aml yn well yn gynnar yn y bore neu gyda'r hwyr.
- Sicrhewch fod yr amodau yn addas fel na chaiff y pridd ei gywasgu na'i rigoli mewn ffordd a allai arwain at erydu pridd a golchi pridd oddi ar y tir.
- Ym mhob cae, ystyriwch y patrwm gwaith er mwyn i chi osgoi gorgyffwrdd, yn enwedig wrth droi ar dalarau. Sicrhewch fod bowtiau yn gyfled, yn enwedig mewn caeau heb dramleiniau. Os na cheir unrhyw dramleiniau na throelliadau chwistrellwyr, defnyddiwch farcwyr ewyn neu begiau marcio i atal gorchwistrellu.
- Efallai y bydd angen i chi adael darn o dir heb ei chwistrellu er mwyn cael gwared yn ddiogel ar olchion tanciau o fewn yr argymhellion ar y label yn ddiweddarach.
- Am ragor o wybodaeth am gael gwared ar blaladdwyr gwastraff gweler adran 7.2.4.

### 4.2.6 Priddoedd Ucheldir a Phriddoedd Mawnog

- Dylid rheoli unrhyw briddoedd heb eu draenio neu eu newid neu unrhyw briddoedd organig i gadw'r gorchudd presennol o lystyfiant lled-naturiol. Gall hyn gynnwys mignen, gweundir, glaswelltir corslyd ac asidig. Peidiwch â gwasgaru calch na gwrtaith.
- Diogelwch briddoedd mawnog rhag cael eu herydu a'u diraddio. Peidiwch â thrin y cyfryw briddoedd na gostwng y lefel trwythiad drwy ddraenio'r tir. Ataliwch ysgeintiad rhag drifftio a dŵr ffo yn llawn maetholion a gwaddod rhag dod i mewn i'r safle.
- Ar safleoedd ucheldirol, diogelwch fawn rhag cael ei erydu. Os gwelwch arwyddion o erydu, dylech gymryd camau i sefydlogi'r arwyneb, drwy godi ffens dros dro i atal mynediad a gorbori.
- Rheolwch gyfraddau stocio. Monitrwch batrymau pori a symudwch dda byw yn ôl yr angen i osgoi achosion difrifol o sathru ar dir. Gosodwch gafnau bwydo atodol ar lwybrau neu leiniau caled ond nid ar nodweddion o bwys archeolegol.
- Caewch ffosydd draenio ('grips') i leihau dŵr ffo a'r mawn sy'n cael ei wastraffu. Fodd bynnag, rhaid i chi geisio cyngor Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar ba ffosydd y dylech eu cau i osgoi creu perygl llifogydd i lawr yr afon.
- Peidiwch â gadael pridd moel yn dilyn gweithrediadau rheoli rhedyn, yn enwedig ar safleoedd lle mae risg y caiff pridd ei erydu. Gadewch redyn wedi'u torri neu eu trin ar y safle.
- Peidiwch â llosgi grug na phorfa ar briddoedd mawnog. Os byddwch yn gwneud hyn, sicrhewch na fydd y tân yn gadael arwyneb agored a allai gael ei erydu. Dilynwch God Llosgi Grug a Phorfa Cymru (Cyf 78).
- Lle bynnag y bo modd, rheolwch fynediad cyhoeddus i atal arwyneb y mawn rhag cael ei niweidio gan gerddwyr a cherbydau.

### 4.2.7 Cynhyrchu tyweirch

- Mae'n rhaid i chi sicrhau bod unrhyw ganiatâd a chydsyniad sydd eu hangen wedi'u cael cyn dechrau torri tyweirch (Gweler Adran 4.1.7). Yn achos tenantiaid, neu os delir y tir drwy gytundeb neu gontract, bydd angen i chi gael caniatâd y landlord.
- Dewiswch safleoedd nad ydynt o bwys hanesyddol, ecolegol nac o ran y dirwedd. Ni ddylid defnyddio hen laswelltir na safleoedd ag olion hanesyddol megis patrymau cefnen a rhych. Ceisiwch gyngor gan CADW os nad ydych yn sicr ynghylch statws safle hanesyddol, neu gan CCGC ynghylch statws ecolegol.
- Ni ddylech ddefnyddio safleoedd lle mae risg uchel y caiff pridd ei erydu yn enwedig os ydych yn gweithredu system sy'n cynnwys ailhau lle mae angen gwelyau hadau wedi'u rholio'n fân.
- Mae torri mawn yn weithgaredd arbenigol fel arfer. Sicrhewch y cytunir ar faint o fawn a gaiff ei dorri, y dull gweithio ac unrhyw waith adfer cyn dechrau ar y gwaith.

- Dim ond yr isafswm pridd sy'n gyson â chynhyrchu tyweirch hyfyw y dylid ei gymryd oddi ar y safle. Fel arfer nid oes angen cymryd mwy na 15 mm o bridd.
- Dylid gwneud y gwaith pan fo'r tywydd a'r ddaear yn sych i osgoi niweidio'r pridd drwy ei gywasgu neu golli pridd drwy brosesau erydu. Sicrhewch fod mynediad ar gyfer peiriannau a cherbydau yn cael ei ystyried ymhell cyn torri'r mawn. Efallai y bydd angen i chi ddarparu cyfleusterau storio tyweirch byrdymor.
- Dylech ystyried sut y caiff y tir ei reoli at ddibenion torri mawn wrth gynllunio'r defnydd a wneir o dir yn y dyfodol. Dylech ei gynnwys mewn unrhyw gynllun rheoli pridd ac yn eich Cofnod Asesu Pridd (Cyf 16) os ydych yn hawlio'r Taliad Sengl.

# 5 Rheoli Maetholion

**Bydd cynnal lefel briodol o ffrwythlondeb yn y pridd drwy ddefnyddio gwrteithiau, tail organig a chalch yn ofalus yn helpu i sicrhau bod eich system ffermio mor broffidiol â phosibl. Mae maetholion a gollir o dir amaethyddol yn ffactor pwysig sy'n achosi llygredd yn yr aer ac mewn dŵr ond gellir rheoli hyn drwy sicrhau bod unrhyw ddefnydd a wneir ohonynt yn bodloni gofynion cnydau a'u bod yn cael eu rhoi ar y tir yn ofalus.**

**Bydd dilyn arfer da yn yr adran hon yn eich helpu i wneud y canlynol:**
Gostwng lefel y maetholion, yn enwedig nitradau a ffosffadau, a gollir i ddŵr, ac ocsid nitrad (nwy tŷ gwydr pwerus) ac amonia a gollir i'r aer.
**Gall hefyd arbed arian i chi drwy:**
Leihau'r defnydd o wrtaith sachau, gan sicrhau'r gwerth mwyaf o dail organig drwy ei ddefnyddio'n gywir.

## 5.1 Gofynion Cyfreithiol

Dyma beth mae'n rhaid i chi ei wneud yn ôl y gyfraith mewn perthynas â rheoli maetholion:

### 5.1.1 Diogelu Adnoddau Dŵr

Mae'n drosedd achosi i ddeunydd gwenwynig, afiach neu lygrol, neu ddeunydd gwastraff solet gael ei ollwng i ddyfroedd a reolir, gan gynnwys dŵr daear a dyfroedd wyneb, neu ganiatáu i hynny ddigwydd yn fwriadol heb awdurdod priodol gan Asiantaeth yr Amgylchedd[42]. Byddai hyn yn gymwys i lygredd a achoswyd gan slyri, tail neu wastraff yn llifo ar dir, e.e. llaeth gwastraff ar gaeau.

### 5.1.2 Rheoli Nitradau

Mewn Parthau Perygl Nitradau (PPNau) a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Nitradau, rhaid i ffermwyr gydymffurfio â mesurau gorfodol a gynhwysir yn Rhaglen Weithredu PPN (Cyf 3). Mae'r rhain yn ymwneud â chyfnodau gwaharddedig ar gyfer gwasgaru tail a gwrteithiau, cyfanswm y nitrogen o unrhyw ffynhonnell y cewch ei roi ar dir, faint o le storio gwrteithiau y mae'n rhaid i chi feddu arno, a chadw cofnodion. Gweler Atodiad 1 am grynodeb o'r amodau hyn. Dylech fod wedi cael gwybod os ydych mewn PPN. Fodd bynnag, os nad ydych yn siŵr dylech gysylltu â'ch Swyddfa Ranbarthol leol neu Asiantaeth yr Amgylchedd (gweler Cysylltiadau Defnyddiol).

### 5.1.3 Gwasgaru Gwastraff Organig ar Dir

[42] Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010.

Mae gwastraff organig yn cynnwys cacen slwtsh carthion, gwastraff llaeth, gwastraff papur, slwtsh carthion hylif, compost o ddeunyddiau gwastraff, gweddillion treuliad anaerobig o blanhigion treulio anaerobig a gwastraff bwyd. Bydd angen i chi gael eich eithrio o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Gweler Adran 7.1.4) cyn y gellir eu rhoi ar eich tir. Dim ond pan fydd unigolyn cymwys wedi cyflwyno cais i Asiantaeth yr Amgylchedd yn cadarnhau y bydd o fantais ecolegol neu amaethyddol i'r tir, ac y bydd yn ddiogel defnyddio'r swm arfaethedig, y caniateir hyn. Dylech sicrhau mai dim ond y swm a ganiateir a ddefnyddir mewn gwirionedd.

Os byddwch yn gwasgaru gwastraff organig ar dir a ddefnyddir i dyfu cnydau bwyd, glaswelltir neu borthiant ar gyda da byw, rhaid i chi hefyd gydymffurfio â'r Rheoliadau Carthion[43] a'r Matrics Carthion Diogel (Cyf 91). Bydd trechu effeithiau anfantais yn sicrhau na fydd tlodi yn anochel yn arwain at fethiant.

Fel rheol ni chaniateir gwasgaru gwastraff arall sy'n cynnwys cynhyrchion anifeiliaid, e.e. gwaed, ar dir heb ei drin yn gyntaf mewn ffatri a gymeradwywyd o dan y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid[44] ac mae cyfyngiadau eraill yn gymwys ar ôl ei brosesu.

Gall compost wedi'i wneud o wastraff bioddiraddadwy penodol gael ei ddefnyddio heb ganiatâd penodol os dilynir y Protocol Compost o Ansawdd (Cyf 92). Mae'r Protocol yn sicrhau ansawdd y compost ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddadansoddi'r tir am fetelau cyn ei wasgaru ynghyd â chadw cofnod o'r mannau lle y'i gwasgarwyd.

Dim ond os dilynir Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol y ceir gwasgaru gwastraff a chompost arall nas cynhyrchwyd yn unol â'r Protocol Ansawdd ar dir. Mae'r rhain yn gofyn am hysbysu Asiantaeth yr Amgylchedd ymlaen llaw neu gael ei chaniatâd. Mae gweddillion treuliad anaerobig o blanhigion treulio anaerobig yn debygol o gael eu rheoleiddio yn yr un modd (Cyf 93)

Slwtsh Carthion

- Mae slwtsh carthion (neu fiosolidau fel y'i gelwir weithiau) yn cynnwys cryn dipyn o nitrogen, ffosfforws, elfennau hybrin a deunydd organig. Fodd bynnag gall hefyd gynnwys sylweddau a all fod yn niweidiol gan gynnwys pathogenau a metelau trwm. Nod y Rheoliadau Carthion yw diogelu'r amgylchedd, iechyd dynol ac iechyd anifeiliaid, a'r pridd.
- Mae'n drosedd defnyddio carthion ar dir pan nad yw'r fath ddefnydd yn bodloni'r rheoliadau, neu ganiatáu hynny'n fwriadol. Mae ffermwyr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y tir yn cael ei reoli yn unol â'r Rheoliadau ar ôl defnyddio carthion. Yn arbennig, yn dibynnu ar y math o garthion a ddefnyddir, ni ddylid gadael i anifeiliaid bori na chynaeafu cnydau penodol hyd nes bod cyfnod diogel o amser wedi mynd heibio.
- Gall slwtsh carthion hefyd gael ei wasgaru ar dir a ddefnyddir i dyfu cnydau heblaw am fwyd, megis cnydio diwydiannol. Mae hyn yn ei

[43] Rheoliadau Carthion (Defnydd mewn Amaethyddiaeth) 1989, OS Rhif 1263
[44] Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011

gwneud yn ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd eithrio ffermwr rhag y rheoliadau trwyddedu amgylcheddol.

- Os ydych yn storio slwtsh hylif, rhaid i chi gofrestru eithriad gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Bydd yr eithriad hwn yn ei gwneud yn bosibl storio hyd at 1250 o dunellau o slwtsh am hyd at flwyddyn, yn ddarostyngedig i amodau megis agosrwydd cyrsiau dŵr ac ar yr amod bod bwrdd rhydd o 300 mm yn cael ei gynnal fel cynhwysydd agored (750 mm ar gyfer lagŵn cloddiau).

DS Ni ddosberthir tail da byw na slyri yn 'wastraff' pan gânt eu rhoi ar dir er budd amgylcheddol. Ni reolir eu defnydd ar wahân i achosion mewn Parthau Perygl Nitradau fel y nodir uchod, neu o ran eu storio neu lle y mae eu defnyddio neu eu storio yn achosi llygredd.

### 5.1.4 Safleoedd a chynefinoedd a ddiogelir

Caiff Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAoedd), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAoedd) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAoedd) eu diogelu gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Ni ddylech gyflawni unrhyw weithrediadau sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig yr ardaloedd hyn, a all gynnwys gwasgaru gwrteithiau, tail neu galch arnynt heb ganiatâd. Dylech gysylltu â CCGC (gweler cysylltiadau defnyddiol) am ragor o gyngor.

### 5.1.5 Pridd Halogedig

Y llygryddion sy'n peri'r pryder mwyaf yw metelau trwm megis plwm, cadmiwm, copr a sinc, a chyfansoddion organig parhaus megis diocsin a biffenyl polyclorinedig. Gall rhai metelau a chyfansoddion niweidio organebau pridd a gwneud pridd yn llai ffrwythlon, cyn iddynt effeithio ar ansawdd cnydau neu iechyd da byw.

Ceir terfynau cyfreithiol ar gyfer yr hyn a geir mewn plwm, cadmiwm, arsenig, mercwri a rhai cyfansoddion organig parhaus mewn bwydydd a gaiff eu gwerthu y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy. Am ragor o ganllawiau cyfreithiol ar y defnydd o wastraff organig a all gynnwys y sylweddau hyn, gweler adran 5.1.2.

O ran halogi priddoedd gan fetel, os cymysgir dognau ar y fferm, rhaid i chi gadw o fewn y terfynau statudol ar gyfer ychwanegu metel i borthiant[45].

### 5.1.6 Trawsgydymffurfio

Os ydych yn cymryd rhan yng Nghynllun y Taliad Sengl mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r Gofynion Rheoli Statudol a hefyd y gofynion i gadw eich tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da.

Y Gofynion Rheoli Statudol sy'n ymwneud â rheoli maetholion yw:

[45] Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd).

- Diogelu dŵr daear rhag llygredd, o ran slyri a thail yn llifo i mewn iddo.
- Diogelu dŵr mewn Parthau Perygl Nitradau, lle y bo'n gymwys.
- Diogelu'r amgylchedd, ac yn enwedig priddoedd, pan gaiff slwtsh carthion ei ddefnyddio mewn amaethyddiaeth.

Y safon berthnasol sy'n gyson â chadw tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (CAAD) yw:

- A2 sy'n nodi'r gofynion ar gyfer deunydd organig pridd, gan gynnwys argaeledd tail buarth a'r defnydd ohono.

Gweler Canllaw'r Ffermwr i Drawsgydymffurfio (Cyf 17) am ganllawiau pellach.

**Lleihau allyriadau amonia**

Er nad oes unrhyw ofynion cyfreithiol ar ffermwyr na thirfeddianwyr, gall eich gweithredoedd gyfrannu at y safonau canlynol:

- O dan y Gyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw[46], rhaid i grynoadau o nitrogen amoniwm mewn dŵr wyneb leihau o fewn crynoadau penodol. Caiff y rhain eu monitro fel Safonau Ansawdd Amgylcheddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

- O dan Brotocol Göteborg a'r Gyfarwyddeb Uchafswm Allyriadau Cenedlaethol mae targedau'n bodoli i leihau allyriadau amonia ynghyd â therfynau o ran y crynhoad o ronynnau yn yr aer sy'n cynyddu pan fo amonia'n bresennol[47].

## 5.2 Arfer Da

Mae'r adran hon yn rhoi cyngor a chanllawiau ar arfer amaethyddol da sy'n ychwanegol at eich rhwymedigaethau cyfreithiol.

**Crynodeb o Gamau Gweithredol Allweddol**

- Bydd llunio cynllun rheoli maetholion a chynllun rheoli tail yn helpu i dargedu mewnbynnau a lleihau unrhyw orddefnydd. Bydd hefyd yn nodi'r safleoedd mwyaf priodol i wasgaru slyri a thail. Gweler adran 2.2.1 am fanylion pellach.

[46] Y Gyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw 78/659/EEC
[47] Cyfarwyddeb Uchafswm Allyriadau Cenedlaethol 2001/81/EC a weithredwyd gan Reoliadau Uchafswm Allyriadau Cenedlaethol 2002.

- Rheoli maetholion pridd i sicrhau y gwneir defnydd effeithlon o wrteithiau (yn enwedig nitrogen a ffosffwrws) a thail. Cyfrif am faetholion yn yr holl dail a ddefnyddir gennych a dyddodiad maetholion gan dda byw sy'n pori.

- Drwy gynnal ffrwythlondeb pridd, gan gynnwys deunydd organig pridd, sicrheir yr amodau gorau ar gyfer maetholion a thyfiant cnydau.

- Gan ystyried eich cynllun rheoli pridd, sicrhewch fod y gyfradd gywir o faetholion yn cael eu gwasgaru, ar yr adeg gywir ac o dan yr amodau cywir, er mwyn i'r cnwd gael y budd mwyaf ohonynt, a'u hatal rhag dianc i'r amgylchedd. Gweler adrannau 5.2.4, 5.2.5 a 5.2.6 am arfer da mewn perthynas â gwasgaru slyri a thail da byw, gwrtaith sachau a gwastraff oddi ar y fferm.

- Dylai peiriannau gael eu cynnal a'u cadw a'u graddnodi'n rheolaidd.

- Sicrhewch nad yw maetholion planhigion yn dod i gysylltiad â dŵr wyneb na chynefinoedd sensitif yn y dirwedd.

- Os ydych yn ffermio mewn Parth Perygl Nitradau rhaid i chi ddilyn y Rhaglen Weithredu (Cyf 3) gan gynnwys y rheolau ar faint o wrteithiau nitrogen a thail organig i'w defnyddio ynghyd ag amseru hynny, sy'n drech na'r canllawiau ar arfer da a roddir yma. Fodd bynnag, y tu allan i PPNau, bydd dilyn y rheolau o'ch gwirfodd yn helpu i atal rhagor o nitrad rhag cyrraedd dŵr wyneb.

- Gall priddoedd fod wedi cael eu halogi gan fetelau trwm neu gemegion organig parhaus, neu gallant gael eu halogi ganddynt. Rheolwch y tir er mwyn diogelu ei ffrwythlondeb hirdymor, dŵr daear a dŵr wyneb ac iechyd planhigion, da byw a defnyddwyr.

### 5.2.1 Cynllunio gwaith Rheoli Maetholion

- Bydd llunio cynllun rheoli tail a chynllun rheoli maetholion yn helpu i ddilyn yr arfer da canlynol, gweler adran 2.2.1 am ragor o fanylion.
- Dylai pob achos o ddefnyddio calch a gwrtaith anorganig fod yn seiliedig ar eich cynlluniau rheoli maetholion a phridd. Defnyddiwch eich cynllun rheoli maetholion i gyfrifo faint o faetholion sydd eu hangen i fodloni'r gofynion o ran cnydau, gan ystyried ffynonellau eraill o ffrwythlondeb. Defnyddiwch eich cynllun rheoli tail i'ch helpu i benderfynu pryd ac ymhle y dylid defnyddio tail solet, slyri a dŵr brwnt.
- Pan fyddwch yn lleihau'r amonia a gollir, gallai fod mwy o nitrogen ar gael i'w dderbyn gan borfa neu gnydau. Dylai eich Cynllun Rheoli Maetholion nodi'r arbedion hyn.
- Cadwch o fewn unrhyw derfynau a bennwyd mewn unrhyw gytundebau rheoli sydd gennych.

### 5.2.2 Cynnal ffrwythlondeb pridd

pH pridd a chalchu

Mae pH pridd yn mesur faint o asid neu alcan sydd ynddo.

- Dylech ddefnyddio calch yn ôl yr angen i sicrhau'r lefel orau bosibl o pH. Gall gormod o asid mewn pridd arwain at golledion mawr a gwneud i wrteithiau eraill fod yn llai effeithiol. Mae'r hyn sydd orau o ran lefel pH yn amrywio yn ôl y math o bridd a'r cylchdro o gnydau (Cyf 94).
- Fodd bynnag, mae defnyddio calch pan nad yw'n angenrheidiol yn broses ddrud a gall gynyddu diffygion elfennau hybrin a all gymryd gryn dipyn o amser i adfer i normal. Ewch ati i ddadansoddi priddoedd a defnyddiwch gyfrifiannell calch er mwyn sicrhau bod y gyfradd yn gywir (Cyf 29).
- Ni ddylech roi calch ar dir na chynefinoedd sydd heb eu gwella, y mae rhai ohonynt yn asidaidd beth bynnag ac wedi meithrin eu bioamrywiaeth werthfawr o ganlyniad i hyn.

Cynnal deunydd organig pridd

Mae cynnwys deunydd organig pridd yn rhan bwysig o'i ffrwythlondeb a'i strwythur. Mae'n chwarae rhan allweddol yn y prosesau ffisegol, cemegol a biolegol sy'n rheoli tyfiant planhigion a'r broses o reoli pridd.

- Dylech geisio cynnal neu wella deunydd organig pridd drwy leihau unrhyw golledion, sicrhau'r lefel leiaf bosibl o waith trin tir ac ychwanegu carbon organig. Caiff carbon ei ychwanegu i bridd gan wreiddiau a gweddillion cnydau eraill a thrwy ailgylchu tail anifeiliaid a thail organig arall megis deunyddiau wedi'u compostio, slwtsh carthion a gwastraff arall.
- Cynnwys gwyndwn las 12 mis mewn cylchdroadau âr unwaith bob pum mlynedd, neu ymgorffori 20t/ha o dail organig swmpus unwaith bob pum mlynedd.
- Pan fydd cnwd a gaiff ei hau yn y gwanwyn i ddilyn cnwd a gafodd ei gynaeafu'r hydref blaenorol, gallech hau cnwd tail glas ar ôl y cynaeafu, megis mwstard, rhyg neu bupys.
- Peidiwch ag aredig yn rhy ddwfn gan fod hyn yn gwanedu'r uwchbridd ag isbridd, sydd â llai o ddeunydd organig, neu defnyddiwch cyn lleied o dir âr â phosibl neu broses ddrilio uniongyrchol lle y bo'n briodol.
- Ychwanegwch dail at gaeau âr a silwair yn fynych.

Cynnal ffrwythlondeb

- Rhowch gyflenwad cytbwys o'r prif faetholion i gnydau: nitrogen, ffosfforws, potasiwm, magnesiwm, calsiwm a sylffwr. Mae angen sodiwm ar rai cnydau hefyd. Hefyd sicrhewch fod swm priodol o elfennau hybrin: haearn, manganîs, boron, copr, sinc, molybdenwm a chlorin. Bydd elfennau hybrin yn y pridd fel arfer, ond efallai y bydd angen i chi eu hategu â gwrteithiau anorganig neu dail organig.

### 5.2.3 Defnyddio maetholion

- Peidiwch â difrodi cynefinoedd, gan gynnwys dyfroedd wyneb ac ardaloedd gwlyb, naill ai drwy wasgaru i mewn iddynt yn uniongyrchol yn ddamweiniol, neu drwy iddynt lifo i mewn iddynt wedyn. Ni ddylech wasgaru i mewn i ffosydd yn uniongyrchol (hyd yn oed os ydynt yn sych) na dŵr wyneb, gwaelod cloddiau, ardaloedd nas cnydiwyd neu gynefinoedd eraill lle y gall calch a maetholion eraill ddifrodi'r planhigion ac anifeiliaid naturiol. Gall talarau cadwraeth a lleiniau clustogi fod yn gymwys am daliad o dan gytundeb rheoli tir, a bod â chyfyngiadau cysylltiedig.
- Ar rai gwasgarwyr gwrtaith gallwch ddefnyddio disgiau talar, rhoi cyswllt y tractor ar ogwydd, neu wneud rhai addasiadau eraill er mwyn cyfyngu ar yr hyn a gaiff ei wasgaru. Fel arall, dylech dderbyn gadael ardal lle mae'r gyfradd yn is.
- Byddwch yn hynod ofalus wrth wasgaru deunyddiau mân iawn megis calch, peidiwch â pheri niwsans i gymdogion na halogi cynefinoedd sensitif.
- Dim ond pan fo amodau pridd yn addas i deithio ar y tir y dylid defnyddio maetholion. Bydd cywasgu a rhychu yn difrodi strwythur y pridd ac yn cynyddu'r risg na chaiff maetholion eu defnyddio'n effeithlon, ynghyd â'r risg o achosi llygredd o ganlyniad i ddŵr ffo, trwytholchi neu golli nwy.
- Sicrhewch fod yr holl gyfarpar, gan gynnwys yr hyn a ddefnyddir gan gontractwyr, yn cael ei archwilio, ei gynnal a'i gadw a'i raddnodi o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae gan ddeunyddiau gwahanol nodweddion gwasgaru, ac efallai y bydd angen addasu peiriannau a bwrw golwg dros y patrwm gwasgaru yn ystod y tymor.
- Dylech gynnal profion ar hap o bwysau llwythi, cyfraddau defnydd ac unffurfiaeth y gwasgaru, ac addasu hynny fel y bo angen. Parwch led bowtiau a phatrymau gwasgaru'n ofalus er mwyn sicrhau bod yr hyn a gaiff ei wasgaru'n wastad, gan ystyried lled unrhyw linellau tram.
- Os ydych yn defnyddio contractwyr sicrhewch eu bod yn ymwybodol o'r risgiau o lygredd ar eich fferm a'u bod yn defnyddio cyfraddau diogel (gweler adran 2.2.4).

### 5.2.4 Defnyddio Tail Da Byw a Dŵr Brwnt

- Defnyddiwch eich cynllun rheoli tail i'ch helpu i benderfynu pryd ac ymhle y dylid defnyddio tail solet, slyri a dŵr brwnt. Defnyddiwch eich cynllun rheoli maetholion i gyfrifo faint o faetholion sydd eu hangen i fodloni'r gofynion o ran cnydau, gan ystyried ffynonellau eraill o ffrwythlondeb (gweler adran 2.2.1).
- Gall y modd y defnyddir tail da byw a dŵr brwnt, ynghyd ag amseru hynny, ar dir effeithio ar faint o amser y bydd micro-organebau'n goroesi ar dir pori neu yn y pridd:

  - gall gwasgaru tail ar dir pori chwarae rhan yn y broses o drosglwyddo clefyd i dda byw iach. Caiff risgiau eu lleihau drwy storio, defnyddio

    cyfraddau isel a gadael y tir cyhyd â phosibl cyn i anifeiliaid bori arno (Cyf 25, llyfryn 2).
  - os ydych yn bwriadu defnyddio'r rhain cyn plannu cnydau sy'n barod i'w bwyta, dylech ddilyn cyngor ar sut i leihau'r risg o halogi bwyd gan bathogenau (Cyf 95).

- Archwiliwch arllwysfeydd draenio caeau a dŵr wyneb yn aml yn ystod ac ar ôl gwasgaru slyri, tail solet, a dŵr brwnt er mwyn sicrhau nad oes unrhyw lygredd.

<u>Amseru'r defnydd o dail</u>

- Dylech ddefnyddio tail da byw pan fo modd i borfeydd a chnydau ddefnyddio nitrogen yn effeithlon. Yn y gwanwyn y gwneir y defnydd gorau o nitrogen mewn tail mewn perthynas ag unrhyw fath o bridd.
  - Mae slyri gwartheg a moch, ynghyd â thail dofednod, yn cynnwys cyfran uchel iawn o nitrogen sydd ar gael yn hawdd. I osgoi trwytholchi a dŵr ffo dylech ddefnyddio'r rhain pan fo modd i gnydau ddefnyddio'r nitrogen yn effeithlon. Lle y bo'n ymarferol bosibl ni ddylech eu defnyddio yn ystod yr hydref na misoedd cyntaf y gaeaf. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn pridd tywodlyd a bas pan fo'r risg o drwytholchi gan nitradau ar ei mwyaf. Ni ddylai'r cyfnod o amser sy'n mynd heibio rhwng defnyddio'r mathau hyn o dail a phlannu neu ddrilio cnwd fod yn fwy na chwe wythnos.
  - Gallwch ddefnyddio tail organig nad yw'n cynnwys llawer o nitrogen sydd ar gael yn hawdd, megis tail buarth, unrhyw bryd, os yw amodau caeau yn addas i osgoi dŵr ffo.
- I leihau faint o nitrad a ryddheir, ni ddylech ddefnyddio tail organig yn y chwe mis cyn amaethu glaswelltir.
- <u>Ni</u> ddylech ddefnyddio tail da byw na dŵr brwnt o dan yr amodau canlynol:

  - mae'r pridd yn ddwrlawn; neu
  - mae'r pridd wedi rhewi'n galed[48]; neu
  - mae'r cae wedi'i orchuddio ag eira; neu
  - mae'r pridd wedi hollti hyd at ddraeniau'r cae neu'r ôl-lenwad; neu
  - mae'r cae wedi cael ei ddraenio gan bibellau neu dwrch-ddraeniwr neu aredwyd yr isbridd dros y draeniau yn y 12 mis diwethaf; neu
  - mae'n addo glaw trwm yn y 48 awr nesaf.

- Os yw'n bosibl peidiwch â gwasgaru ar adegau pan allai'r arogl beri niwsans statudol. Yr amodau gorau, sy'n gwneud i arogleuon gael eu gwanedu'n gyflym, yw pan fydd yr aer yn cymysgu i uchder mawr uwchlaw'r tir, sef diwrnodau heulog a gwyntog fel rheol, wedi'u dilyn gan nosweithiau cymylog a gwyntog.
- Edrychwch i weld i ba gyfeiriad y mae'r gwynt yn chwythu mewn perthynas â thai cyfagos cyn gwasgaru.

[48] Defnyddir y term hwn pan fo'r pridd wedi'i rewi am fwy na 12 awr. Ni chaiff y diwrnodau hynny pan gaiff pridd ei rewi dros nos ond ei fod yn dadmer yn ystod y dydd eu cyfrif.

- Bydd llai o arogl yn cael ei greu gan dail solet sydd wedi cael ei gompostio'n dda, neu slyri sydd wedi'i wasgaru ar ffurf band, neu wedi'i chwistrellu, neu sydd wedi cael ei drin i leihau'r arogl.
- Os oes gennych unrhyw dir mewn Parth Perygl Nitradau, ni chewch wasgaru slyri na thail dofednod (deunyddiau lle mae llawer iawn o nitrogen ar gael yn hawdd) yn ystod y cyfnodau gwaharddedig (Cyf 3).

Cyfyngiadau ar rai ardaloedd

- Ni ddylech ddefnyddio tail da byw na dŵr brwnt o dan yr amodau canlynol:

  - o fewn 10 metr i unrhyw ffos, pwll neu ddŵr wyneb; neu
  - o fewn 50 metr i unrhyw ffrwd, ffynnon, twll turio neu gronfa ddŵr sy'n cyflenwi dŵr i'w yfed gan bobl neu i'w ddefnyddio gan hufenfeydd fferm; neu
  - ar lethrau serth lle mae risg uchel o ddŵr ffo drwy gydol y flwyddyn; neu
  - ar gaeau sy'n debygol o brofi llifogydd y rhan fwyaf o aeafau; neu
  - mewn unrhyw ardal lle na chaniateir hynny oherwydd cytundebau rheoli penodol.

- Dim ond os yw amodau pridd yn addas i'w hymgorffori mewn ychydig oriau y dylech wasgaru slyri a thail solet ar foeldir neu dir sofl.
- Peidiwch â gwasgaru tail solet, slyri na dŵr brwnt ar gaeau sydd gerllaw tai ac yn groes i'r gwynt.
- Os bydd achosion o glefyd hysbysadwy, rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw amodau ar gyfer tail da byw a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cysylltwch ag Iechyd Anifeiliaid am gyngor.
- Mae rhai cynhyrchion milfeddygol yn cynnwys cyfansoddion llygredig iawn, a dim ond gan ddilyn cyngor Asiantaeth yr Amgylchedd y dylid defnyddio tail o dda byw sydd wedi cael eu trin. Rhaid i chi ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gyda'r cynnyrch.

Cyfraddau defnyddio

- Peidiwch â defnyddio mwy na 50$m^3$ o slyri na dŵr brwnt fesul hectar (4,500 o alwyni fesul erw) ar y tro er mwyn lleihau'r risg o ddŵr ffo. Talwch sylw ar bob safle er mwyn sicrhau nad yw gwasgaru yn achosi pyllau na dŵr ffo. Gadewch i o leiaf dair wythnos fynd heibio cyn gwneud yr un peth eto fel nad yw'r arwyneb yn selio gormod ac i roi amser i'r pridd adfer ei hun.
- Cadwch o fewn unrhyw derfynau a bennwyd mewn unrhyw gytundebau rheoli sydd gennych.

Technegau

- Ystyriwch wasgaru slyri gyda band-daenwr neu chwistrellwr er mwyn lleihau unrhyw arogl ac amonia rhag dianc, lleihau'r risg o ddŵr ffo ac er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o faetholion.

*Band-daenwyr*

- Mae'r peiriannau hyn yn gosod slyri ar y ddaear mewn stribedi neu fandiau drwy ddefnyddio cyfres o bibellau, neu bibellau ag esgidiau ynghlwm. Mae'r esgid yn ei gwneud yn bosibl i osod slyri o dan y canopi cnydau'n uniongyrchol ac ar y pridd. Mae band-daenwyr yn lleihau'r risg o halogi glaswellt a chnydau ac yn cynyddu nifer y diwrnodau gwaith sydd ar gael (yn enwedig ar laswelltir) o gymharu â thechnegau plât-dasgu.
- Ar ôl torri glaswellt at ddiben silwair, dylech adael iddo aildyfu ychydig cyn gwasgaru silwair gan ddefnyddio band-daenwr gan y bydd hyn yn lleihau allyriadau amonia ac arogleuon.

*Chwistrellwyr*

- Fel rheol ceir chwistrellwyr bas slot agored (hyd at 50 milimedr o ddyfnder), neu chwistrellwyr dwfn (dros 150 milimedr o ddyfnder). Cyfyngir ar sawl gwaith ac ymhle y gellir chwistrellu slyri'n llwyddiannus gan y pridd a'r cnwd, ond bydd yn osgoi halogi glaswellt a chnydau. I osgoi'r risg o lygru dŵr dylid gwneud y canlynol:

  - chwistrellu ar hyd llethrau (lle mae'n ddiogel gwneud hynny), yn hytrach nag am i fyny ac i lawr
  - peidiwch â chwistrellu i mewn i ôl-lenwad mandyllog dros ddraeniau caeau
  - peidiwch â chwistrellu islaw gwreiddiau gweithredol cnwd

**Systemau wmbilig**

Gall pwmpio slyri o'r storfa drwy "system pibell wmbilig" yn uniongyrchol i wasgarwr ar dractor a lec yn y cae fod yn ddull effeithiol o gynyddu'r ardal a gaiff ei thrin bob dydd a lleihau'r risg o gywasgu pridd o gymharu â defnyddio tancer (Cyf 25, llyfryn 3). Mae'n hynod effeithiol pan gaiff ei gyfuno â band-daenwr neu chwistrellwr fel y nodir uchod. Fodd bynnag mae systemau wmbilig yn rheswm cyffredin dros achosion difrifol o lygredd.

- Sicrhewch fod y gyfradd bwmpio yn cyfateb i'r gyfradd wasgaru yn y cae.
- Sicrhewch fod modd i'r pwmp storio slyri a chaban y tractor gyfathrebu â'i gilydd heb fod unrhyw oedi.
- Os bydd pibell yn gollwng neu'n peidio â gweithio sicrhewch fod caban y tractor a'r pwmp yn ca eu rhybuddio o hynny.
- Os bydd pibell yn gollwng neu os yw'r pwysedd yn rhy uchel sicrhewch fod system ddiogelwch waith sy'n rhoi stop arno.
- Wrth droi'r tractor caewch y cyflenwad er mwyn osgoi ailwasgaru'r dos ar dalarau caeau.
- Gwasgarwch ar draws llethrau lle bynnag y bo modd.
- Os oes rhaid i chi wasgaru slyri i fyny ac i lawr llethrau, gadewch ran fawr o dalar ar waelod y ll ac, ar ôl edrych yn ofalus i sicrhau nad yw wedi llifo o gwbl, gwasgarwch slyri ar yr ardal hon yn olaf, ond peidiwch â gwneud hynny o fewn 10 metr i unrhyw ffos neu ddŵr wyneb.
- Wrth adleoli pibellau cyflenwi sicrhewch nad oes unrhyw slyri yn dianc ac yn llifo i ffosydd a dŵ wyneb.
- Dim ond personél cymwys y dylech eu defnyddio.

*Systemau Dyfrhau Cyfradd Isel*

- Defnyddiwch gyfarpar â phatrwm gwasgaru isel a defnynnau mawr er mwyn lleihau unrhyw arogl ac allyriadau amonia. Symudwch daenellwyr a dyfrhawyr yn rheolaidd.
- Astudiwch y tir rydych yn ei ddyfrhau am unrhyw arwyddion o ddŵr ffo, pyllau ar yr wyneb, neu fwydod yn cael eu lladd. Symudwch daenellwyr ac ailosodwch ddyfrhawyr symudol os oes unrhyw arwyddion o'r problemau hyn.
- Ar dir sydd ar lethr, sicrhewch fod dyfrhawyr symudol yn mynd ar hyd llethrau. Dylai dyfrhawyr symudol ddiffodd yn awtomatig ar ddiwedd pob rhediad. Os yw'r swm o hylif a all gael ei storio'n gyfyngedig, dylech ddechrau'r dyfrhäwr ar rediad newydd cyn gynted â phosibl.
- Profwch danciau storio, pympiau, hidlyddion a chyfarpar rheoli yn rheolaidd. Pan gânt eu defnyddio profwch ddyfeisiau rhybuddio, taenellwyr a'r dyfrhäwr symudol sawl gwaith y diwrnod.
- Wrth adleoli pibellau cyflenwi sicrhewch nad oes unrhyw slyri na dŵr ffo yn dianc ac yn llifo i ffosydd a dŵr wyneb.

- Sicrhewch fod yr holl gyfarpar mewn cyflwr da cyn i chi ddechrau gweithio yn y cae. Gwnewch unrhyw waith atgyweirio fel y bo angen. Gosodwch wasgarwyr yn ôl cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr, ac addaswch y gyfradd i un briodol sy'n sicrhau unffurfiaeth ar gyfer y math o dail (Cyf 25, llyfryn 3). Cadwch at led bowt priodol. Peidiwch â cholli unrhyw slyri wrth i chi lenwi a symud cyfarpar o amgylch y fferm; gall fod yn drosedd colli slyri ar y ffordd[49], a gall unrhyw ddŵr ffo lifo i ddŵr wyneb drwy ddraeniau'r priffyrdd.
- Dylech gynnal profion ar hap o bwysau llwythi, cyfraddau defnydd ac unffurfiaeth y gwasgaru; ac addasu hynny fel y bo angen.
- Os ydych yn defnyddio techneg blât-dasgu yna defnyddiwch batrwm gwasgaru isel a defnynnau mawr.
- Dylai slyri gael ei ymgorffori mewn moeldir neu dir sofl cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau'r arogl, allyriadau amonia a'r risg o ddŵr ffo. Cyflawnir y canlyniadau gorau drwy ymgorffori slyri yn syth ar ôl ei wasgaru gyda'r nod o gwblhau'r gwaith o fewn chwe awr.
- Dylai tail solet gael ei ymgorffori mewn moeldir neu dir sofl hefyd cyn gynted â phosibl, gan anelu at gwblhau'r gwaith o fewn 24 awr.
- Mae ymgorffori slyri a thail solet drwy aredig yn fwy effeithiol o ran lleihau arogl ac allyriadau amonia na thechnegau eraill megis disgiau neu gyfarpar deintiog.

### 5.2.5 Defnyddio calch a gwrtaith sachau

- Dylai pob achos o ddefnyddio calch a gwrtaith sachau fod yn seiliedig ar eich cynlluniau rheoli maetholion a phridd (gweler adran 2.2.1). Os nad yw amodau pridd yn addas i deithio ar y tir, mae risg uchel na chaiff nitrogen

[49] Deddf Priffyrdd, 1980

ei ddefnyddio'n effeithlon a cheir mwy o risg o achosi llygredd o ganlyniad i ddŵr ffo, trwytholchi neu golli nwy.
- Dim ond gwrtaith sydd o ansawdd y gellir ei wasgaru'n gywir ac yn wastad y dylid ei ddefnyddio. Os byddwch yn defnyddio gwrtaith cymysg, sicrhewch nad yw'r cydrannau yn gwahanu nac yn creu patrymau gwasgaru gwahanol.

Amseru'r defnydd o wrtaith

- Mae'n bwysig mai dim ond pan all y cnwd ddefnyddio'r nitrogen y caiff gwrtaith nitrogen sachau ei wasgaru. Fel canllaw y tu allan i ardaloedd PPN, ni ddylech ei roi ar laswellt rhwng 15 Medi a 15 Ionawr nac ar gnydau eraill rhwng 1 Medi a 15 Ionawr oni bai bod gofyniad penodol ar yr adeg hon.
- Bydd lleihau'r defnydd o wrtaith nitrogen ar ddiwedd yr haf yn lleihau faint o nitrad sy'n dianc i laswelltir.
- Ni ddylech wasgaru gwrtaith sachau pan fo'n wyntog iawn pryd yr amherir ar batrymau gwasgaru, oni bai eich bod yn defnyddio taenwr niwmatig. Gall patrwm anwastad effeithio ar dyfiant cnydau a chynyddu'r risg o drwytholchi nitrad os bydd gorgyffwrdd, neu gall y gwrtaith gael ei chwythu i gynefinoedd sensitif.
- Ni ddylech ddefnyddio calch na gwrtaith sachau o dan yr amodau canlynol: -

  - mae'r pridd yn ddwrlawn, dan ddŵr, wedi rhewi'n galed[50] neu wedi'i orchuddio ag eira; neu
  - mae'n addo glaw trwm yn y 48 awr nesaf.

- Gellir colli hyd at 20% o gynnwys nitrogen wrea i'r aer, ond gellid lleihau hyn os caiff wrea ei wasgaru ychydig cyn i law mân ddisgyn.

Cyfyngiadau ar rai ardaloedd

- Dylech fod yn ofalus iawn wrth ddefnyddio calch a gwrtaith sachau ar gaeau lle mae'r risg y bydd yn llifo i ddŵr wyneb, yn enwedig ar lethrau serth.
- Ni ddylech wasgaru i mewn i ffosydd yn uniongyrchol (hyd yn oed os ydynt yn sych) na dŵr wyneb, gwaelod cloddiau, ardaloedd nas cnydiwyd neu gynefinoedd eraill lle y gall calch neu faetholion ddifrodi'r planhigion ac anifeiliaid naturiol.
- Ni ddylech wasgaru o fewn 2m i ddŵr wyneb a chynghorir defnyddio byfferi mwy llydan.

---

[50] Defnyddir y term hwn pan fo'r pridd wedi'i rewi am fwy na 12 awr. Ni chaiff y diwrnodau hynny pan gaiff pridd ei rewi dros nos ond ei fod yn dadmer yn ystod y dydd eu cyfrif.

Technegau

- Sicrhewch fod yr holl gyfarpar, gan gynnwys yr hyn a ddefnyddir gan gontractwyr, yn cael ei archwilio, ei gynnal a'i gadw a'i raddnodi o leiaf unwaith y flwyddyn. Cofiwch fod gan ddeunyddiau gwahanol nodweddion gwasgaru gwahanol, ac efallai y bydd angen addasu peiriannau a bwrw golwg dros y patrwm gwasgaru yn ystod y tymor (Cyf 96).
- Parwch led bowtiau a phatrymau gwasgaru'n ofalus er mwyn sicrhau bod yr hyn a gaiff ei wasgaru'n wastad, gan ystyried lled unrhyw linellau tram.

### 5.2.6 Defnyddio gwastraff oddi ar y fferm a gwastraff organig

- Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio gwastraff organig ar dir yn debyg i'r rhai sy'n gysylltiedig â defnyddio tail da byw. Edrychwch ar y cyngor a roddir yn adran 5.2.4 ar amseru, cyfyngiadau ar ardaloedd penodol, cyfraddau gwasgaru a thechnegau gwasgaru.
- Dylai cynnwys metel pridd hefyd gael ei fonitro o ran y Protocolau Ansawdd a phan gaiff deunydd organig arall ei ddefnyddio'n rheolaidd (gweler 5.1.5 Pridd Halogedig).
- Gall gwastraff organig gael ei wasgaru a'i adael ar wyneb pridd a allai gael ei chwythu ymaith er mwyn lleihau'r risg o erydu gan wynt. Gall hefyd gael ei roi ar gnwd sy'n tyfu fel tomwellt a'i adael ar wyneb pridd.
- Mewn dalgylchoedd afonydd sy'n llai sensitif i achosion o drwytholchi nitrad, gall rhai mathau o wastraff megis cacen slwtsh carthion neu wastraff organig wedi'i gompostio nad yw'n cynnwys llawer o nitrogen sydd ar gael i blanhigion, gael eu gwasgaru ar raddfa sy'n cyflenwi hyd at 500kg fesul hectar o 'gyfanswm nitrogen' ar y tro unwaith bob dwy flynedd.
- Mae canllawiau penodol ar gael ar y defnydd o slwtsh papur ar dir amaethyddol (Cyf 97).

Amseru'r defnydd o wastraff organig

- Mae gwastraff organig megis slwtsh carthion hylif yn cynnwys cyfran uchel iawn o nitrogen sydd ar gael yn hawdd. I osgoi trwytholchi a dŵr ffo dylech ddefnyddio'r rhain pan fo modd i gnydau ddefnyddio'r nitrogen yn effeithlon. Lle y bo'n ymarferol bosibl ni ddylech eu defnyddio yn ystod yr hydref na misoedd cyntaf y gaeaf. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn pridd tywodlyd a bas pan fo'r risg o drwytholchi gan nitradau ar ei mwyaf. Ni ddylai'r cyfnod o amser sy'n mynd heibio rhwng defnyddio'r deunyddiau hyn neu ddrilio cnwd fod yn fwy na chwe wythnos.
- Gallwch ddefnyddio mathau eraill o wastraff organig nad ydynt yn cynnwys llawer o nitrogen sydd ar gael yn hawdd, megis cacen slwtsh carthion a chompost a wneir o wastraff gwyrdd, ar unrhyw adeg, os yw amodau caeau yn addas i osgoi dŵr ffo a chywasgu.

### 5.2.7 Pridd Halogedig

Mae rhai priddoedd yn cynnwys llygryddion o ffynonellau naturiol a hen weithfeydd mwyn. Gall yr halogi cefndirol hwn amrywio'n fawr. Fodd bynnag, caiff pridd ei halogi gan weithgareddau pobl fel arfer, naill ai'n uniongyrchol

gan bethau a roddir ar y tir neu'n anuniongyrchol gan ddyddodi atmosfferig. Araf yw'r broses fel arfer, sy'n digwydd dros lawer o flynyddoedd. Fodd bynnag, gall fod angen gweithredu ar fyrder os bydd achosion damweiniol o ollwng olew, neu lifogydd mewn perthynas â dŵr y môr neu ddŵr wedi'i halogi (megis o hen weithfeydd mwyn).

- Os byddwch yn amau bod pridd wedi'i halogi oherwydd y defnydd blaenorol o dir, neu oherwydd achos neu ddigwyddiad megis gollwng olew neu lifogydd, dylech gael cyngor proffesiynol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o'r pridd a'r cnydau neu dda byw, fel y bo'n briodol. Cysylltwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyntaf, yr Asiantaeth Safonau Bwyd os effeithiwyd ar gnydau, a'ch Awdurdod Lleol. Gall cnydau sy'n tyfu'n foddhaol ac anifeiliaid iach yr olwg gynnwys llygryddion sy'n fwy na'r terfynau cyfreithiol.
- Fel arfer mae'n rhy ddrud i gyfiawnhau trin pridd er mwyn dileu llygryddion o ran tir amaethyddol. Efallai y bydd modd i chi leihau'r llygryddion sydd drwy gymryd camau rheoli syml megis calchu'r pridd. Dylech ystyried dulliau eraill o ddefnyddio'r tir, megis tyfu cnydau biomas neu ddiwydiannol, plannu coed, neu sefydlu cynefin o fywyd gwyllt, o bosibl drwy gynllun rheoli tir.
- Mae'r risg o wenwyno da byw drwy bridd wedi'i halogi yn dibynnu bron yn gyfan gwbl ar faint o bridd y maent yn ei fwyta, yn hytrach na faint o lygryddion a geir yn y glaswellt. Dylech reoli faint o bridd y maent yn ei fwyta, drwy reoli'r pori, a sicrhau nad oes pridd mewn silwair na gwair adeg y cynhaeaf. Ceisiwch gyngor milfeddygol os byddwch yn amau bod achos o halogi'n effeithio ar iechyd eich stoc. Mae cyngor ar safleoedd sydd wedi'u halogi gan weithfeydd mwyn ar gael (Cyf 98).

<u>Metelau</u>

- Dylech fonitro cynnwys metel y pridd pan fydd slwtsh carthion, tail organig, compost a deunydd gwastraff, neu blaladdwyr sy'n cynnwys metel, yn cael eu defnyddio'n rheolaidd.
- Gwerthoedd sbardun ar gyfer copr a sinc sy'n galw am gael cyngor wrth ddefnyddio tail neu blaladdwyr (Cyf 99):

| | Gwerthoedd sbardun sy'n galw am gael cyngor - cyfanswm y crynhoad (mg/kg) | |
|---|---|---|
| | pH 5.0 i 5.5 | PH uwch na 5.5 |
| Sinc | 200 | 200 |
| Copr | 80 | 100 |

Slwtsh Carthion (ar gyfer defnyddio slwtsh carthion, gweler adran 5.2.6 uchod)

- Er bod cynnwys metel slwtsh carthion wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i reoli gollyngiadau carthffosydd, mae cynhyrchwyr carthion yn gyfrifol am gydymffurfio â'r terfynau cyfreithiol ar gyfer metelau mewn slwtsh carthion, ac yn y pridd a gaiff ei roi arno. Dylech sicrhau bod pH y pridd yn cael ei gynnal ar lefel foddhaol yn ystod y broses o wasgaru slwtsh ac yn y blynyddoedd ar ôl hynny, gan fod y rhan fwyaf o fetelau ar gael yn fwy i blanhigion mewn pridd asidig.

Tail da byw

- Y prif lygryddion posibl mewn tail da byw yw copr a sinc. Cânt eu hychwanegu i borthiant da byw er mwyn hybu tyfiant, at ddibenion meddyginiaethol, neu i gynyddu'r cyflenwad o elfennau hybrin. Dylech geisio lleihau faint o fetel sy'n cael ei ychwanegu at borthiant sy'n gyson ag iechyd a lles eich stoc, ar ôl ystyried arferion hwsmonaeth amgen.
- Mae rhai meddyginiaethau milfeddygol yn cynnwys cyfansoddion sy'n gadael gweddillion a allai fod yn beryglus mewn tail a slyri. Felly, rhaid i chi ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir ar becynnau meddyginiaethau milfeddygol ynghyd â chyfarwyddiadau eich milfeddyg.
- Caiff mwy o fetel ei ychwanegu at bridd pan fyddwch yn gwasgaru rhai mathau o dail da byw na thrwy ddefnyddio slwtsh carthion yn rheolaidd. Ar gaeau lle y caiff tail moch a dofednod ei wasgaru'n rheolaidd, dylech fonitro'r copr a'r sinc yn y tail a'r pridd. Os bydd y crynoadau a geir yn y pridd yn agos at y rhai a roddir yn y tabl uchod dylech gael cyngor proffesiynol, er enghraifft, gan gynghorydd cymwys FACTS, cyn i chi roi mwy o dail ar y tir hwn.

Compostau a mathau eraill o wastraff

- Sicrhewch eich bod yn dilyn y Protocol ar gyfer Compost o Ansawdd (gweler adran 5.1.4) sy'n sicrhau bod ansawdd y compost yn cyrraedd BSI PAS 100[51] (Cyf 100) ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddadansoddi tir o ran metelau cyn gwasgaru unrhyw beth.
- Bydd y protocol ansawdd ar gyfer gweddillion treuliad anaerobig o blanhigion treulio anaerobig yn sicrhau bod ansawdd y gweddillion treuliad anaerobig yn cyrraedd BSI PAS 110 (Cyf 101) a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal profion samplu tebyg a chadw cofnodion.

[51] Manyleb y Sefydliad Safonau Prydeinig, sydd ar gael i'r cyhoedd, ar gyfer deunydd wedi'i gompostio. Hwn yw'r meincnod cenedlaethol ar gyfer compost - y gofynion ar gyfer y broses gompostio, dewis y deunyddiau y caiff compost ei wneud ohonynt a sut y caiff ei labelu.

Plaladdwyr

- Mae'r rhan fwyaf o blaladdwyr yn gyfansoddion organig sy'n dadelfennu yn y pridd. Mae rhai plaladdwyr yn cynnwys copr ac, er nas defnyddir yn helaeth, bydd eu defnyddio droeon (er enghraifft wrth dyfu tatws organig) yn cynyddu faint o gopr a geir yn y pridd. Mewn sefyllfaoedd o'r fath dylech ddadansoddi'r pridd, a chymharu'r hyn a geir ynddo â'r gwerthoedd sbardun uchod, er mwyn penderfynu a ddylech barhau i ddefnyddio'r plaladdwr hwn.

Peledi plwm

- Gall peledi plwm gronni mewn pridd. Ar dir a gaiff ei ddefnyddio'n rheolaidd i saethu colomennod clai, gall peledi plwm gronni ar raddfa a all beri risg i stoc pori a chnydau os parheir i ddefnyddio'r tir at ddiben ffermio.

- Dylech gael cyngor proffesiynol gan eich Awdurdod Lleol a'r Asiantaeth Safonau Bwyd os effeithir ar gnydau, neu Iechyd Anifeiliaid os yw'n debygol yr effeithir ar dda byw. Byddwch yn barod i roi'r gorau i ddefnyddio'r tir at ddibenion cynhyrchu neu ystyriwch ddefnyddio contractwr arbenigol i gael gwared ar y peledi plwm o'r pridd. Fel arall ystyriwch ddefnyddio pelenni di-blwm.

<u>Olew</u>

- Os caiff swm sylweddol o olew ei ollwng, rhowch eich cynllun brys ar waith (gweler adran 2.2.3). Peidiwch â cheisio amsugno petrol a gaiff ei ollwng oherwydd mae'n fflamadwy iawn. Gwnewch fwnd i storio'r petrol sydd wedi cael ei ollwng a threfnwch fod tancer yn dod i gasglu'r petrol dros ben. Mae hyn yn arfer da mewn perthynas ag unrhyw ollyngiadau, gan ei fod yn lleihau faint o ddeunydd amsugnadwy a gaiff ei gynhyrchu. Ystyrir bod unrhyw ddeunydd a gaiff ei halogi gan olew yn wastraff peryglus a rhaid cael gwared arno'n briodol. (Gweler adran 7 am fanylion pellach.)
- Ewch ati i drin y pridd a rhoi gwrtaith arno er mwyn annog gweithgarwch microbial, a fydd yn helpu i ddadelfennu'r olew. Os ydych mewn Parth Perygl Nitradau, a bod angen i chi ddefnyddio rhywfaint o wrtaith nitrogen i helpu'r broses hon, rhaid i chi gael cyngor a chaniatâd ymlaen llaw gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Po ysgafnaf yr olew y cyflymaf y bydd y pridd yn cael ei adfer. Mae canllawiau manwl ar gael mewn Cod Ymarfer a luniwyd gan y Sefydliad Petrolewm (Cyf 102)

<u>Dŵr y Môr</u>

- Os bydd eich tir yn dioddef llifogydd gan ddŵr y môr, draeniwch ef cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau i'r eithaf faint o halen sy'n aros yn y pridd. Bydd glawiad arferol y gaeaf yn cael gwared ar yr halen hwn mewn un neu ddau aeaf.
- Ceisiwch gyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

- Byddwch yn barod i fraenaru'r tir, tyfu cnydau goddefol megis barlys neu rygwellt, bod yn fwy gofalus wrth drin tir, ac os oes angen rhoi calsiwm ychwanegol arno megis gypswm i sefydlogi strwythur y pridd. Os byddwch yn defnyddio gypswm gwastraff, bydd angen i chi gofrestru eithriad gydag Asiantaeth yr Amgylchedd o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gweler adran 7.1.4).

<u>Llifddwr</u>

- Os bydd llifddwr sydd wedi'i halogi gan fwyngloddiau yn halogi tir pori yn ystod y tymor tyfu, ceisiwch gyngor milfeddygol cyn ei dorri neu adael i anifeiliaid bori arno. Ymchwiliwch i'r graddau y mae wedi'i halogi gan fetel cyn penderfynu ar y ffordd orau o drin y tir yn y dyfodol. Efallai y bydd angen i chi drin y pridd os bydd llygrydd wedi dod i'r wyneb.
- Mae llifddwr o ardaloedd trefol neu ddiwydiannol, gan gynnwys carthffosydd, yn ffynhonnell bosibl arall o halogi. Dylech gael cyngor proffesiynol ar y camau i'w cymryd, gan gynnwys cyngor milfeddygol os oes da byw dan sylw.

# 6 Garddwriaeth arbenigol

**Caiff cnydau garddwriaethol arbenigol eu tyfu'n aml mewn systemau mewnbwn uchel, dan orchudd neu mewn cyfleusterau hunangynhaliol. Mae'r adran hon yn cynnig cyngor i'ch helpu i leihau'r risg o lygredd a lleihau'r effaith andwyol ar yr amgylchedd.**

Dylech hefyd gyfeirio at adrannau eraill yn y Cod hwn am ganllawiau ar storio olew tanwydd, plaladdwyr, a gwrteithiau (Adran 3), rheoli gwastraff (Adran 7) a chyflenwadau dŵr (Adran 8). Mae cnydau garddwriaethol a dyfir mewn caeau hefyd yn cael eu cwmpasu gan gyngor yn Adran 4 ar hwsmonaeth caeau ac Adran 5 ar reoli maetholion.

| |
|---|
| **Bydd dilyn arfer da yn yr adran hon yn eich helpu i wneud y canlynol:**<br>Lleihau faint o faetholion a gollir a'r risg o lygru dŵr<br>**Gall hefyd arbed arian i chi drwy:**<br>Leihau costau ynni, a chostau mewnbynnau megis maetholion. |

## 6.1 Gofynion Cyfreithiol

Dyma'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud yn ôl y gyfraith, o ran garddwriaeth arbenigol:

- Mae angen cael trwyddedau gan Asiantaeth yr Amgylchedd i dynnu dŵr ac ar gyfer gollyngiadau i ddŵr daear a dŵr wyneb[52]. Mae'n drosedd achosi i ddeunydd gwenwynig, afiach neu lygrol, neu ddeunydd gwastraff solet gael ei ollwng i ddyfroedd a reolir, gan gynnwys dŵr daear a dyfroedd wyneb, neu ganiatáu i hynny ddigwydd yn fwriadol heb awdurdod priodol gan Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Gall unedau cynhyrchu hefyd effeithio ar gynefinoedd a ddiogelir megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Os yw'ch uned gynhyrchu bresennol neu arfaethedig wedi'i lleoli ar SoDdGA neu'n agos at un, dylech gael cyngor gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC).

- Trawsgydymffurfio

Os ydych yn cymryd rhan yng Nghynllun y Taliad Sengl mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r Gofynion Rheoli Statudol a hefyd y gofynion i gadw eich tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da.

[52] O dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010.

## 6.2 Arfer Da

Mae'r adran hon yn rhoi cyngor a chanllawiau ar arfer amaethyddol da sy'n ychwanegol at eich rhwymedigaethau cyfreithiol.

**Crynodeb o Gamau Gweithredu Allweddol**

- Dylech leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon deuocsid drwy ddefnyddio ynni mewn modd effeithlon a manteisio ar ffynonellau tanwydd nad ydynt yn rhai ffosil.

- Defnyddiwch y lleiafswm o ddŵr a maetholion sy'n gyson â chael y gorau posibl o'ch cnydau. Sicrhewch fod cyn lleied â phosibl o faetholion, plaladdwyr, gwaddodion a deunydd organig yn dianc i'r amgylchedd dŵr. Rhaid i chi reoli a monitro'r dŵr a gaiff cnydau a stoc meithrinfa a dyfir mewn cynwysyddion er mwyn lleihau unrhyw ddŵr ffo.

- Casglwch ddŵr o'r to at ddiben dyfrhau, golchi ac fel cyflenwad wrth gefn ar gyfer y daliad. (Gweler adran 8 am fanylion pellach). Er nad yw'n debygol, peidiwch â'i ddefnyddio i dyfu cnydau os oes risg y gallai dŵr o'r to sydd wedi'i halogi ddifa'r cnwd. Os na chaiff dŵr o'r to ei gasglu dylai fod ganddo system ddraenio sydd ar wahân i ddŵr brwnt a dylai gael ei gyfeirio i ffos, cwrs dŵr neu system ymdreiddio.

### 6.2.1 Y Defnydd o Ynni

- Lle y bo'n briodol, dylech inswleiddio waliau, toeon a phibellau gwresogi, lleihau unrhyw ollyngiadau aer ac ystyried gosod sgriniau thermol er mwyn lleihau'r gwres a gollir.
- Sicrhewch fod cyfundrefnau tymheredd a hinsawdd yn cael eu cynnal yn effeithlon drwy ddefnyddio system rheoli tymheredd a hinsawdd integredig.
- Sicrhewch fod boeleri a llosgwyr presennol yn cael eu cynnal a'u cadw a phan fydd angen eu disodli, ystyriwch osod uned gwres a phŵer cyfunedig (tanwydd ffosil neu danwydd arall).
- Efallai y byddwch am gymharu eich defnydd o ynni â safonau cyhoeddedig (Cyf 103).
- Gall treulio anaerobig gwastraff organig ddarparu ffynhonnell ynni cynaliadwy a chost effeithiol.

### 6.2.2 Cnydau a warchodir

- Dylech sicrhau bod y maetholion a ychwanegir at ddŵr yn bodloni gofynion y cnwd, yn cyfateb i'w gam o dyfiant ac yn briodol i'r amser o'r flwyddyn. Gall monitro dargludedd trydanol y porthiant a'r dŵr ffo helpu i sicrhau bod y swm cywir o borthiant yn cael ei ddefnyddio.
- Ni ddylech ddefnyddio mwy o borthiant hylif na'r hyn sydd ei angen ar gnydau a dyfir mewn pridd, oherwydd bydd angen i unrhyw faetholion dros

ben gael eu tynnu o'r pridd cyn y cnwd canlynol. Bydd hyn yn golygu mwy o waith a gall effeithio ar ddŵr daear neu ddŵr wyneb.

- Lle y bo'n bosibl gosodwch systemau ailgylchdroi ar gyfer cnydau hydroponig. Pan fo'n rhaid gwagio'r system, gadewch iddi redeg cyhyd â phosibl yn gyntaf er mwyn lleihau'r swm y mae'n rhaid ei waredu.
- Ar gyfer systemau nad ydynt yn ailgylchdroi, gan gynnwys 'systemau bwrdd' ar gyfer cnydau megis mefus, dylech reoli a monitro'r defnydd o ddŵr er mwyn osgoi creu gormod o ddŵr ffo. Dylech ddylunio, gosod a chynnal a chadw'r system er mwyn sicrhau bod faint o ddŵr a gyflenwir gan bob ffroenell neu bibell ddiferu yn amrywio cyn lleied â phosibl. Ar gyfer systemau gwlân ynysu, dylech anelu at leihau dŵr ffo i lai na 30% o'r dŵr a ychwanegir.
- Ailgylchwch doddiannau maetholion a ddefnyddiwyd drwy eu taenu ar gnydau sy'n tyfu ar safle'r daliad - gan ystyried hyn yn eich cynllun rheoli maetholion.
- Ar yr amod nad oes unrhyw risgiau o blâu na chlefydau, compostiwch ddeunydd planhigion gwastraff i'w ailddefnyddio ar y daliad. Os nad yw hyn yn bosibl, gwaredwch wastraff hylif a solet yn unol ag Adran 7.

### 6.2.3 Stoc meithrinfa a dyfir mewn cynwysyddion

- Dylech leihau'r dŵr ffo o bob system drwy ddilyn prosesau rheoli gofalus. Ystyriwch systemau gwely wedi'u his-ddyfrhau ac ailgylchu dŵr i helpu gyda hyn. Er mwyn lleihau'r risg o ddŵr ffo sy'n llawn maetholion, defnyddiwch wrteithiau lle y rheolir y broses o ryddhau maetholion ohonynt yn y cyfrwng tyfu, ac ychwanegwch y lleiafswm o faetholion yn y dŵr dyfrhau. Dylech sicrhau bod cyfanswm y maetholion a gyflenwir yn cyfateb i'r system gynhyrchu. Os byddwch yn monitro lefelau maetholion mewn compost a dŵr ffo, gallwch leihau costau a'r colledion sy'n deillio o ddŵr ffo i'r eithaf.
- Dylech sicrhau bod y swm o ddŵr a ychwanegir yn cyfateb i'r glawiad, y cnwd, y cyfrwng tyfu, y cam o dyfiant, maint y cynhwysydd a'r amser o'r flwyddyn. Pan fo'n gynnes, dylech ddyfrhau ben bore neu gyda'r hwyr er mwyn lleihau'r hyn a gollir drwy anweddu ac felly sicrhau bod planhigion yn cael y budd mwyaf posibl. Mae hyn hefyd yn lleihau nifer yr achosion o ruddo dail. Dyluniwch y system fel bod y system ddyfrhau yn cyfateb i'r ardal a gnydir a chadwch lygad ar ffroenellau er mwyn sicrhau bod yr un faint o ddŵr yn cael ei ychwanegu. Am ragor o wybodaeth gweler cyfeiriad 104.
- Dylech sicrhau nad ydych yn defnyddio mwy o blaladdwyr na'r hyn sydd ei angen i dyfu cnydau i'w gwerthu. Lle y bo'n bosibl ymgorfforwch blaladdwyr yn y cyfrwng tyfu, yn hytrach na defnyddio system wlychu. Os oes angen defnyddio system wlychu, cofiwch ddilyn y Cod Ymarfer o ran Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Cyf 33) er mwyn lleihau unrhyw broblemau amgylcheddol posibl.

### 6.2.4 Madarch

- Gall cynhyrchwyr gompostio hyd at 10,000 metr ciwbig o wastraff bioddiraddadwy o safle amaethyddol at ddiben tyfu madarch drwy

gofrestru eithriad gydag Asiantaeth yr Amgylchedd. Bydd angen i Asiantaeth yr Amgylchedd gael manylion ychwanegol os gwneir hyn o fewn 250m i adeilad neu leoliad a ddefnyddir gan bobl. Bydd angen trwydded amgylcheddol ar symiau mwy (gweler adran 7.1.3).

- Dylech sicrhau bod buarthau mor lân â phosibl. Wrth gynhyrchu compost, ychwanegwch yr un faint o ddŵr er mwyn lleihau'r risg o ddŵr ffo ac ewch ati i'w gasglu a'i ailgylchu lle bynnag y bo'n bosibl.
- Wrth gompostio, peidiwch â chreu arogl drwy annog cymaint o aer â phosibl i dreiddio'r deunydd a gaiff ei brosesu. Efallai y bydd angen i chi gyfyngu ar hyd a lled rhenciau neu bentyrrau, a throi compost yn fynych er mwyn lleihau amodau anaerobig sy'n ddelfrydol i greu arogl.
- Os ydych yn cadw compost sydd wedi cael ei ddefnyddio a gweddillion organig arall ar y safle, sicrhewch eich bod yn casglu unrhyw ddŵr ffo. Dylech gadw'r holl ddŵr brwnt dros ben ar y safle i'w waredu. Ni chewch ei ollwng i ffos na dŵr wyneb. Ni ddylid defnyddio ffosydd cerrig os yw'r dŵr brwnt yn cynnwys gweddillion plaladdwyr neu ddiheintyddion. Gweler adrannau 3.1.3 a 3.2.3 am gyngor ar ymdrin â thail solet a dŵr brwnt, ac adran 5.2.3 am gyngor ar eu defnyddio ar dir.
- Wrth lanhau hambyrddau a chyfarpar, gallwch leihau'r defnydd o ddŵr drwy ddefnyddio techneg brwsio sych, ac yna ddewis maint y ffroenell yn ofalus ynghyd â'r pwysedd dŵr.

### 6.2.5 Berwr dŵr

- Gall ansawdd y dŵr sy'n mynd i mewn i afonydd ar ôl tyfu berwr dŵr gael effaith ddifrifol ar gynefinoedd dyfrol. Os ydych yn ystyried tyfu berwr dŵr, cysylltwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd am ragor o ganllawiau ac i wneud cais am ganiatâd.

# RHAN 3

# Rheoli Adnoddau

# 7 Rheoli Gwastraff

**Caiff y gwastraff a gynhyrchir ar safleoedd amaethyddol a garddwriaethol ei reoleiddio er mwyn diogelu'r amgylchedd ac iechyd y cyhoedd.**

Ni cheir rhestr gynhwysfawr o wastraff amaethyddol ond yr enghreifftiau ohono (pan fo angen cael gwared arno) yw:

- gwastraff cerbydau a pheiriannau
- plastig nad yw'n ddeunydd pecynnu
- deunydd pecynnu plastig
- cynhyrchion iechyd anifeiliaid
- gwastraff adeiladu
- cardbord a phapur, metel, pren, gwydr, rwber, lludw
- rhai mathau o wastraff peryglus megis crynoadau a gweddillion agrocemegol
- olew, hylif breciau, gwrthrewydd, asbestos, batris asid plwm, a thiwbiau golau fflwroleuol.

Nid yw tail na slyri yn wastraff os cânt eu defnyddio fel gwrtaith ar bridd er budd amaethyddol neu ecolegol ar dir amaethyddol - boed hynny ar y fferm lle y cânt eu cynhyrchu neu ar fferm arall.

**Bydd dilyn arfer da yn yr adran hon yn eich helpu i wneud y canlynol:**
Lleihau'r gwastraff a gaiff ei gynhyrchu, ailddefnyddio adnoddau ac ailgylchu lle y bo'n bosibl, lleihau allyriadau nwyon, a lleihau'r risg o lygru dŵr.
**Gall hefyd arbed arian i chi drwy:**
Leihau costau adnoddau cychwynnol a chostau gwaredu (Cyf 2.5)

## 7.1 Gofynion Cyfreithiol

Dyma beth mae'n rhaid i chi ei wneud yn ôl y gyfraith mewn perthynas â rheoli gwastraff:

### 7.1.1 Dyletswydd Gofal

Mae dyletswydd gofal ar bawb sy'n trin gwastraff - o'r sawl sy'n cynhyrchu'r gwastraff i'r sawl sy'n ei waredu neu'n ei adfer yn y pen draw.[53] Mae'r ddyletswydd hon yn ddull allweddol o drechu tipio anghyfreithlon. Rhaid i chi gadw'r gwastraff yn ddiogel a dim ond ei roi i unigolyn awdurdodedig sydd â hawl ei gael gennych - cludwr gwastraff cofrestredig. Mae'n ddyletswydd arnoch sicrhau bod y gwastraff yn mynd i safle sydd wedi'i awdurdodi'n briodol, a rhoi nodyn trosglwyddo i'r unigolyn yn disgrifio'r gwastraff a gaiff ei

[53] Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991, ac fel y'u diwygiwyd ar gyfer Cymru 2003.

lofnodi gan y ddau ohonoch. Rhaid i chi gadw'r nodyn trosglwyddo am ddwy flynedd o leiaf. Mae canllawiau ar gael (Cyf 105).

Mae'r Ddyletswydd Gofal yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a disgwylir rhoi Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 ar waith ddiwedd mis Mawrth 2011. Caiff dogfen gyfarwyddyd newydd ei llunio hefyd. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

| |
|---|
| **Nodyn Cyngor**<br>Am ragor o gyngor ar ymdrin â gwastraff amaethyddol, neu i gadarnhau bod rhywun wedi'i awdurdodi, ffoniwch Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid Asiantaeth yr Amgylchedd ar 08708 506 506. Gallwch ddefnyddio cyfeirlyfr gwastraff Asiantaeth yr Amgylchedd yn www.wastedirectory.org.uk i ddod o hyd i'ch cyfleusterau gwaredu neu adfer gwastraff agosach. |

### 7.1.2 Trin a storio gwastraff peryglus

Ymhlith yr enghreifftiau o wastraff fferm a ystyrir yn beryglus mae olew gwastraff, asbestos, batris asid plwm ac agrocemegau sy'n cynnwys sylweddau peryglus (Cyf 106). Ni ddylech gymysgu gwastraff peryglus â gwastraff nad yw'n beryglus na sylweddau na deunyddiau eraill. Rhaid casglu a gwaredu gwastraff peryglus ar wahân, sy'n destun gofynion y Rheoliadau Rheoli Gwastraff[54]. Rhaid i chi gofrestru ag Asiantaeth yr Amgylchedd os ydych yn cynhyrchu mwy na 500kg o wastraff peryglus mewn unrhyw gyfnod o 12 mis (Cyf 107). Rhaid i nodiadau cludo gyd-fynd â phob achos o symud gwastraff oddi ar eich daliad, er mwyn darparu llwybr archwilio (Cyf 108). Pan fyddwch wedi cwblhau'r nodyn cludo, rhaid i chi ddisgrifio'r gwastraff a chadw copi am dair blynedd o leiaf. Rhaid i chi hefyd gadw copi o unrhyw ffurflen gan y cyfleuster rheoli gwastraff sy'n ardystio ei fod wedi derbyn y gwastraff.

### 7.1.3 Trwyddedau Amgylcheddol

- Mae angen cael trwydded amgylcheddol (Cyf 109) gan Asiantaeth yr Amgylchedd[55] os ydych am redeg tip ar eich fferm neu os ydych yn bwriadu darparu gwasanaeth rheoli gwastraff proffesiynol i adael, adfer neu waredu gwastraff (Cyf 110).
- Ni chewch waredu unrhyw wastraff drwy ei losgi, ei gladdu, na'i dipio oni bai eich bod wedi cael trwydded, neu wedi cofrestru am eithriad priodol, gweler isod, gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.

### 7.1.4 Eithriadau (rhag trwyddedu amgylcheddol)

- Gellir ymdrin â'r rhan fwyaf o wastraff ar ffermydd drwy eithriadau gan y broses Trwyddedu Amgylcheddol.

[54] Rheoliadau Rheoli Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2005, OS Rhif 894
[55] O dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010.

- Mae'r rhain yn fath ysgafn o reolaethau rheoliadol sy'n gadael i chi adfer neu waredu mathau penodol o wastraff sy'n peri risg isel o achosi llygredd neu niweidio iechyd y cyhoedd.
- Os hoffech adfer neu waredu mathau penodol o wastraff amaethyddol a gynhyrchir ar eich safle drwy gyflawni gweithgaredd sydd wedi'i eithrio, rhaid i chi gofrestru'r eithriadau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd. Gwnaed newidiadau i'r broses eithrio ym mis Ebrill 2010. Cysylltwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd am gyngor (Cyf 111).
- Rhaid i chi fodloni'r amodau a nodir ar gyfer pob eithriad - os na allwch wneud hyn bydd angen i chi gael trwydded amgylcheddol.

### 7.1.5 Gwanedu Gwastraff Hylif

- Gall Cwmni Gwasanaeth Dŵr ganiatáu gollwng hylif wedi'i wanedu i garthffos gyhoeddus, os gall drin y llwyth llygrol ychwanegol[56]. Mae angen trwydded elifion masnach, y codir tâl amdani, a bydd hefyd angen i chi ddarparu a chynnal pwynt samplu cytûn.
- O dan rai amgylchiadau, efallai y byddwch yn gallu gollwng gwastraff hylif sydd wedi'i wanedu a'i drin o lwyth llygrol isel iawn i ddŵr wyneb neu i'r ddaear. Rhaid i chi gael caniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd i wneud hyn a chodir tâl am hynny. Bydd angen i chi ddarparu a chynnal pwynt samplu cytûn.
- Gellir caniatáu gwaredu sylweddau penodol ar dir neu i mewn iddo, ond rhaid i chi gael Trwydded Amgylcheddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn achos ffermydd, bydd angen cael trwydded o'r fath i waredu dip defaid sydd wedi'i ddefnyddio a golchion plaladdwyr sydd wedi'u gwanedu ar dir. Rhaid i chi fodloni'r amodau a nodir yn y drwydded.

### 7.1.6 Gwaredu Plaladdwyr a Dip Defaid Gwastraff

- Gellir caniatáu gwaredu sylweddau penodol ar dir neu i mewn iddo, ond rhaid i chi gael Trwydded Amgylcheddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn achos ffermydd, mae trwydded o'r fath ar gael fel arfer i waredu dip defaid sydd wedi'i ddefnyddio a golchion plaladdwyr sydd wedi'u gwanedu ar dir.
- Rhaid i chi waredu deunyddiau eraill sydd wedi'u halogi, e.e. dillad diogelu brwnt, deunydd i amsugno gollyngiadau, gwenwyn llygod sydd wedi'i ddefnyddio, neu blaladdwyr eraill, gan ddefnyddio llwybr gwaredu a gydnabyddir ar gyfer gwastraff peryglus, fel uchod.

### 7.1.7 Gwastraff olew

- Gallwch losgi olew gwastraff at ddiben gwres ar yr amod eich bod yn cael caniatâd gan Adran Iechyd yr Amgylchedd yr awdurdod lleol (gweler Cysylltiadau Defnyddiol). Dylech hefyd holi Asiantaeth yr Amgylchedd i weld a oes angen i chi gofrestru eithriad rhag gofynion trwyddedu amgylcheddol.

---

[56] O dan Ddeddf Dŵr 1989, a Deddf Adnoddau Dŵr 1991.

### 7.1.8 Gwaredu carcasau anifeiliaid

- Rhaid gwaredu anifeiliaid a dofednod sy'n marw ar y fferm gan ddefnyddio llosgydd neu safle toddi awdurdodedig neu gyfrwng cymeradwy arall heb unrhyw oedi[57]. Gall fod gwasanaethau casglu ar gael (er enghraifft Cyf 112) neu cysylltwch ag Iechyd Anifeiliaid am fanylion.
- Nes iddynt adael y fferm, rhaid sicrhau bod carcasau ac unrhyw elifion a allai ddeillio ohonynt yn cael eu storio'n ddiogel, a sicrhau nad yw anifeiliaid, gan gynnwys adar, yn dod i gysylltiad â'r carcasau. Symudwch y carcasau i leoliad neu adeilad diogel neu rhowch darpolin drostynt. Ni ddylid gadael carcasau mewn cyrsiau dŵr na mathau eraill o ddŵr.

- Os byddwch yn amau bod anifail yn sâl neu ei fod wedi marw oherwydd clefyd hysbysadwy, rhaid i chi hysbysu Iechyd Anifeiliaid - gallwch wneud hynny bob awr o'r dydd a'r nos (Gweler manylion cyswllt). Dylid sicrhau bod pob carcas ar gael at ddiben archwiliad post-mortem. Dylid dilyn cyfarwyddiadau Iechyd Anifeiliaid o ran eu gwaredu wedyn.
- Os cynhelir ymchwiliad milfeddygol i unrhyw ddigwyddiad amheus, dylech gadw'r anifeiliaid dan sylw ar wahân a hefyd gyfyngu ar fynediad i'r fferm hyd nes y bydd y milfeddyg sy'n gweithio ar ran Iechyd Anifeiliaid yn eich hysbysu fel arall.

- Gall carcasau gael eu llosgi ar y fferm, ond rhaid bodloni amodau technegol a rheolaethau amgylcheddol i wneud hynny. Rhaid i chi gael caniatâd Iechyd Anifeiliaid i ddefnyddio llosgydd. Dylech losgi carcasau cyn gynted â phosibl. Peidiwch â gorlwytho'r llosgydd.
- Os ydych yn bwriadu defnyddio llosgydd ar y fferm sydd â chyfradd lwytho sy'n fwy na 50 kg/awr, rhaid i chi hefyd gael caniatâd eich awdurdod lleol (Cyf 113).
- Mae carcasau anifeiliaid cnoi cil yn cynnwys deunydd risg uchel sef Deunydd Risg Penodedig (DRP). Gall llosgwyr mawr dderbyn carcasau anifeiliaid cloi cil a DRP. Os defnyddiwyd llosgydd i waredu carcasau anifeiliaid cnoi cil rhaid anfon unrhyw ludw, hyd yn oed os mai lludw carcasau moch neu ddofednod ydyw, i safle tirlenwi trwyddedig.
- Rhaid i losgwyr bach ar y fferm sydd â chyfradd lwytho sy'n llai na 50 kg/awr gydymffurfio â deddfwriaeth o hyd[58] a [59]. Gallwch gael rhestr o losgwyr bach "a gymeradwywyd yn ôl eu math" oddi wrth Defra (gweler Cysylltiadau Defnyddiol).
- Gall y lludw o losgi carcasau moch a dofednod gael ei ddefnyddio ar dir er budd amaethyddol, ar yr amod eich bod wedi cofrestru eithriad gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.

---

[57] Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011

[58] Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Rhan 1. Deddf Aer Glân 1993, sy'n gwahardd mwg tywyll.

[59] Manyleb y Sefydliad Safonau Prydeinig, sydd ar gael i'r cyhoedd, ar gyfer deunydd wedi'i gompostio. Hwn yw'r meincnod cenedlaethol ar gyfer compost - y gofynion ar gyfer y broses gompostio, dewis y deunyddiau y caiff compost ei wneud ohonynt a sut y caiff ei labelu.

- Gall gwastraff organig a ddosberthir yn sgil-gynhyrchion anifeiliaid risg isel fod yn addas i'w gompostio neu ei dreulio mewn planhigion treulio anaerobig ond rhaid i'r planhigion a ddefnyddir fod wedi'u cymeradwyo o dan Reoliadau Sgil-Gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006 ac mae cyfyngiadau pori/cnydio amser benodol ar y tir yn dilyn unrhyw weithgarwch compostio/treulio anaerobig. (Gweler Manylion Cyswllt Iechyd Anifeiliaid)

Cysylltwch ag Iechyd Anifeiliaid os hoffech ystyried cyfleusterau llosgi symudol neu a rennir.

### 7.1.9 Trawsgydymffurfio

Os ydych yn cymryd rhan yng Nghynllun y Taliad Sengl mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r Gofynion Rheoli Statudol a hefyd y gofynion i gadw eich tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da.

Y Gofynion Rheoli Statudol sy'n ymwneud â rheoli gwastraff yw:

- Diogelu dŵr daear mewn perthynas â gwaredu neu gladdu deunyddiau a all peri'r risg o halogi dŵr daear.

## 7.2 Arfer Da

Mae'r adran hon yn rhoi cyngor a chanllawiau ar arfer amaethyddol da sy'n ychwanegol at eich rhwymedigaethau cyfreithiol.

**Crynodeb o Gamau Gweithredu Allweddol**

- Cynhyrchwch y gwastraff lleiaf posibl er mwyn lleihau ei effaith bosibl ar yr amgylchedd, ac arbedwch arian o ran costau trin a gwaredu (gweler adran 7.2.1). Bydd hyn hefyd yn golygu eich bod yn defnyddio deunyddiau crai mewn modd mwy effeithlon ac yn lleihau costau.

- Ymdriniwch â gwastraff amaethyddol yn unrhyw un o'r pum ffordd sylfaenol (yn unigol neu ar y cyd):
  - storiwch wastraff yn ddiogel ar eich daliad am hyd at 12 mis;
  - ewch â'r gwastraff i safle adfer neu waredu (gweler adran 7.2.2;
  - rhowch y gwastraff i rywun arall (gweler adran 7.2.2);
  - ewch ati i gofrestru 'eithriadau' trwyddedu sy'n gadael i chi adfer neu waredu mathau penodol o wastraff sy'n peri risg isel o achosi llygredd neu niweidio iechyd y cyhoedd. Bodlonwch amodau ar gyfer adfer neu waredu'r gwastraff hwnnw (gweler adran 7.2.3)
  - gwnewch gais am Drwydded Amgylcheddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd os ydych am ddarparu gwasanaeth rheoli gwastraff proffesiynol.

- Gwaredwch wastraff hylif wedi'i wanedu megis plaladdwyr, ac olew gwastraff, a charcasau anifeiliaid, gan ddilyn llwybrau gwaredu cydnabyddedig ac awdurdodedig.

- Mae tipio anghyfreithlon yn drosedd sy'n effeithio ar ddwy ran o dair o ffermwyr (Cyf 114), a gall lygru'r amgylchedd, achosi problemau iechyd ac effeithio ar fywyd gwyllt ac anifeiliaid fferm.  Os bydd yn digwydd ar eich tir chi rhowch wybod i'ch Awdurdod Lleol neu Asiantaeth yr Amgylchedd.

### 7.2.1 Lleihau gwastraff

- Nodwch a allwch osgoi cynhyrchu gwastraff yn gyfan gwbl, ac adolygwch arferion cyfredol ac ystyriwch ddeunyddiau amgen, neu ddefnyddio technegau amgen.
- Os na allwch osgoi cynhyrchu gwastraff, ystyriwch sut y gellid ei leihau drwy wneud newidiadau technegol, defnyddio techneg rheoli wahanol, a gwella hyfforddiant staff. Hefyd ystyriwch ei ailddefnyddio neu'r posibilrwydd o'i ailgylchu (Cyf 115), gan gynnwys compostio a threulio anaerobig. Mae canllawiau ar gael ar gynnal archwiliad o wastraff, ynghyd â syniadau ynghylch sut i leihau'r gost o ymdrin â gwastraff (Cyf 116).

### 7.2.2 Storio, adfer a gwaredu gwastraff

- Dim ond am hyd at 12 mis y cewch storio gwastraff a rhaid iddo gael ei storio'n ddiogel.  Rhaid sicrhau nad yw'n cael ei chwythu gan y gwynt nac yn achosi llygredd a all olygu bod angen i chi ddefnyddio cynwysyddion addas. Cadwch wahanol fathau o wastraff ar wahân er mwyn osgoi unrhyw halogi.
- Os ydych yn bwriadu symud eich gwastraff amaethyddol o'ch daliad i safle adfer neu waredu (gweler y Nodyn Cyfarwyddyd uchod), dylech gadarnhau'n gyntaf y math o wastraff a all gael ei dderbyn o dan eu trwydded, costau a gwaith papur, a'r ffordd orau o gludo'r gwastraff (byrnau, yn rhydd ac ati)
- Cyfeiriwch at Raglen Casglu ac Adfer Plastig Gwastraff Amaethyddol (Cyf 117) am ganllawiau ar drin, gwahanu a storio plastig gwastraff amaethyddol.  Holwch y sawl sy'n casglu eich gwastraff er mwyn gweld sut mae am iddo gael ei storio, ei wahanu a/neu ei gludo.
- Ni fydd angen i chi gofrestru fel cludwr gwastraff er mwyn cludo eich gwastraff amaethyddol eich hun, ond edrychwch ar adran 7.1.1. am eich rhwymedigaethau o dan y ddyletswydd gofal.

### 7.2.3 Eithriadau ar gyfer gwastraff

Mae eithriadau ar gyfer gwastraff yn eich galluogi i adfer neu waredu gwastraff sy'n peri risg isel o achosi llygredd neu niweidio iechyd pobl.

O 6ed Ebrill 2010 dosbarthwyd gweithrediadau gwastraff wedi'u heithrio yn bedwar categori:

Defnyddio gwastraff.
Trin gwastraff.
Gwaredu gwastraff.
Storio gwastraff.

Ceir dros 60 o eithriadau ar gyfer gwastraff sydd wedi'u rhannu rhwng y pedwar categori hyn. Mae tua hanner y rhain yn berthnasol i weithgareddau amaethyddol gan gynnwys yr enghreifftiau a nodir isod. Gwnaed mân newidiadau o ran y terfynau a'r amodau sy'n cwmpasu'r hyn y gallwch ei wneud o dan rai eithriadau ar gyfer gwastraff, o gymharu â'r system flaenorol. Ceir hefyd sawl eithriad newydd ar gyfer gwastraff a allai fod yn gymwys i ffermio. Mae angen adnewyddu eithriadau ar gyfer gwastraff bob tair blynedd.

- Dylech ystyried yr ystod eang o eithriadau sydd ar gael a'u rhoi ar waith fel y bo'n briodol. Ymhlith y rhai a allai fod yn ddefnyddiol ym myd amaethyddiaeth mae'r canlynol:

  - llosgi meinwe planhigion gwastraff yn yr awyr agored e.e. tocion cloddiau, boncyff, canghennau, pren heb ei drin
  - taenu carthion a deunydd planhigion o ddyfroedd mewndirol a ffosydd fferm
  - asglodi, rhwygo, torri neu falurio defnydd planhigion gwastraff e.e. boncyff, canghennau, gwastraff pren naturiol
  - byrnu, cywasgu, rhwygo, malurio gwastraff yn y man y caiff ei gynhyrchu e.e. defnyddio bin cywasgu i fathru gwastraff, byrnu plastig, mathru cynwysyddion plaladdwyr glân
  - gwaredu meinwe planhigion yn y man y cafodd ei gynhyrchu e.e. cnydau sydd wedi'u difa a oedd yn cael eu storio yn cael eu gwaredu ar dir i bydru
  - defnyddio gwastraff mewn ffordd fuddiol e.e. papur gwastraff fel gwely anifeiliaid, teiars ar bentwr silwair
  - trin y tir drwy daenu llaeth gwastraff sydd wedi'i wanedu er budd amaethyddol neu er gwelliant ecolegol.
  - llosgi gwastraff fel tanwydd mewn peiriannau e.e. olew gwastraff, pren a gwellt
  - llosgi gwastraff mewn llosgydd sydd wedi'i eithrio
  - trin y tir drwy daenu lludw o losgi carcasau moch a dofednod ar y fferm
  - trin plaladdwyr sydd wedi'u gwanedu mewn biowely
  - llosgi gwastraff fel tanwydd mewn proses a awdurdodwyd gan yr awdurdod lleol
  - claddu gwastraff o doiled cludadwy e.e. fel y defnyddir gan gasglwyr cnydau neu o ddigwyddiadau cyhoeddus ar eich fferm
  - storio nwyddau sydd wedi'u dychwelyd e.e. cynnyrch a fagiwyd a ddychwelwyd atoch gan y prynwr am nad oedd yn unol â'r fanyleb
  - compostio gwastraff bioddiraddadwy e.e. rhedyn, tocion cloddiau, sglodion pren, gwellt sydd wedi'i ddifa, pren neu wely papur.

- storio a defnyddio gwastraff adeiladu o safle amaethyddol at ddiben gwaith adeiladu ar eich fferm
- trin y tir drwy daenu gwastraff er budd amaethyddol neu ecolegol e.e. taenu gwastraff cnydau wedi'i gompostio a deunydd planhigion arall (tocion cloddiau ac ati) o safleoedd amaethyddol, a charthion ffosydd.

### 7.2.4 Gwaredu plaladdwyr gwastraff

Gweler hefyd rannau 3.2.5 a 4.2.5 am arfer da o ran storio a defnyddio plaladdwyr.

- Dylech leihau neu ddileu golchion tanciau chwistrellu drwy gynllunio'n ofalus, defnyddio cyfarpar rinsio neu chwistrellwyr metr uniongyrchol. Gallwch leihau nifer y golchion gwastraff pan fyddwch yn glanhau cyfarpar drwy ddefnyddio system fflysio effeithlon, yn hytrach na llenwi'r tanc chwistrellu â dŵr a'i bwmpio drwy'r cyfarpar. Efallai y bydd modd i chi ddefnyddio golchion i wneud mwy o'r plaladdwr sydd wedi'i wanedu, ond os na allwch wneud y canlynol:
  - defnyddio golchion ar y <u>cnwd</u> sydd wedi'i drin neu heb ei drin ar yr amod bod hyn yn rhan o delerau cymeradwyo'r cynnyrch;
  - defnyddio golchion ar <u>dir</u> o dan amodau a nodir mewn trwydded amgylcheddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu
  - defnyddio opsiwn gwaredu arall a gydnabyddir megis biowely, (sef cymysgedd o wellt cymysg, compost a phridd i ddiraddio plaladdwyr yn y bôn) (Cyf 66)
- Peidiwch ag ailddefnyddio cynwysyddion plaladdwyr oni bai eu bod mewn cyflwr da i storio plaladdwr union debyg o gynhwysydd sydd wedi cael difrod neu sy'n gollwng. Dylech rinsio cynwysyddion deirgwaith (Cyf 118) neu ddefnyddio cyfarpar rinsio arbenigol. Os yw'n bosibl, glanhewch y cynwysyddion pan fyddwch yn paratoi hylif gwanedu chwistrell cryfder gweithredol a defnyddiwch hylif rinsio i wanedu'r chwistrell. Storiwch y cynwysyddion glân ben i fyny a'u gorchuddio cyn eu gwaredu gan ddefnyddio contractwr gwaredu gwastraff trwyddedig neu safle adfer gwastraff.

**<u>Nodyn Diogelwch</u>**

Peidiwch â rinsio na glanhau cynwysyddion sydd wedi storio powdwr nwy cyanid hydrogen nac alwminiwm, magnesiwm na sinc ffosfid. Maent yn rhyddhau nwyon peryglus os byddant yn gwlychu. Rhaid trin y cynwysyddion hyn fel gwastraff peryglus. Gweler Adran 7.1.2

### 7.2.5 Gwaredu carcasau anifeiliaid

- Rheolir y broses o waredu carcasau anifeiliaid gan y gyfraith, a thrwy ddilyn llwybrau gwaredu cydnabyddedig fel yr amlinellir yn adran 7.1.8, diogelir yr amgylchedd rhag llygredd.

- Gall carcasau a anfonir i safleoedd prosesu cymeradwy (rendro) i'w gwaredu gael eu defnyddio i adfer rhywfaint o ynni.

# 8 Cyflenwadau dŵr ar y fferm

Mae bod yn ddoeth wrth ddefnyddio dŵr yn gwneud synnwyr da o ran eich busnes, ac yn helpu i gynnal amgylchedd iach.

**Bydd dilyn arfer da yn yr adran hon yn eich helpu i wneud y canlynol:**
Cynnal cyflenwadau dŵr, lleihau'r risg o lygru dŵr.
**Gall hefyd arbed arian i chi drwy:**
Leihau'r defnydd o ddŵr o'r prif gyflenwad, a chostau cysylltiedig pwmpio a gwresogi.

## 8.1 Gofynion Cyfreithiol

Dyma beth mae'n rhaid i chi ei wneud yn ôl y gyfraith mewn perthynas â chyflenwadau dŵr:

- Mae gan osodwyr a defnyddwyr gosodiadau dŵr ddyletswydd gyfreithiol i osgoi unrhyw wastraff, camddefnydd, defnydd gormodol neu halogi dŵr iach, yn ogystal â gadael i hynny ddigwydd[60] . Rhaid i chi osgoi halogi dŵr o'r prif gyflenwad o seiffon cefn neu lif cefn. (Cyf 119 ac Atodiad 5 – Mesurau a chyfrifoldebau i osgoi halogi a gwastraffu cyflenwadau dŵr cyhoeddus).
- Os byddwch am gymryd mwy nag 20m$^3$ y dydd o afon, nant neu gamlas, neu o ffynhonnell danddaearol, bydd angen trwydded arnoch bron yn sicr. Os ydych yn bwriadu cronni dŵr ar gwrs dŵr, bydd angen trwydded arnoch. Cysylltwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd am ragor o wybodaeth a chostau trwydded.
- Os oes gennych drwydded tynnu dŵr, a bod terfyn amser iddi, efallai y bydd angen i chi gyfiawnhau i Asiantaeth yr Amgylchedd eich bod yn defnyddio dŵr mewn modd effeithlon pan fyddwch yn ailgyflwyno cais am eich trwydded.

### 8.1.1 Trawsgydymffurfio

Os ydych yn cymryd rhan yng Nghynllun y Taliad Sengl mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r Gofynion Rheoli Statudol a hefyd y gofynion i gadw eich tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da.

Y safon berthnasol sy'n gyson â chadw tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (CAAD) yw:

- M - dyfrhau dŵr - i reoli'r defnydd o ddŵr, drwy reoli'r broses o dynnu dŵr i'w ddyfrhau drwy broses dynnu drwyddedig.

[60] Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999.

## 8.2 Arfer Da

Mae'r adran hon yn rhoi cyngor a chanllawiau ar arfer amaethyddol da sy'n ychwanegol at eich rhwymedigaethau cyfreithiol.

**Crynodeb o Gamau Gweithredu Allweddol**

Deall sut mae dŵr yn llifo o amgylch eich fferm, a nodi meysydd lle y gallwch fod yn fwy effeithlon ac arbed arian.

- Cadwch lygad ar eich mesurydd a chofnodi'r darlleniadau p'un a ydych yn tynnu dŵr yn uniongyrchol o nant neu dwll turio, neu'n defnyddio dŵr o'r prif gyflenwad, neu gyfuniad o'r ddau. Os bydd defnydd yn anghyffredin o uchel am fis penodol byddwch yn gwybod bod dŵr yn gollwng neu fod problem rhywle arall yn y system.

- Ymdriniwch ag unrhyw ollyngiadau, tapiau'n diferu, pibellau a adawyd i redeg.

- Cynhaliwch archwiliad o ddŵr (Cyf 120) er mwyn nodi ymhle y gellir lleihau'r defnydd o ddŵr, megis llai o olchi i lawr, o fewn gofynion cyfreithiol, neu drefnu casglu llaeth bob yn ail ddydd, os yw'n bosibl, gweler adran 8.2.1

- Mae rhai gweithgareddau ffermio'n defnyddio cryn dipyn o ddŵr - dilynwch arfer da ar gyfer y rhain, gweler adrannau 8.2.2, dyfrhau cnydau, 8.2.3, golchi llysiau, ac 8.2.4 dŵr ar gyfer da byw.

- Ystyriwch a yw'n ymarferol **casglu dŵr glaw** o doeon i'w ddefnyddio ar eich fferm neu'ch daliad - fe'i gelwir yn 'cynaeafu dŵr glaw' yn aml (Cyfeiriadau 120 a 121), gweler adran 8.2.5.

### 8.2.1 Archwiliadau Dŵr

- Cyfeiriwch at yr adran 'rhagor o wybodaeth' am ganllaw cam wrth gam ar gynnal archwiliad dŵr (Cyfeiriadau 120 a 121).

- Nodwch faint o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio'n gyffredinol ynghyd â chost hynny. Dylech gynnwys ffynonellau wedi'u mesur a ffynonellau eraill a darllen mesuryddion o leiaf unwaith y mis. Peidiwch ag anghofio'r costau gwirioneddol - dylech gynnwys y ffi a godir arnoch am eich cyflenwad neu drwydded echdynnu, a'ch costau gweithredol a chynnal a chadw.
- Os ydych yn ffermwr llaeth mawr, sy'n defnyddio cryn dipyn o ddŵr, efallai y bydd yn economaidd ymarferol cyflogi ymgynghorydd dŵr i osod

cofnodwr dŵr a all gofnodi faint o ddŵr y mae'ch fferm yn ei ddefnyddio'n awtomatig.

- Cynhaliwch archwiliad o'ch defnydd o ddŵr drwy edrych yn fanwl ar bob gweithgaredd unigol. Bydd pa mor aml y mae'n digwydd yn pennu faint o ddŵr a gaiff ei ddefnyddio bob blwyddyn.
  Wrth gynnal yr archwiliad cymharwch eich defnydd â gwybodaeth safonol (lle y bo ar gael) er mwyn nodi rhai gwelliannau - er enghraifft drwy wneud mwy o frwsio sych neu grafu, neu drwy newid ffroenellau pibellau a phwysedd dŵr. Rhowch unrhyw welliannau ar waith gan adolygu a monitro'r defnydd o ddŵr yn rheolaidd.
- Dylech chwilio am ollyngiadau yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys edrych am dapiau sy'n diferu, pibellau a ffroenellau sy'n gollwng, a mannau anarferol o wlyb o amgylch y pibellau. Dylech fonitro llifau dŵr drwy gofnodi darlleniadau mesuryddion yn rheolaidd, a gwneud hynny'n amlach os amheuir bod problem. Dylech ynysu a draenio pibellau nad ydynt yn cael eu defnyddio dros y gaeaf er mwyn eu hatal rhag rhewi.
- Mae canllawiau pellach ac awgrymiadau ar sut i wneud y defnydd gorau o ddŵr, ynghyd â lleihau costau, ar gael (Cyfeiriadau 116, 120 a 121).

### 8.2.2 Dyfrhau cnydau

- Defnyddiwch 'amserlenni dyfrhau', ac arfer da, er mwyn gwneud defnydd effeithlon o ddŵr (Cyf 122).
- Ystyriwch ddefnyddio system dyfrhau genwair fel eich bod yn fwy manwl gywir na phetaech yn defnyddio gwn. Ar gyfer rhai cnydau, megis llysiau, gellir defnyddio system dyfrhau diferynnu er mwyn lleihau'r defnydd o ddŵr.
- Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r pwmp cywir a phibell o'r maint cywir ar gyfer y pwysedd a nodwyd. Gwnewch addasiadau er mwyn osgoi cywasgu oherwydd defnynnau mawr ac er mwyn osgoi dŵr ffo.
- Dylech osgoi bod yn anwastad drwy beidio â dyfrhau pan fo'n wyntog. Drwy ddyfrhau gyda'r nos byddwch yn osgoi unrhyw golledion yn sgîl anweddu, ond byddwch yn ymwybodol o'r sŵn posibl a all gael ei greu wrth leoli eich pwmp.
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael os oes angen i chi greu cronfa ddŵr dyfrhau (Cyf 123).

### 8.2.3 Golchi llysiau

- Ystyriwch ailgylchu dŵr a ddefnyddir i olchi llysiau mewn cylchredau golchi nad oes angen dŵr o ansawdd mor uchel arnynt, neu efallai y gallech lanhau'r dŵr i'w ailddefnyddio.
- Gellid storio a defnyddio dŵr golchi i ddyfrhau. Edrychwch i weld a yw dŵr o'r fath o ansawdd digon uchel ar gyfer y cnwd dan sylw.
- Dylech gael cyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd os oes angen cael gwared ar ddŵr a ddefnyddir i olchi llysiau.

## 8.2.4 Dŵr ar gyfer da byw


- Rhowch fwlch priodol ar gyfer aer wrth y man lle y rhyddheir dŵr i gafnau yfed da byw, a sicrhewch nad ydynt yn gorlifo, drwy osod y falf pêl yn ddigon isel, gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd, a'u lleoli'n ofalus.
- Ar ffermydd llaeth ystyriwch ailddefnyddio dŵr oeri platiau i'w yfed gan dda byw, neu at ddibenion golchi a glanhau. Gall fod yn hynod ddefnyddiol cynaeafu dŵr glaw, a gall hidlydd UV syml drin y dŵr i lefel addas ar gyfer stoc.
- Efallai y byddwch yn gallu gosod pympiau pori lefel isel neu, ar safleoedd â digon o flaen hydrolig, hwrddbympiau er mwyn defnyddio dŵr o ddŵr wyneb cyfagos. Os gadewir caeau'n segur yn y gaeaf, cofiwch ddraenio'r system cafnau dŵr er mwyn osgoi gollyngiadau.
- Mae cafnau dŵr o bell a weithredir gan wartheg yn lleihau'r angen am rwydweithiau hir o gafnau dŵr, tra'n sicrhau nad yw da byw yn mynd i ddŵr wyneb.
- Ar ffermydd moch a dofednod sicrhewch nad yw yfwyr yn gollwng dŵr. Dylech ystyried newid i gynlluniau gwell er mwyn sicrhau llai o golledion dŵr. Mae gwasarn dofednod gwlyb yn cynyddu'r amonia a ryddheir, a gall achosi problemau i les yr adar.

## 8.2.5 Cynaeafu dŵr glaw


- Ar fferm, mae llawer o opsiynau o ran casglu a storio dŵr glaw. Ymhlith yr opsiynau rhad mae defnyddio cynwysyddion diwydiannol wedi'u hailgylchu.
- Mae'r mathau o gyfarpar cynaeafu dŵr glaw a'u costau yn amrywio'n fawr. Ceir llawer o gwmnïau a wnaiff gynnal arolwg am ddim a rhoi cyngor i chi ar ba system a allai fod o fudd i chi, ac am ba hyd y telir amdani.

Fel y gallwch ei weld o'r enghreifftiau isod, mae'n hawdd gwneud eich system eich hun, a storio dŵr i olchi eich buarth a'ch cerbydau. Mae'n hawdd plymio system jetlif i mewn i'r tanciau hyn er mwyn golchi eich buarth a'ch peiriannau.


**Recycled container with lid 6m$^3$ =£680**



**Brand New storage tank 2.5m$^3$ =£465**



**IBC container (recycled) 1m$^3$ -£70**



Gellir disgrifio faint o ddŵr y gallai fferm llaeth ei arbed mewn astudiaeth achos gyffredinol: gallai fferm llaeth yn Sir Gâr ag arwynebedd to o: 5000m$^2$ ddefnyddio dŵr glaw i gyflenwi dŵr yfed i'r fuches odro a'i ddefnyddio at ddibenion golchi. Mae Sir Gâr yn gweld 1500mm o law y flwyddyn ar gyfartaledd, y swm o ddŵr sydd ar gael i'r fferm: 1,875,000 litr y flwyddyn. Gyda thaliad dŵr cyfunol fesul m$^3$:£1.30 (ffigur cynrychioliadol), gwerth ariannol y dŵr glaw y gellir ei ddefnyddio yw £1876 y flwyddyn.

Gweler ‘Effective use of water on Dairy Farms’, DairyCo, Awst 2007 (Cyf 121) i gael rhagor o wybodaeth.

**Atodiad 1 – Y Cod Nitradau**

Y Cod Ymarfer Amaethyddol Da i reoli cyfanswm y nitradau a gollir ac i ddiogelu rhag llygredd nitradau.

Mae Erthygl 4 o Gyfarwyddeb Nitradau'r CE (91/676/EEC) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y Cynulliad ddarparu Cod y gall ffermwyr ei ddefnyddio'n wirfoddol i bennu lefel gyffredinol sy'n diogelu dyfroedd rhag llygredd nitradau. Mae'r Cod Nitradau hwn yn tynnu ynghyd yr holl gyngor a roddir yn y Cod Ymarfer Amaethyddol Da er mwyn cyfrannu at y diben hwn.

**Rhaid** i Reolwyr Tir mewn Parthau Perygl Nitradau gydymffurfio â'r rheolau gorfodol fel y'u nodir yn Rhaglen Weithredu Cymru (Cyf. 3).

Mae gwrtaith nitrogen (N) yn golygu gwrtaith artiffisial a gwrtaith organig.

Mae 'gwrtaith organig' yn cynnwys tail a slyri pob math o dda byw.

**Cyfnodau gwasgaru ar gyfer gwrtaith organig**

- Mae tail da byw, fel slyri gwartheg a moch a thail dofednod, a slwtsh carthion yn cynnwys cyfran gymharol uchel o nitrogen parod (h.y. mwy na 30% o'r nitrogen ar gael ar ffurf barod). Dylech ddefnyddio'r gwrteithiau hyn ar adegau pan fydd cnydau'n gallu defnyddio'r nitrogen yn effeithlon. Os yw hynny'n bosibl, ni ddylech eu defnyddio yn yr hydref na dechrau'r gaeaf. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar briddoedd tywodlyd a bas lle mae'r perygl mwyaf o nitrad yn gollwng o'r tir.

- Gallwch ddefnyddio gwrtaith organig nad yw'n cynnwys llawer o nitrogen parod (h.y. llai na 30% o'r nitrogen ar gael ar ffurf barod), fel tail buarth, cacen slwtsh carthion a chompost wedi'i wneud o wastraff gwyrdd, unrhyw bryd os yw amodau'r caeau'n addas i osgoi dŵr ffo.

**Cyfnodau gwasgaru gwrtaith artiffisial**

- Mae'n bwysig mai dim ond ar adegau pan fydd y cnwd yn gallu defnyddio'r nitrogen yr ydych yn defnyddio gwrtaith artiffisial. Ni ddylech ei ddefnyddio ar borfa rhwng 15 Medi a 15 Ionawr nac ar gnydau eraill rhwng 1 Medi a 15 Ionawr oni bai bod ei angen ar gnwd penodol yn ystod y cyfnodau hyn.

**Cadw nitrogen allan o ddŵr wyneb**

- Ni ddylech ddefnyddio gwrtaith organig na gwrtaith artiffisial
  - pan fo'r pridd yn ddwrlawn, adeg llifogydd, pan fo'r tir wedi rhewi'n galed neu wedi'i orchuddio gan eira

- Dylech fod yn ofalus iawn wrth ddefnyddio unrhyw fath o wrtaith nitrogen ar gaeau os oes yna berygl y bydd nitrogen yn mynd i ddŵr wyneb trwy ddŵr ffo. Dylech gymryd i ystyriaeth pa mor serth yw'r tir, amodau tywydd,

gorchudd tir, pa mor agos yw'r tir at ddŵr wyneb, y math o bridd a phresenoldeb traeniau tir.

- Ni ddylech ddefnyddio gwrtaith organig o fewn:
    - 10 metr i ddŵr wyneb, gan gynnwys ffosydd mewn cae; neu
    - 50 metr i ffynnon neu ddyfrdwll.

- Dylech fod yn ofalus iawn wrth ddefnyddio gwrtaith organig ar dir serth yn ymyl dyfroedd wyneb.

- Wrth wasgaru gwrtaith organig dylech geisio bod mor gywir â phosibl. Dylech osgoi defnyddio dulliau taflu dan wasgedd uchel (e.e. dryll glaw, dryll slyri a chwistrell) wrth wasgaru slyri gan fod hyn yn achosi i gymylau o ddafnau bychain ddrifftio oddi ar y llwybr.

- Dylech wasgaru gwrtaith artiffisial yn ofalus ac ar y gyfradd gywir. Ni ddylech ei wasgaru o fewn 2 fetr i ffosydd neu gyrsiau dŵr.

**Storio gwrtaith organig**

- Dylech ddarparu digon o le er mwyn sicrhau bod maetholion y gwrtaith ar eu hanterth ac yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau. Gall hyn olygu y byddwch yn prynu llai o wrtaith artiffisial. Am resymau gweithredol ac i osgoi llygredd gan nitradau, hwyrach y bydd angen gwerth 5 mis o le storio arnoch ar gyfer slyri gwartheg (a fydd yn cynyddu i 6 mis yn achos slyri moch a thail dofednod).

- Dylid storio slyri mewn llestr neu gynhwysydd sydd wedi'i adeiladu'n arbennig at y diben ac y dylid ei selio a sicrhau nad oes hylif yn dianc ohono. Efallai y bydd dulliau eraill o storio (e.e. mewn siediau neu das dros dro mewn cae) yn ddigonol ar gyfer rhai mathau o wrteithiau nad ydynt yn slyri.

- Dylai gwrtaith organig sy'n cael ei storio mewn caeau ar safleoedd dros dro fod yn solet (h.y. yn addas i'w bentyrru, felly ni all fod yn hylif). Dylai tail dofednod solet nad oes sarn yn gymysg ag ef, ac sy'n cael ei storio mewn caeau ar safleoedd dros dro, gael ei orchuddio â deunydd anhydraidd.

- Ni ddylid lleoli safleoedd dros dro mewn caeau sy'n agored i lifogydd neu sy'n dueddol o fod yn ddwrlawn. Dylid lleoli pentyrrau o leiaf 10 metr oddi wrth ddŵr ffo a draeniau tir, a 50 metr oddi wrth ffynhonnau neu ddyfrdyllau. Ni ddylid eu lleoli yn yr un fan am fwy na 12 mis, na'u gosod ar safle a ddefnyddiwyd yn ystod y ddwy flynedd flaenorol.

**Y terfyn cae N ar gyfer gwrtaith organig**

- I gyfyngu ar y nitradau sy’n gollwng o’r tir, ni ddylech ddefnyddio mwy na 250 kg/ha o nitrogen mewn gwrtaith organig ar unrhyw gae dros gyfnod o 12 mis.

- Ni ddylai cyfanswm y nitrogen a ddefnyddir, h.y. cyfanswm y nitrogen a fydd ar gael i’r cnwd yn dibynnu ar adeg y flwyddyn a’r dull gwasgaru, fod yn fwy na’r hyn sydd ei angen ar y cnwd. Gall hyn olygu y byddwch yn defnyddio llai na chyfanswm y terfyn nitrogen o 250 kg/ha.

- Mae yna becynnau syml sy’n gallu amcangyfrif cyfanswm y nitrogen sydd ar gael i gnydau o dail anifeiliaid (Cyf 26), neu gallwch ddefnyddio tablau (Cyf 25).

**Cynllunio i Ddefnyddio Nitrogen**

- Dylech gymryd eich amser i bennu faint o wrtaith nitrogen sydd ei angen ar bob cnwd ym mhob cae. Ni ddylech ddefnyddio mwy o nitrogen nag sydd ei angen ar y cnwd gan y bydd hyn yn cynyddu cyfanswm y nitrad sy’n gollwng o’r tir a bydd yn wastraff arian hefyd. Dylech ystyried faint o nitrogen sydd eisoes yn y pridd. Bydd hyn yn dibynnu ar y math o bridd, cnydio blaenorol, glawiad ac unrhyw wrtaith organig rydych chi wedi’i ddefnyddio. Mae nifer o systemau argymell ar gael i’ch helpu (Cyf 29 a Chyf 30). Pan fo cyflenwad nitrogen y pridd yn uchel, trwy wneud dadansoddiad o nitrogen mwynol y pridd, gallwch gael atebion gwell o ran y math o wrtaith sydd ei angen.

- Dylech gadw cofnodion cywir o’r dyddiadau a’r cyfanswm o wrtaith nitrogen artiffisial, gwrtaith organig a deunyddiau eraill sy’n cynnwys nitrogen a ddefnyddiwyd fel gwrtaith nitrogen (e.e. slwtsh carthion), er mwyn helpu i bennu faint o wrtaith nitrogen sydd ei angen ar gyfer cnydau yn y dyfodol.

## Atodiad 2 – Mapiau Perygl Erydu Pridd

Yn deillio o:

Controlling Soil Erosion, Defra, 2005 – Pennod 2: Field guide for an erosion risk assessment

**Erydu dŵr**

Mae'r asesiad risg hwn yn cyfeirio at symudiad gwaddodion yn y cae ac, o bosibl, ei drosglwyddo i gyrsiau dŵr neu lefydd eraill fel eiddo neu ffyrdd cyfagos.

| Priddoedd | Llethrau serth > 7 gradd | Llethrau cymedrol 3 - 7° | Llethrau graddol 2 - 3° | Tir gwastad <2° |
|---|---|---|---|---|
| Priddoedd tywodlyd a siltiog | Uchel iawn | Uchel | Cymedrol | Isel |
| Priddoedd canolig a chalchaidd | Uchel | Cymedrol | Isel | Isel |
| Priddoedd trwm | Isel | Isel | Isel | Isel |

Mae arwyddion o erydu a all fod yn gysylltiedig â phob un o'r dosbarthiadau risg yn cael eu disgrifio isod. Dylai arsylwadau o'r fath ddiystyru asesiad sy'n deillio o'r tabl yn unig.

**Ardaloedd Risg Uchel Iawn** – Cornentydd yn debygol o ddatblygu bron bob blwyddyn a rhigolau'n datblygu weithiau yn ystod cyfnodau gwlyb iawn.
**Ardaloedd Risg Uchel** – Cornentydd yn debygol o ddatblygu bron bob tymor yn ystod cyfnodau gwlyb.
**Ardaloedd Risg Gymedrol** – Hwyrach y gwelir gwaddodion yn rhedeg i ffyrdd, ffosydd neu gyrsiau dŵr a rhigolau weithiau'n yn ystod rhai tymhorau ar gyfnodau gwlyb iawn.
**Ardaloedd Risg Isel** – Anaml y gwelir gwaddodion yn symud ond gall dŵr ffo redeg i ffosydd neu gyrsiau dŵr.

**Dŵr ffo neu waddodion pridd**

Mae'r asesiad risg hwn yn cyfeirio at ddŵr ffo sydd fel arfer, ond nid bob amser, yn ddŵr lliw. Gall y dŵr ffo hwn gludo gronynnau pridd mân, llygryddion hydawdd fel tail, maetholion planhigion neu blaladdwyr i gyrsiau dŵr.


Mae arwyddion o ddŵr ffo a all fod yn gysylltiedig â phob un o'r dosbarthiadau risg yn cael eu disgrifio isod.

**Ardaloedd Risg Uchel** – llethrau sy'n fwy serth na 7° lle gwelir dŵr ffo bron bob blwyddyn ar gyfnodau gwlyb.
**Ardaloedd Risg Gymedrol** – llethrau rhwng 3 a 7° lle gwelir dŵr ffo weithiau ar gyfnodau gwlyb a bron bob blwyddyn ar gyfnodau gwlyb iawn.
**Ardaloedd Risg Isel** – tir gwastad neu lethrau hyd at 3° lle gwelir dŵr ffo weithiau ar gyfnodau gwlyb iawn.

**Perygl llifogydd**

Mae tir lle ceir gorlifo yn gallu cael ei effeithio gan erydu a dŵr ffo, yn enwedig wrth i'r tir gael ei drin. Mae'n rhaid ystyried bod tir sy'n gorlifo'n rheolaidd (o leiaf 1 flwyddyn o bob 3) yn agored iawn i niwed a dylid nodi hynny ar eich map.

Dylid defnyddio'r map isod sy'n dangos y categorïau perygl a amlinellir uchod, wrth gynllunio i gylchdroi cnydau a'u rheoli er mwyn lleihau'r perygl o ddŵr ffo a cholli pridd.


Example of farm erosion risk map:

Noder: Mae dŵr ffo cronedig o ddalgylch sydd â chyfran uchel o gaeau risg isel yn dal i allu achosi difrod difrifol i gyrsiau dŵr, a gall hyn olygu y bydd angen gweithredu.

## Cynllunio ffermydd a chnydau

Mae'r map risg yn dangos pa gaeau neu rannau o gaeau sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ganlyniad i law trwm neu law cyson neu lifogydd. Efallai y bydd y map yn dangos y gallai gwrychoedd newydd achosi llai o erydu neu y gellid creu mynedfa newydd fel bod llai o waddodion yn rhedeg i'r ffordd neu i gyrsiau dŵr.

Y cam nesaf yw creu cynllun i gylchdroi cnydau a defnyddio tir fel bod llai o dir moel yn debygol o gael ei erydu gan y glaw. Mae tuedd pridd i erydu yn dibynnu ar y gorchudd tir neu'r da byw sy'n defnyddio'r tir, a gellir ei ystyried mewn tri chategori eang. Mae rhai enghreifftiau o arferion rheoli tir ym mhob categori wedi'u rhestru ar y dudalen nesaf.

### Defnydd tir risg uchel

Mewn safleoedd **Risg Uchel Iawn** a **Risg Uchel**, ceisiwch osgoi'r defnydd tir canlynol oni bai eich bod yn cymryd camau priodol:

- Grawnfwydydd gaeaf sy'n cael eu hau'n hwyr
- Tatws
- Betys siwgr
- Llysiau maes
- Magu moch
- Ail-hadu porfa
- Corn porthiant
- Gaeafu stoc
- Cnydau porthi yn yr hydref neu'r gaeaf

### Defnydd tir risg gymedrol

Mewn safleoedd **Risg Uchel Iawn** a **Risg Uchel**, gellir caniatáu'r defnydd tir risg gymedrol canlynol gyda gofal:

- Grawnfwydydd gaeaf sy'n cael eu hau'n gynnar
- Rêp hadau olew – hau yn y gaeaf a'r gwanwyn
- Grawnfwydydd sy'n cael eu hau yn y gwanwyn
- Had llin sy'n cael ei hau yn y gwanwyn
- Coedlan cylchdro byr/Miscanthus

### Defnydd tir risg isel


Dylech ystyried defnyddio tir fel a ganlyn mewn safleoedd **Risg Uchel Iawn** a **Risg Uchel** fel modd o leihau'r perygl erydu cyffredinol:

- Lleiniau glas porfa hir
- Porfa barhaol
- Coetir (ac eithrio coedlan tymor byr)

Trwy gylchdroi cnydau a newid defnydd tir, er enghraifft, newid o gnydau sy'n cael eu hau ddiwedd yr hydref i rai sy'n cael eu hau yn y gwanwyn mewn safleoedd risg uchel, gellir lleihau'r tebygolrwydd o erydu'n sylweddol.

**Atodiad 3 – Map risg cynllun rheoli tail**

**Figure 1: Example of farm waste management plan.**



**Atodiad 4**

**Enghraifft o Gynllun Argyfyngau Amgylcheddol**

**Rhestr Gyswllt – argymhellion – i'w hychwanegu yn unol â gofynion ffermydd unigol**

Enw'r Fferm: Cod Post:
Cyfeirnod Grid y Fferm:

| **Enw/sefydliad** | **Rhif ffôn** |
|---|---|
| Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru<br>Llinell Gymorth Frys 24 awr<br>Llinell Rybuddion Llifogydd<br>Llinell Gymorth Gyffredinol<br>Cyswllt lleol | <br>0800 80 70 60<br>0845 988118<br>08708 506506 |
| Cynghorau Sir Lleol<br>Argyfyngau<br>Priffyrdd<br>Lles anifeiliaid | |
| Dŵr Cymru.<br>Argyfwng cyflenwad dŵr a darparwyr carthffosydd | 0800 0520132 |
| Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch<br>Cyswllt lleol | 0845 3009923 |
| Gwasanaeth Tân<br>Heddlu<br>Gwasanaeth Ambiwlans | |
| Contractwr amaethyddol/slyri<br>Contractwr trwyddedig rheoli gwastraff neu lanhau<br>Cylch Peiriannau Lleol<br>Cyflenwr olew<br>Contractwr glanhau olew | |
| Unigolion sydd ag allwedd/staff | |
| Defnyddwyr dŵr i lawr yr afon<br>Cyswllt lleol e.e. – fferm bysgod<br>safle dŵr potel<br>cymydog sy'n tynnu dŵr | |
| Swyddfa Ranbarthol Llywodraeth y Cynulliad | |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | |
| | |

| | |
|---|---|
| Cyswllt Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr/<br>Undeb Amaethwyr Cymru | |

| | |
|---|---|
| Milfeddyg | |
| Trydan<br>Nwy | |
| **Eraill – i gyd-fynd â gweithrediadau'r fferm** | |

## MAP

Ar fap y fferm, nodwch y prif ffynonellau llygredd, llwybr posibl y deunydd llygredig ac unrhyw ddulliau lliniaru y gellir eu rhoi ar waith. **Er enghraifft:**

**Prif Ffynonellau Llygredd (gyda llwybrau/safleoedd tebygol wedi'u nodi)**

Tanc tun a phwll derbyn slyri – gallai orlifo i ffos
Tomen dail y fferm – gallai ddraenio i ffos
Clamp seilo a thanc elifiant – gorlifo i ffos
Storfa olew tanwydd – heb fwnd o'i gwmpas felly gallai ddraenio i ffos
Sied y gwartheg – draenio i'r tanc/pwll derbyn slyri
Parlwr – draenio i'r tanc/pwll derbyn slyri
Llaethdy'n draenio fel arfer i'r tanc slyri, ond gallai gollyngiadau redeg i ffos
Gwrtaith hylif – o dan orchudd – y bwnd o'i gwmpas yn rhy fach i ddal y gwrtaith, a gallai orlifo i ffos
Pibell ar gyfer y system wmbilig – croesi ffosydd

Gallai enghreifftiau eraill gynnwys storfa neu fan defnyddio diheintyddion, ardal cadw sgerbydau, draeniad y clos wedi'i halogi. Hefyd, bydd gan rai ffermydd Drwydded Amgylcheddol – nodwch y lleoliad(au) ar y map.

**Yna dylech gynnwys rhestr o Gamau Gweithredu ar gyfer Argyfyngau Llygredd – gan gyfeirio at eich map, er enghraifft:**

**Ffos 1** ochr yn ochr â phrif lôn y fferm: Cyn mynd o dan y ffordd mae pibell 12" – gellir ei blocio gyda thopyn neu bridd o'r lan gyfagos
**Ffos 2:** mynediad ar waelod cae 9.67 cyn y ffordd, ond mae'n bibell 36" felly bydd angen X o fêls gwellt i'w blocio
**Ffos 3:** olew neu gemegyn ar yr iard - blocio uwchlaw'r mynediad i'r pwll cyntaf gyda phridd neu fêls gwellt. Fel arall, blociwch yr allanfa o bob pwll - pob pibell 8"
**Ffos 3 a 4:** gellir blocio gollyngiadau yn y system wmbilig yn y pyllau neu X a Y trwy ddefnyddio pridd/bêls gwellt

**Atodiad 5**

Mesurau a Chyfrifoldebau i Osgoi Llygru a Gwastraffu Cyflenwad Dŵr Cyhoeddus

Cyflwyniad

Fel pob perchennog a deiliad eiddo sydd â chyflenwad dŵr cyhoeddus, mae gan ffermwyr ddyletswydd i gydymffurfio â Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel "y Rheoliadau"). Trwy ddilyn y gofynion hyn, byddant yn diogelu eu cyflenwadau dŵr rhag ei halogi, yn osgoi gwastraffu dŵr (a fydd yn cynyddu eu costau dŵr mesuredig) ac yn sicrhau bod ganddynt systemau plymio dibynadwy a chadarn ar waith a fydd yn darparu gwasanaeth da.

Mae'r Water Regulations Guide a gyhoeddwyd gan y Water Regulations Advisory Scheme (WRAS) yn darparu canllawiau ar sut i fodloni gofynion y Rheoliadau.

Mae WRAS hefyd yn cynhyrchu canllaw gosod cryno o'r enw "Agricultural Premises" sy'n crynhoi'r wybodaeth allweddol ar gyfer unrhyw un sy'n gosod, addasu neu gynnal gosodiadau plymio ar eiddo amaethyddol. Mae'r canllaw hwn wedi'i gynhyrchu mewn cydweithrediad ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru.

Mae'r ddau ganllaw ar gael gan WRAS (ffôn: 01495 248454) a gellir lawrlwytho "Agricultural Premises" am ddim o wefan WRAS: www.wras.co.uk

Cyfrifoldebau

Mae Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn diffinio'r cyfrifoldebau a'r cosbau a wynebir gan Gyflenwyr Dŵr a'u cwsmeriaid.

Y Cyflenwr Dŵr

Y cyflenwr dŵr sy'n gyfrifol am ddarparu dŵr iach. Felly, mae gan y cyflenwr ddyletswydd i sicrhau nad yw'r dŵr hwnnw'n cael ei lygru. Un ffynhonnell o lygredd yw'r halogyddion sy'n llifo'n ôl trwy bwyntiau cyflenwi (tapiau ac ati) sy'n gallu digwydd os nad yw system blymio'r cwsmer yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Mae cyflenwyr dŵr yn ceisio atal hyn rhag digwydd trwy wirio Hysbysiadau cyn rhoi caniatâd ar gyfer gosodiadau arfaethedig, a thrwy arolygu cyfran o eiddo newydd a chyfredol.

Hysbysiad

Mae'r Rheoliadau'n gofyn am gyflwyno i'r cyflenwr dŵr hysbysiad ffurfiol o wybodaeth benodol (sy'n cynnwys llun/diagram) am unrhyw osodiadau newydd, eitemau o gyfarpar penodol ac ychwanegion a newidiadau i systemau plymio ym mhob eiddo annomestig (sy'n cynnwys eiddo amaethyddol). Dim ond ar ôl cael caniatâd neu os na fydd y cyflenwr dŵr wedi ymateb o fewn 10 diwrnod i gyflwyno'r hysbysiad y dylid dechrau ar osodiadau.

Arolygiadau

Gall y cyflenwr dŵr arolygu eiddo newydd a chyfredol i weld a ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Rhoddir blaenoriaeth i eiddo lle bernir bod mwy o berygl o lygredd. Fel arfer, mae eiddo amaethyddol yn eiddo risg uchel, ond bydd gan fathau eraill o eiddo risgiau uchel tebyg hefyd.

Y Cwsmer

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwsmer (perchennog neu ddeiliad) sicrhau nad oes yna berygl y bydd y dŵr yn cael ei lygru mewn unrhyw ffordd, ac mae'n rhaid iddo ysgwyddo cyfrifoldeb am osod ffitiadau i sicrhau nad yw'r dŵr a gyflenwir yn agored i gael ei lygru, ei wastraffu, ei gamddefnyddio na'i ddefnyddio heb angen.

Dyma'r prif gamau sydd angen eu cymryd i atal llygru cyflenwad dŵr ar eiddo amaethyddol:-

1) Mae'n rhaid sicrhau bod gan bowlenni a chafnau yfed anifeiliaid a dofednod fwlch aer priodol yn y pwynt arllwys a falf arnofio neu ddyfais debyg i reoli llif y dŵr ac i osgoi gorlifo.
2) Cyn cysylltu pibell ddŵr i dap, mae'n rhaid gosod dyfais atal ôl-lifiad ddigonol (fel y nodir yn y rheoliadau) ar y bibell sy'n darparu dŵr i'r tap hwnnw.
3) Ni ddylid cysylltu unrhyw bibell neu ffitiad sy'n cynnwys dŵr nad yw'n iach (e.e. dŵr o'r prif gyflenwad sydd eisoes wedi'i ddefnyddio, dŵr glaw, dŵr wedi'i ailgylchu neu unrhyw ddŵr nad yw'n cael ei gyflenwi gan y cyflenwr dŵr) i ffitiadau neu bibellau sy'n cynnwys dŵr iach, oni bai fod dyfais atal ôl-lifiad ddigonol wedi'i gosod.
4) Dim ond trwy ddyfais atal ôl-lifiad sy'n briodol ar gyfer lefel y risg y dylid bwydo cyflenwadau dŵr a ddefnyddir ar gyfer prosesau fferm (cymysgu cemegau ac ati).
5) Ni ellir gosod pibell neu ffitiad sydd mewn cysylltiad â deunydd wedi'i halogi, pa bynnag ddiogelwch a ddarperir. Dylid deall bod disel/petrol yn debygol iawn o lygru'r dŵr sydd mewn pibellau a ffitiadau plastig. Felly, ni ddylid gosod pibellau lle mae disel/petrol yn cael ei gadw, neu'n debygol o gael ei ollwng.
6) Mae'n rhaid sicrhau bod pob system ddyfrhau yn defnyddio'r ddyfais atal ôl-lifiad sy'n briodol ar gyfer y math o system a ddefnyddir.

Dyma'r prif gamau sydd angen eu cymryd rhag gwastraffu cyflenwad dŵr ar eiddo amaethyddol:-

1) Dylai'r holl bibellau y tu allan i amlen wresogi adeilad gael eu gosod o leiaf 750mm o dan y ddaear. Dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig y cyflenwr dŵr y gellir gosod pibellau y tu allan i amlen wresogi neu ar ddyfnder is o dan y ddaear. Gall diogelwch annigonol rhag rhew arwain at golli cyflenwad a gwastraffu dŵr.
2) Mae angen falfiau sy'n arnofio BS 1212 Rhan 2 neu 3 neu'r rheini a restrir gan WRAS ar gyfer sisternau a chafnau yfed anifeiliaid.

Ffitiadau Cymeradwy

Bydd pob ffitiad o ansawdd a safon briodol ac yn addas i'r amgylchiadau lle cânt eu defnyddio. Mae enghreifftiau o ffitiadau addas yn Water Fittings and Materials Directory WRAS, sydd i'w gweld ar wefan WRAS.

Pympiau

Os ydych yn bwriadu gosod pwmp atgyfnerthu sy'n tynnu mwy na 12 litr y funud, mae'n rhaid i chi gyflwyno hysbysiad i'ch cyflenwr dŵr lleol a chael caniatâd, fel y nodir uchod, cyn ei osod.